



RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:

52/2023

DYDDIAD CYHOEDDI:

09/05/2023

Gwerthuso'r Isafbris am Alcohol yng Nghymru – Adroddiad Interim ar Ymchwil gyda Manwerthwyr a Dadansoddi Meintiol

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80535-884-8

Teitl: Gwerthuso'r Isafbris am Alcohol yng Nghymru

Is-bennawd: Adroddiad Interim ar Ymchwil gyda Manwerthwyr a Dadansoddi Meintiol

Awduron: Martin Mitchell, Alessandra Sciarra, Nevena Ilic, Tilly Ruback, Nilufer Rahim, Simon Moore, Colin Angus, Terry Ng-Knight.

Adroddiad Ymchwil Llawn: Martin Mitchell, Alessandra Sciarra, Nevena Ilic, Tilly Ruback, Nilufer Rahim, Simon Moore, Colin Angus, Terry Ng-Knight. (2023). *Gwerthuso'r Isafbris am Alcohol yng Nghymru – Adroddiad Interim ar Ymchwil gyda Manwerthwyr a Dadansoddi Meintiol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad GSR rhif 52/2023.

Ar gael ar: <https://www.llyw.cymru/isafbris-am-alcohol-ffaith-ar-fanwerthwyr-adroddiad-interim-ar-ymchwil-gyda-manwerthwyr-dadansoddi-meintiol>

Safbwyntiau'r ymchwilwyr, ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru, yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Janine Hale
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: ymchwil.iechydagwasanaethaucymdeithasol@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Rhestr o dablau.....	2
Rhestr o ffigurau	4
Geirfa 5	
1. Cyflwyniad	6
2. Methodoleg	12
3. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth manwerthwyr am yr isafbris	17
4. Safbwyntiau manwerthwyr ar y polisi isafbris am alcohol	25
5. Profiadau o roi'r polisi ar waith	33
6. Canfyddiadau o'r effeithiau.....	39
7. Dadansoddiad o ddata gwerthiannau a phryniannau defnyddwyr	47
8. Casgliadau	86
9. Argymhellion	90
Cyfeiriadau.....	92
Atodiad A: Proffiliau manwerthwyr	95
Atodiad B: Canllaw pynciau'r cyfweiliadau.....	102
Atodiad C: Gwyriadau o'r cynllun gwerthuso Isafbris am Alcohol	108
Atodiad D: Tablau cyfernodau data gwerthiannau	109
Atodiad E: Tabl cyfernodau'r dadansoddiadau sensitifrwydd.....	113
Atodiad F: Tablau cyfernodau'r data gwerthiannau ar gyfer siopau ar hyd y ffin yng Nghymru a Lloegr	115
Atodiad G: Tablau cyfernodau'r data gwerthiannau ar gyfer siopau heb fod ar y ffin yng Nghymru a Lloegr.....	119
Atodiad H: Tablau cyfernodau'r data pryniannau defnyddwyr.....	122
Atodiad I: Panel Prynant Nwyddau sy'n Gwerthu'n Gyflym (FMCG) Kantar a Dadansoddiad Enillion a Cholledion.....	125

Rhestr o dablau

Tabl 2.1: Cyfansoddiad y sampl a gyflawnwyd	13
Tabl 7.1 Canlyniadau o ddiddordeb o'r data gwerthiannau siopau bach.....	54
Tabl 7.2 Canlyniadau o ddiddordeb o'r data pryniannau defnyddwyr	55
Tabl 7.3 Tabl cyfernodau ar gyfer y Gyfres Amser Fylchog Reoledig (CITS)	57
Tabl 7.4 Dadansoddiad is-grŵp yn ôl math o ddiod alcoholig	78
Tabl A.1: Math o fanwerthwr yn ôl rhanbarth	95
Tabl A.2: Math o fanwerthwr yn ôl cadwyn neu annibynnol	97
Tabl A.3: Math o fanwerthwr yn ôl maint.....	97
Tabl A.4: Math o fanwerthwr yn ôl cyfran y gwerthiannau sy'n deillio o alcohol.....	99
Tabl A.5: Math o fanwerthwr yn ôl y gallu i aros ar agor yn ystod COVID-19	100
Tabl D.1 Canlyniadau model CITS ar gyfer gwerthiannau alcohol cyfartalog	109
Tabl D.2 Canlyniadau model CITS ar gyfer canran yr holl werthiannau sy'n deillio o alcohol	110
Tabl D.3 Canlyniadau model CITS ar gyfer nifer cyfartalog y trafodion alcohol	111
Tabl D.4 Canlyniadau model CITS ar gyfer canran yr holl drafodion gwerthiannau sy'n cynnwys rhywfaint o alcohol.....	112
Tabl E.1 Canlyniadau model dadansoddiadau sensitifrwydd ar gyfer gwerthiannau alcohol cyfartalog.....	113
Tabl F.1 Canlyniadau model CITS ar gyfer gwerthiannau alcohol cyfartalog mewn siopau ar y ffin.....	115
Tabl F.2 Canlyniadau model CITS ar gyfer canran y cyfanswm gwerthiannau sy'n deillio o alcohol mewn siopau ar y ffin	116
Tabl F.3 Canlyniadau model CITS ar gyfer nifer cyfartalog y trafodion alcohol mewn siopau ar y ffin	117
Tabl F.4 Canlyniadau model CITS ar gyfer canran yr holl drafodion gwerthiannau sy'n cynnwys rhywfaint o alcohol mewn siopau ar y ffin	118
Tabl G.1 Canlyniadau model CITS ar gyfer gwerthiannau alcohol cyfartalog mewn siopau heb fod ar y ffin	119
Tabl G.2 Canlyniadau model CITS ar gyfer canran cyfanswm y gwerthiannau sy'n deillio o alcohol mewn siopau heb fod ar y ffin	120

Tabl G.3 Canlyniadau model CITS ar gyfer nifer gyfartalog y trafodion alcohol mewn siopau heb fod ar y ffin	120
Tabl G.4 Canlyniadau model CITS ar gyfer canran yr holl drafodion gwerthiannau sy'n cynnwys rhywfaint o alcohol mewn siopau heb fod ar y ffin	121
Tabl H.1 Canlyniadau model CITS ar gyfer cyfaint (litrau) cyfartalog aelwydydd.....	122
Tabl H.2 Canlyniadau model CITS ar gyfer pris cyfartalog litr o ddiod alcoholig.....	123
Tabl H.3 Canlyniadau model CITS ar gyfer gwariant cyfartalog aelwydydd ar alcohol	124

Rhestr o ffigurau

Ffigur 4.1: Materion sy'n effeithio ar safbwyntiau manwerthwyr am y polisi Isafbris am Alcohol	26
Figur 7.1. Damcaniaeth newid dangosol ar gyfer yr ymyrraeth Isafbris am Alcohol	48
Ffigur 7.2 CITS ar gyfer gwerthiannau alcohol cyfartalog	60
Ffigur 7.3 CITS ar gyfer canran cyfanswm y gwerthiannau sy'n deillio o alcohol.....	61
Ffigur 7.4 CITS ar gyfer nifer gyfartalog y trafodion alcohol.....	62
Ffigur 7.5 CITS ar gyfer canran yr holl drafodion gwerthiannau oedd yn cynnwys rhywfaint o alcohol.....	63
Ffigur 7.6 Dadansoddiadau sensitifrwydd ar gyfer gwerthiannau alcohol cyfartalog.....	65
Ffigur 7.7 CITS ar gyfer gwerthiannau alcohol cyfartalog mewn siopau ar y ffin	66
Ffigur 7.8 CITS ar gyfer gwerthiannau alcohol cyfartalog mewn siopau heb fod ar y ffin.....	67
Ffigur 7.9 CITS ar gyfer canran cyfanswm y gwerthiannau sy'n deillio o alcohol mewn siopau ar y ffin	69
Ffigur 7.10 CITS ar gyfer canran cyfanswm y gwerthiannau sy'n deillio o alcohol mewn siopau heb fod ar y ffin	70
Ffigur 7.11 CITS ar gyfer nifer gyfartalog y trafodion alcohol mewn siopau ar y ffin	71
Ffigur 7.12 CITS ar gyfer nifer gyfartalog y trafodion alcohol mewn siopau heb fod ar y ffin.....	72
Ffigur 7.13 CITS ar gyfer canran yr holl drafodion gwerthiannau sy'n cynnwys rhywfaint o alcohol mewn siopau ar y ffin	73
Ffigur 7.14 CITS ar gyfer canran yr holl drafodion gwerthiannau sy'n cynnwys rhywfaint o alcohol mewn siopau heb fod ar y ffin	74
Ffigur 7.15 CITS ar gyfer cyfaint (litrau) cyfartalog aelwydydd.....	75
Ffigur 7.16 CITS ar gyfer pris cyfartalog fesul litr o ddiod alcoholig	76
Ffigur 7.17 CITS ar gyfer gwariant cyfartalog aelwydydd ar alcohol (£).....	77
Ffigur 7.1. Damcaniaeth newid dangosol ar gyfer yr ymyrraeth Isafbris am Alcohol	81

Geirfa

Acronym/Allweddair	Diffiniad
Allfasnach	Sector o'r farchnad diodydd alcoholig sy'n cynnwys gwerthiannau i'w hyfed i ffwrdd o safle'r gwerthwr.
Annibynnol	Safle manwerthu ag un lleoliad neu hyd at dri lleoliad, yn aml dan berchnogaeth unigolyn, teulu neu bartneriaeth ddau-berson.
Astudiaeth sylfaenol	Astudiaeth sy'n nodi sail gwybodaeth y gellir monitro ac asesu cynnydd ac effeithiolrwydd gweithgaredd yn ei erbyn pan fydd y gweithgaredd yn mynd rhagddo ac ar ôl ei gwblhau.
Cadwyn	Safle manwerthu lle mae llawer o ganghennau yn rhannu brand, rheolaeth ganolog ac arferion busnes wedi'u safoni.
Hysbysiad gorfodi	Hysbysiad cosb benodedig a roddir i fasnachwr alcohol os canfyddir ei fod yn gwerthu, neu'n awdurdodi gwerthu, alcohol am lai na'r Isafbris Uned sef 50c.
Isafbris am alcohol (MPA)	Ffordd o osod pris sylfaenol am ddiod alcoholig nad oes neb yn cael ei gwerthu am bris llai
Isafbris Uned (MUP)	Isafbris Uned (MUP) – y pris isaf y gellir ei godi fesul uned alcohol ac a ddefnyddir yn y fformiwla i gyfrifo'r pris isaf y gellir gwerthu'r ddiod alcoholig amdano. Cyflwynwyd Isafbris Uned o 50c fesul uned o alcohol yng Nghymru o 2 Mawrth 2020.
Mewnfasnach	Sector o'r farchnad diodydd alcoholig sy'n cynnwys gwerthiannau i'w hyfed ar safle'r gwerthwr.
Siop alcohol	Siop sy'n gwerthu alcohol gan fwyaf, megis siopau diodydd trwyddedig neu siopau cynhyrchion alcohol arbenigol e.e. cyrfau 'crefft'.
Uned alcohol	Ffordd o fynegi maint yr alcohol pur sydd mewn diodydd. Mae un uned gyfwerth â 10ml neu 8g o alcohol pur.

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn rhan o'r gwerthusiad dulliau cymysg o'r Isafbris am Alcohol (MPA) yng Nghymru. Cyflawnwyd yr ymchwil hwn gan y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol (NatCen) ar ran Llywodraeth Cymru.
- 1.2 Mae'r adroddiad yn cyflwyno'r ail set o ganfyddiadau ymchwil ansoddol hydredol gyda manwerthwyr alcohol yng Nghymru. Edrychodd y gyfres ymchwil [llinell sylfaen](#) ar ddealltwriaeth a safbwyntiau'r manwerthwyr am y polisi isafbris cyn ei gyflwyno, ynghyd â'u disgwyliadau am effeithiau'r polisi. Edrychodd yr ail gyfres hon ar unrhyw newidiadau a gafwyd yn nealltwriaeth a safbwyntiau'r manwerthwyr am y polisi, yn ogystal â'u profiadau ac effeithiau canfyddedig yr Isafbris am Alcohol ers ei weithredu. Bydd y drydedd gyfres yn edrych ar effeithiau mwy hirdymor.
- 1.3 Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys dadansoddiad meintiol o ddata cyfres amser ar brynu alcohol (Kantar) a gwerthiannau o siopau llai o faint (Y Bartneriaeth Data Manwerthu (TRDP)) yng Nghymru. Edrychodd y dadansoddiad meintiol ar effaith yr Isafbris Uned ar werthiannau a phryniannau alcohol yng Nghymru, sut yr effeithiodd y polisi ar siopau llai o faint ar y ffin yng Nghymru, ac a oedd yr effaith yn amrywio yn ôl y math o ddiod.
- 1.4 Mesurwyd effeithiau gweithredu'r polisi Isafbris Uned gan ddefnyddio dull Cyfres Amser Fylchog Reoledig (CITS), dull gwerthuso lled-arbrofol lle arsylwir ar newidyn canlyniadau dros nifer o gyfnodau amser â'r un bylchau rhyngddynt cyn ac ar ôl cyflwyno ymyrraeth polisi, a'i gymharu â grŵp rheolydd na chafodd yr ymyrraeth. Dewiswyd y fethodoleg hon i wahanu effeithiau'r polisi Isafbris am Alcohol o fesurau lliniaru Covid-19, a weithredwyd ar yr un pryd â'r polisi Isafbris Uned ym mis Mawrth 2020, gan darfu'n ddifrifol ar bryniannau a gwerthiannau alcohol. Dewiswyd Lloegr fel grŵp rheolydd at ddibenion cymharu, gan i'r wlad weithredu mesurau lliniaru Covid-19 tebyg i'r rhai yng Nghymru heb weithredu polisi Isafbris Uned.

Cefndir yr Isafbris am Alcohol yng Nghymru

Pam y cyflwynwyd isafbris yng Nghymru

- 1.5 Mae yfed alcohol wedi'i bennu'n broblem fawr o ran iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru (2019-20), dywedodd 19 y cant o

oedolion a ymatebodd eu bod yn yfed mwy na'r canllawiau wythnosol a argymhellir (mwy na 14 o unedau), a dywedodd 25 y cant o ddynion eu bod yn yfed mwy na'r canllawiau wythnosol (StatsCymru, 2020). Yn 2018, 13.1 fesul pob 100,000 oedd y gyfradd marwolaethau yng Nghymru yn ymwneud yn benodol ag alcohol, oedd yn uwch na chyfradd y DU sef 11.9 o farwolaethau fesul 100,000 o bobl (SYG, 2019).

- 1.6 Nod cyflwyno isafbris oedd mynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol drwy leihau faint mae yfwyr peryglus a niweidiol yn ei yfed. Mae'n rhan bwysig o strategaeth Llywodraeth Cymru i leihau faint o gynhyrchion alcohol cryf, cost isel sy'n cael eu hyfed, ac mae'n dilyn strategaeth alcohol yr Alban a gweithredu'r Ddeddf Alcohol (Isafbris) 2012¹.

Cyflwyno'r Isafbris yng Nghymru

- 1.7 Cyflwynwyd isafbris uned (MUP) o 50c am alcohol yng Nghymru o 2 Mawrth 2020. Yn sgil cyflwyno'r Isafbris am Alcohol yng Nghymru, cafwyd cynnydd ym mhrisiau'r cynhyrchion alcoholig a werthwyd neu a gyflenwyd am lai na'r isafbris yn flaenorol, gan olygu nad oedd manwerthwyr yn gallu gwerthu diod alcoholig yn gyfreithlon am lai na'r pris hwnnw.
- 1.8 O dan y Ddeddf, mae'n drosedd i fanwerthwyr alcohol gyflenwi alcohol o fangreoedd cymwys yng Nghymru, neu awdurdodi cyflenwi alcohol o fangreoedd cymwys yng Nghymru, am bris gwerthu sy'n is na'r isafbris cymwys am yr alcohol. Roedd yn cynnwys fformiwla ar gyfer cyfrifo'r isafbris gan ddefnyddio'r Isafbris Uned sef 50c, cryfder canrannol yr alcohol, a'i gyfaint. Sefydlodd y Ddeddf drefn orfodi a arweinir gan awdurdodau lleol a phwerau i ddwyn erlyniadau ([Llywodraeth Cymru, 2020](#)). Sefydlwyd y drefn arolygu ar y cyd â Safonau Masnach Cymru.
- 1.9 Canfu'r ymchwiliad llinell sylfaen ar ddealltwriaeth, safbwyntiau a disgwyliadau'r manwerthwyr ar gyfer effeithiau Isafbris am Alcohol cyn ei gyflwyno fod ymwybyddiaeth y manwerthwyr, a'u parodrwydd i weithredu'r polisi, yn amrywio (Bartasevicius et al, 2021). Roedd y rhai oedd yn gwybod am y polisi ac wedi paratoi ar ei gyfer wedi darllen gwybodaeth amdano, ac ar draws yr holl lefelau o ymwybyddiaeth, roedd y bylchau gwybodaeth yn cynnwys dyddiad y gweithredu,

¹ Yn dilyn her gyfreithiol a phleidlais yn Senedd yr Alban, cyflwynwyd yr Isafbris Uned ar 1 Mai 2018.
Ffynhonnell: NHS Health Scotland

sut y cyfrifwyd yr Isafbris Uned, ac a oedd y polisi yn gymwys i gyfanwerthwyr. Rhagwelai'r manwerthwyr y byddai'r Isafbris am Alcohol yn effeithio ar eu materion ariannol, gyda rhai yn disgwyl manteisio trwy wella cystadleurwydd ac eraill yn rhagweld cwmp ym eu gwerthiannau.

- 1.10 Ar ôl gweithredu'r polisi Isafbris am Alcohol, cyhoeddwyd adroddiad oedd yn asesu effaith Covid-19 a gweithrediad cynnar Isafbris am Alcohol ar y boblogaeth ehangach o yfwyr, yn seiliedig ar 32 o gyfweiliadau ansoddol (Holloway et al, 2022). Dylid nodi nad bwriad yr ymchwil hwn oedd dod i gasgliadau ynghylch effaith y ddeddfwriaeth ond yn hytrach i roi cyd-destun ar gyfer cyfresi o gyfweiliadau hydredol yn y dyfodol. Yn ystod y cam cynnar hwnnw, canfu nad oedd yfwyr yn y sampl ansoddol wedi paratoi ar gyfer, neu nad oeddent yn ymwybodol o weithredu'r polisi, nac yn disgwyl y byddai'n cael fawr o effaith ar eu bywydau.
- 1.11 Ymysg yr yfwyr oedd yn ymwybodol o'r polisi, roeddent wedi sylwi bod prisiau seidrau cryf, cyrfau, gwinoedd, gwirodydd, rhai cynhyrchion â llai o alcohol a chynhyrchion swmp wedi newid. Nodwyd bod pryniannau a defnydd alcohol wedi aros yr un peth, wedi cynyddu neu wedi lleihau. Fodd bynnag, dywedwyd mai Covid-19 oedd wedi achosi unrhyw gynnydd neu leihad, yn hytrach na'r Isafswm am Alcohol. Priodolwyd cynnydd o ran prynu ac yfed alcohol i fod yn fwy segur, unigrwydd a gorbryder yn ystod y cyfyngiadau symud, a phriodolwyd lleihad o ran prynu ac yfed alcohol i lai o gymdeithasu yn ystod cyfyngiadau Covid-19. Hefyd archwiliodd yr ymchwil a oedd y rhagfyngiadau llinell sylfaen o ran defnyddio sylweddau eraill yn lle alcohol wedi'u gwireddu ar ôl gweithredu'r polisi. Canfu mai dim ond yfwyr dibynnol â hanes o ddefnyddio'r sylweddau hyn a ddefnyddiodd gyffuriau anghyfreithlon yn lle alcohol.

Newidiadau cyd-destunol i Isafbris am Alcohol yng Nghymru

- 1.12 Mae'n bwysig nodi bod digwyddiadau ehangach, oedd yn cyd-daro â gweithredu'r polisi, wedi effeithio ar brofiadau a safbwyntiau'r manwerthwyr am yr Isafbris am Alcohol yn y gyfres hon. Roedd y rhain yn cynnwys y pandemig Covid-19 a'r cyfyngiadau cysylltiedig a gyflwynwyd o fis Mawrth 2020, a ddylanwadodd ar allu'r manwerthwyr i weithredu yn ôl yr arfer a'r lefelau o alcohol a werthwyd ganddynt. Ar ôl i'r pandemig ddechrau, caeodd llawer o fanwerthwyr â thrwydded mewnfasnach,

megis bariau a bwytai. Dim ond newydd ailagor oedd rhai ohonynt cyn cael cyfweiliad ar gyfer y gyfres hon, sy'n golygu bod eu profiad o weithredu'r polisi Isafbris am Alcohol yn gyfyngedig. Ar y llaw arall, roedd llawer o fanwerthwyr â thrwyddedau allfasnach wedi aros ar agor ac felly wedi gweld cynnydd yn y gwerthiannau alcohol yn ystod y cyfyngiadau Covid-19. Mae'r cynnydd mwy diweddar mewn costau byw, cynnydd ym mhrisiau tanwydd a'r lefelau cynyddol o chwyddiant hefyd wedi effeithio ar brofiadau manwerthwyr o'r Isafbris am Alcohol.

Nodau ac amcanion

- 1.13 Nod yr ymchwil ansoddol oedd casglu adborth gan fanwerthwyr am eu dealltwriaeth, profiadau a safbwyntiau ar weithredu'r polisi Isafbris am Alcohol a'i effeithiau ar eu busnesau a'u cwsmeriaid.
- 1.14 Er mwyn cyflawni'r nod hwn, gofynnodd yr ymchwil am farn a safbwyntiau manwl gan amrywiaeth gynhwysfawr o fanwerthwyr alcohol yng Nghymru er mwyn deall:
 - Unrhyw newidiadau i'r lefelau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am y polisi ar ôl ei gyflwyno;
 - Safbwyntiau ar y polisi ac a oeddent wedi newid dros amser;
 - Camau a gymerwyd i baratoi ar gyfer gweithredu'r polisi, a phrofiadau o'i weithredu ar ôl i'r polisi gael effaith;
 - Effeithiau canfyddedig a gafwyd o ganlyniad i'r polisi, gan gynnwys canlyniadau anfwriadol posibl.
- 1.15 Ar sail y canfyddiadau llinell sylfaen nad oedd rhai manwerthwyr yn ymwybodol o'r manylion allweddol, megis sut y cyfrifwyd yr Isafbris am Alcohol, edrychodd yr ail gyfres i weld a oedd y bylchau hyn yn dal i fodoli, ac os na, sut y dysgodd y manwerthwyr am y manylion hyn a gweithredu arnynt. Edrychodd hefyd ar brofiadau a safbwyntiau'r manwerthwyr a'r effeithiau canfyddedig ar eu busnesau ers gweithredu'r polisi.
- 1.16 Nod yr ymchwil meintiol oedd edrych ar effaith yr Isafbris am Alcohol ar werthiannau a phryniannau alcohol yng Nghymru, yr effaith a gafodd ar siopau llai ar y ffin yng Nghymru, ac a oedd ei effaith yn amrywio yn ôl y math o ddiod.

1.17 I gyrraedd y nod hwn, strwythurwyd yr ymchwil o amgylch y cwestiynau ymchwil canlynol²:

- A yw'r Isafbris Uned yn gysylltiedig â newid yng ngwerthiannau manwerthu alcohol yng Nghymru, o gymharu â Lloegr? Yn benodol, a yw trosiant (h.y. refeniw) manwerthwyr allfasnach bach yng Nghymru wedi cynyddu o gymharu â Lloegr?
- Pa effaith mae gweithredu'r polisi Isafbris Uned yn ei chael ar werthiannau alcohol mewn siopau llai ar y ffin yng Nghymru? Er enghraifft, a oes llai o gynnydd yn y refeniw gwerthiannau alcohol o siopau llai ar y ffin yng Nghymru oherwydd eu hagosrwydd at Loegr, lle mae'r prisiau'n debygol o fod yn is?
- Beth yw effaith yr Isafbris Uned ar bryniannau cwsmeriaid yng Nghymru? Yn benodol, a yw cyfanswm y cyfaint o ddiodydd alcoholig a brynwyd gan aelwydydd Cymru wedi lleihau o gymharu ag aelwydydd yn Lloegr? A yw'r swm a wariwyd ar alcohol gan aelwydydd wedi cynyddu, ac a yw'r pris a dalwyd am ddiodydd alcoholig wedi cynyddu, ers cyflwyno'r polisi Isafbris Uned?
- A yw effaith yr Isafbris Uned ar brynu yn amrywio yn ôl y math o ddiod yng Nghymru, o gymharu â Lloegr?

Confensiynau adrodd

1.18 Mae'r canlyniadau ansoddol yn yr adroddiad hwn yn osgoi rhoi canfyddiadau rhifol, gan na all ymchwil ansoddol gefnogi dadansoddiad rhifol, a hynny oherwydd mai nod samplu bwriadus yw ceisio sicrhau amrywiaeth a gwahaniaeth ymysg aelodau'r sampl yn hytrach nag adeiladu sampl gynrychiadol ystadegol. Ymhellach, mae'r dulliau holi a ddefnyddiwyd wedi'u dylunio i archwilio materion yn fanwl mewn cyd-destunau unigol yn hytrach na chreu data y gellir eu dadansoddi'n ystadegol. Yr hyn y mae ymchwil ansoddol yn ei wneud yw rhoi dealltwriaeth fanwl o'r amrywiaeth o

² Roedd geiriad y cwestiynau ymchwil a lywiodd y dadansoddiad yn wahanol i'r rhai a gynigiwyd yn y Cynllun Gwerthuso'r isafbris am alcohol yng Nghymru – ymchwil llinell sylfaen gyda manwerthwyr a dadansoddi meintiol. Roedd y gwahaniaethau'n bennaf oherwydd dichonoldeb yr ymchwiliadau y gallem eu cyflawni gyda'r data oedd ar gael (gweler Atodiad C).

brofiadau, safbwyntiau ac argymhellion. Gellir dod i gasgliadau ehangach ar y seiliau hyn yn hytrach nag ar sail cyffredinrwydd.

- 1.19 Defnyddir dyfyniadau gair am air i daflu goleuni ar y canfyddiadau. Maent wedi'u labelu i nodi'r math o fanwerthwr, a yw'r manwerthwr yn dal trwydded alcohol mewnfasnach, trwydded alcohol allfasnach, neu'r ddwy.

2. Methodoleg

Methodoleg ansoddol

- 2.1 Mabwysiadodd y gwaith gyda manwerthwyr ddull ansoddol i fynd i'r afael â nodau'r ymchwil. Dewiswyd cyfweiliadau manwl er mwyn hwyluso dealltwriaeth fanwl am safbwyntiau manwerthwyr gwahanol ar y newidiadau i'r isafbris am alcohol.

Samplu a recriwtio

- 2.2 Cynlluniwyd sampl o 30 o gyfranogwyr yn fwriadus er mwyn adlewyrchu'r amrywiaeth o fanwerthwyr alcohol yng Nghymru. Strwythurwyd y sampl i gynnwys:

- Manwerthwyr o'r pum rhanbarth gwahanol yng Nghymru;
- Amrywiaeth o leoliadau trefol, gwledig a maestrefol;
- Trwyddedau alcohol gwahanol – mewnfasnach, allfasnach a'r ddwy;
- Manwerthwyr cadwyn a manwerthwyr annibynnol;

Roedd y detholiad hefyd yn cynnwys manwerthwyr yn agos i'r ffin â Lloegr. Gweler mwy o fanylion am y sampl yn Atodiad A.

- 2.3 Cynhaliwyd y broses recriwtio cyfranogwyr a'r cyfweiliadau ar gyfer yr ymchwil gan y cwmni ymgynghori o Gymru, Arad Research, er mwyn caniatáu i fanwerthwyr gymryd rhan yn Gymraeg os dymunent hynny. Dewisodd un cyfranogwr gymryd rhan yn Gymraeg yn yr ymchwil llinell sylfaen, ond ni ddewisodd neb gyfranogi yn Gymraeg yn y cam hwn.

- 2.4 Bwriad y gyfres ymchwil hon oedd cynnal cyfweiliadau dilynol gyda'r 30 o fanwerthwyr y cyfwelwyd â nhw yn yr ymchwil llinell sylfaen. Gwahoddwyd yr holl gyfranogwyr llinell sylfaen i gymryd rhan yn yr ail gyfres trwy e-bost neu dros y ffôn. Fodd bynnag, roedd pedwar cyfranogwr wedi peidio â masnachu, ac roedd 11 ohonynt yn amhosibl cysylltu â nhw neu yn gwrthod cymryd rhan. Cyfranogodd 15 o'r manwerthwyr a gymerodd ran yn yr ymchwil llinell sylfaen yn y gyfres hon, a chafodd 15 o fanwerthwyr newydd eu recriwtio.

2.5 Lluniwyd y sampl ar gyfer y recriwtiaid ychwanegol o ddwy restr fasnachol â chyfanswm o 680 o fanwerthwyr alcohol cofrestredig yng Nghymru. Cysylltwyd â'r manwerthwyr a dderbyniodd y gwahoddiad dros y ffôn i drefnu'r cyfweiliad.

2.6 Dangosir cyfansoddiad y sampl a gyflawnwyd yn Nhabl 2.1 isod.

Tabl 2.1: Cyfansoddiad y sampl a gyflawnwyd

Meini prawf samplu	Nodweddion samplu	Nifer y cyfweiliadau
Rhanbarth	Y Canolbarth a'r Gorllewin	5
	Gogledd Cymru	7
	Canol De Cymru	7
	Dwyrain De Cymru	5
	De Orllewin Cymru	6
	Cyfanswm	30
Trwydded	Mewnfasnach	9
	Allfasnach	11
	Y ddwy	10
	Cyfanswm	30
Math o fanwerthwyr	Cadwyn	10
	Annibynnol	20
	Cyfanswm	30

2.7 Nid yw archfarchnadoedd cadwyn mawr wedi'u cynrychioli yn y sampl. Pan gysylltwyd â nhw ar gyfer y gyfres ymchwil llinell sylfaen, dywedasant fod Llywodraeth Cymru'n ymgynghori'n uniongyrchol â nhw ac y teimlent fod eu safbwyntiau a'u profiadau eisoes yn cael eu nodi yn y modd hwn. Er i'r sampl gynnwys manwerthwyr masnachfaint, dylid ystyried bod absenoldeb yr archfarchnadoedd cadwyn mawr yn cyfyngu ar yr ymchwil.

Casglu data

2.8 Lluniwyd arweiniad pynciau'r cyfweiliadau gan NatCen ar y cyd â Llywodraeth Cymru. Roedd yr arweiniad pynciau'n cynnwys cyfuniad o gwestiynau trafod a chwestiynau oedd yn holi'n fanwl am amrywiaeth o themâu wedi'u strwythuro ar sail

cwestiynau'r ymchwil. Dangosir manylion llawn yr arweiniad pynciau yn Atodiad B. Roedd y themâu a drafodwyd yn cynnwys:

- Cefndir y manwerthwr a'r cyfranogwr;
- Dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth am y polisi;
- Paratoi ar gyfer gweithredu'r polisi;
- Effeithiau;
- Meddyliau i gloi a'r prif negeseuon.

2.9 Cynhaliwyd y 30 o gyfweiliadau dros y ffôn yn ystod Mai a Mehefin 2022.

Penderfynwyd cynnal cyfweiliadau dros y ffôn, yn hytrach na wyneb yn wyneb, er mwyn cynnig mwy o gyfleustra a hyblygrwydd i'r manwerthwyr. Cyfwelwyd â pherchnogion a rheolwyr siop oedd yn gyfrifol am weithredu'r polisi Isafbris am Alcohol. Lluniwyd y cyfweiliadau i bara 30 munud, ond roeddent yn amrywio o 11 munud i 60 munud, gan ddibynnu a oedd y cyfranogwr yn un newydd neu wedi cymryd rhan yn yr ymchwil llinell sylfaen, ac a oedd eisoes yn gwerthu alcohol am bris uwch na'r isafbris ai peidio. Y ffactor olaf hwn oedd yn effeithio ar faint y teimlai'r cyfranogwyr oedd ganddynt i'w ddweud.

Dadansoddiad ansoddol

2.10 Dadansoddwyd y data ansoddol drwy ddefnyddio dull fframwaith NatCen sy'n caniatáu i'r data gael eu harchwilio'n fanwl yn ôl achos ac yn ôl thema. Roedd sawl cam i'r broses ddadansoddi. Yn gyntaf, lluniwyd fframwaith dadansoddi drafft gan y tîm ymchwil ac yna trefnwyd y data o'r cyfweiliadau yn y fframwaith hwn. Mae'r dull hwn yn lleihau meintiau mawr o ddata er mwyn hwyluso'r gwaith o ymchwilio i'r data yn systematig, rhwng achosion (yn edrych ar beth ddywedodd cyfranogwyr gwahanol am yr un mater) ac o fewn achosion (yn edrych ar y berthynas rhwng barn unigolyn ar un pwnc a'i farn am bwnc arall).

2.11 Trwy adolygu'r siartiau, cafodd yr amrywiaeth lawn o safbwyntiau a phrofiadau a ddisgrifiwyd gan gyfranogwyr ei mapio'n systematig, a chymharwyd yr hyn a ddywedwyd gan gyfranogwyr gwahanol, neu grwpiau o gyfranogwyr (e.e. manwerthwyr allfasnach), gan brofi patrymau ac esboniadau a ddaeth i'r amlwg.

Methodoleg meintiol

- 2.12 Roedd y dadansoddiad meintiol yn werthusiad Cyfres Amser Fylchog Reoledig (CITS) o fesurau canlyniadau perthnasol dwy set ddata gwahanol:
- Data Marchnad Cyfleustra'r Bartneriaeth Data Manwerthu (TRPD);
 - Data Pryniannau Panel Nwyddau Defnyddwyr sy'n Gwerthu'n Gyflym (FMCG) Kantar.
- 2.13 Cafodd y data gwerthiannau (TRDP) eu hagregu'n fisol ac roeddent yn cynnwys y cyfnod o fis Mawrth 2019 i fis Chwefror 2022, a chafodd y data pryniannau defnyddwyr (Kantar) eu hagregu'n flociau amser 4-wythnos ac roeddent yn cynnwys y cyfnod rhwng mis Mawrth 2015 a mis Chwefror 2022.
- 2.14 Roedd y dadansoddiad data gwerthiannau'n canolbwyntio ar bedwar mesurydd canlyniadau:
- Gwerthiannau alcohol cyfartalog y siop (dangosydd canlyniad cynradd);
 - Canran yr holl werthiannau sy'n alcohol;
 - Nifer gyfartalog y trafodion alcohol;
 - Canran yr holl drafodion gwerthiannau sy'n cynnwys rhywfaint o alcohol.
- 2.15 Roedd y dadansoddiad data pryniannau yn canolbwyntio ar dri mesurydd canlyniad:
- Cyfaint (litrau) cyfartalog aelwydydd (dangosydd canlyniad cynradd);
 - Gwariant cyfartalog aelwydydd ar alcohol (£);
 - Pris cyfartalog diodydd fesul litr.
- 2.16 Er mwyn ynysu effeithiau mesurau lliniaru Covid-19, cafodd y mesurau canlyniadau hyn eu dadansoddi gan ddefnyddio Cyfres Amser Fylchog Reoledig (CITS). Mae'r dull hwn yn fath o gyfres amser lle arsylwir ar newidyn canlyniad dros nifer o gyfnodau amser â'r un bwlch rhyngddynt bob tro cyn ac ar ôl cyflwyno ymyrraeth a gan gymharu â grŵp rheolydd lle nad yw'r ymyrraeth yn cael ei chyflwyno. Fel hyn mae'n bosibl asesu a yw'r patrwm data yr arsylwyd arno ar ôl yr ymyrraeth yn wahanol i'r hyn yr arsylwyd arno cyn yr ymyrraeth gan gyfrifo ar gyfer newidynnau drysu a hepgorwyd (Bernal et al., 2017; Linden, 2015). Ystyriwyd y dull Cyfres

Amser yn un priodol ar gyfer cryfhau rhagamcanion effaith trwy ynysu effeithiau'r mesurau lliniaru Covid-19 a weithredwyd ym mis Mawrth 2020 ar yr un pryd â'r Isafbris Uned. Defnyddiasom Loegr fel grŵp rheolydd, gwlad a weithredodd fesurau lliniaru Covid-19 tebyg i Gymru, ond na roddodd Isafbris Uned ar waith.

- 2.17 Mae'r dadansoddiad hefyd yn cynnwys Cyfres Amser Fylchog Reoledig o'r mesurau canlyniad perthnasol ar gyfer siopau bach ar y ffin, a heb fod ar y ffin, yng Nghymru, o'u cymharu â siopau bach ar y ffin, a heb fod ar y ffin, yn Lloegr, er mwyn asesu a effeithiwyd ar effaith Isafbris Uned ar siopau bach ar y ffin yng Nghymru gan agosrwydd daearyddol i Loegr. Ymhellach, cynhaliwyd dadansoddiad is-grŵp o'r data pryniannau er mwyn asesu a oedd effaith Isafbris Uned yn amrywio yn ôl y math o ddiod alcoholig.
- 2.18 Yn olaf, cynhaliwyd dadansoddiad sensitifrwydd ar y canlyniad gwerthiannau cynradd, sef gwerthiannau alcohol cyfartalog. Nod y dadansoddiadau sensitifrwydd oedd archwilio effaith Isafbris am Alcohol tra'n ystyried dyddiadau allweddol y strategaeth liniaru Covid-19, gan fod mesurau lliniaru'r pandemig wedi tarfu ar y sector manwerthu, a dylid disgwyl iddynt ddylanwadu ar sut a ble cafodd alcohol ei yfed.

3. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth manwerthwyr am yr isafbris

- 3.1 Mae'r bennod hon yn trafod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth manwerthwyr am y polisi isafbris ers ei roi ar waith, ac yn cymharu canfyddiadau'r cam presennol â syniadau'r astudiaeth llinell sylfaen. Mae'r bennod yn amlinellu lefelau dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth am yr isafbris am alcohol ymysg manwerthwyr, ffactorau sy'n effeithio ar y lefelau hynny a'r bylchau yn nealltwriaeth ac ymwybyddiaeth manwerthwyr. Mae'r bennod hefyd yn archwilio'r ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd gan fanwerthwyr a lle mae angen mwy o wybodaeth am y polisi.

Prif ganfyddiadau

- O gymharu â'r astudiaeth llinell sylfaen, roedd y manwerthwyr yn fwy ymwybodol o'r polisi Isafbris am Alcohol. Nodwyd hyn yn arbennig mewn perthynas â gwybodaeth am y polisi, a 50c fel pris uned o alcohol. Roedd llai o ddealltwriaeth am y ffordd caiff prisiau unigol eu cyfrifo, ac am y ffordd mae Isafbris Uned yn effeithio ar hyrwyddiadau, cynigion a disgowntiau. Nid oedd rhai manwerthwyr, a'r rhai mewnfasnach yn bennaf, yn deall sut y byddai'r polisi yn cael ei orfodi.
- Canfuwyd bod llai o ddealltwriaeth am y polisi ymysg y manwerthwyr a fu ar gau yn ystod cyfyngiadau symud Covid-19; a gredai fod eu prisiau 'pen uchel' yn golygu na fyddai'r Isafbris Uned yn effeithio ar y cynhyrchion a werthent; a hefyd ymysg staff nad oedd yn gwneud penderfyniadau ynghylch prisiau.
- Er bod rhai manwerthwyr yn deall bod y polisi wedi'i dargedu ar leihau faint o alcohol cryfder uwch a yfir, roedd eraill yn credu mai'r targed oedd goryfed mewn pyliau neu yfwyr problemus. Credai rhai, yn sinigaidd, fod y polisi yn ymarfer creu arian i Lywodraeth Cymru, yn enwedig lle'r oeddent yn amau na fyddai'r polisi'n cael unrhyw effaith.
- Prif ffynonellau gwybodaeth y manwerthwyr oedd y rhynggrwyd, y cyfryngau newyddion, y cyfryngau cymdeithasol, Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol, sefydliadau masnach a phobl eraill. Dywedodd y manwerthwyr bod angen gwybodaeth well am y ffordd mae'r Isafbris Uned yn effeithio ar gynigion a

disgowntiau, a nodiadau atgoffa a diweddariadau polisi, ac unrhyw dystiolaeth a ddangosai fod y polisi yn fuddiol.

Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth

- 3.2 Roedd lefelau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y manwerthwyr am y polisi Isafbris am Alcohol yn amrywio. Roedd rhai yn gallu rhoi gwybodaeth gywir am y polisi tra bo eraill yn dangos llai o wybodaeth neu'n dweud nad oeddent yn deall llawer am y polisi, neu rannau penodol ohono. Weithiau roedd hyn er bod Llywodraeth Cymru wedi anfon [Canllawiau](#) manwl a gwybodaeth arall i godi ymwybyddiaeth yn uniongyrchol at y manwerthwyr³.

Lefelau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth

- 3.3 Yn yr ymchwil **llinell sylfaen** dosbarthwyd y manwerthwyr yn un o bedwar categori ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am y polisi isafbris: uchel, canolig, isel ac isel iawn (pennod 3 o'r [adroddiad llinell sylfaen](#)). Roedd gan y manwerthwyr â lefelau uchel o ymwybyddiaeth ddealltwriaeth gywir am lawer o agweddau ar y polisi, ac ar y cyfan yn chwilio am neu'n cael mwy o wybodaeth am y polisi, yn aml o nifer o ffynonellau. Siopau cadwyn oedd y rhan fwyaf o'r manwerthwyr â lefelau uchel neu ganolig o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am y polisi, oedd wedi cael gwybodaeth am y polisi drwy'r post (oddi wrth Lywodraeth Cymru, fe dybir) a/neu o brif swyddfa'r cwmni. Roedd hefyd yn cynnwys bragdai a thafarndai annibynnol, a glywodd am yr Isafbris am Alcohol oddi wrth Lywodraeth Cymru a sefydliadau masnach-benodol.
- 3.4 Roedd y manwerthwyr â'r **lefelau ymwybyddiaeth is** yn cynnwys amrywiaeth o rai mewnfasnach ac allfasnach oedd wedi clywed am y polisi ond oedd â bylchau yn eu dealltwriaeth o ran dyddiad rhoi'r polisi ar waith, nod y polisi, a sut caiff yr isafbris ei gyfrifo. Manwerthwyr mewnfasnach gan fwyaf oedd â'r lefelau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth isaf oll ac a ddywedodd nad oeddent wedi clywed am y polisi (gweler pennod 3 o'r adroddiad llinell sylfaen am fwy o wybodaeth).

Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth yn y cam dilynol cyntaf

³ DS: roedd y rhain yn cynnwys llythyr A4, dau boster A3, taflen A5 wyth-tudalen, un arwydd hyrwyddol ar gyfer silff ac ymylon silffoedd. Roedd deunyddiau hefyd ar gael yn ddigidol i'w lawrlwytho gan fanwerthwyr oedd angen copïau ychwanegol.

- 3.5 **Yn y cam dilynol cyntaf hwn**, roedd y cyfweiliadau â'r manwerthwyr yn awgrymu gwelliant cymharol fach yn y lefelau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am y polisi Isafbris am Alcohol. Roedd yr holl fanwerthwyr yn dangos dealltwriaeth sylfaenol am y polisi a'r Isafbris am Alcohol a'r Isafbris Uned. Fodd bynnag, roedd lefelau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth yn amrywio yn ôl elfennau gwahanol y polisi.
- 3.6 Lle roedd y manwerthwyr **yn dangos lefelau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth uwch** am y polisi, roedd hyn yn gysylltiedig â: (a) 50c oedd yr isafbris uned ac ni ellir gwerthu alcohol am lai na'r pris hwn fesul uned; (b) mae'r polisi yn effeithio fwyaf ar ddiodydd rhatach, cryfder uchel; a (c) bod ag ymwybyddiaeth gywir gan fwyaf o nodau'r polisi, er y ceir rhai camddehongliadau – gweler paragraffau 3.12 a 3.13.
- 3.7 Ar wahân i'r manwerthwyr mewnfasnach a gaeodd yn ystod y cyfyngiadau Covid-19, nid oedd unrhyw batrwm clir yn dangos cysylltiad rhwng a oedd y manwerthwr yn un mewnfasnach neu allfasnach, yn gadwyn neu'n annibynnol, a bod â gwybodaeth am yr elfennau polisi hyn. Hefyd, yn wahanol i'r adroddiad llinell sylfaen, nid oedd unrhyw gysylltiad clir rhwng ceisio neu gael mwy o wybodaeth am y polisi neu ddefnyddio llawer o ffynonellau gwybodaeth a deall y polisi'n well.
- 3.8 Lle roedd y manwerthwyr yn dangos **ymwybyddiaeth a dealltwriaeth is am y polisi**, roedd mewn perthynas â: (a) sut y cyfrifir yr isafbris, oedd yn arbennig o berthnasol i'r ffordd roedd yn effeithio ar gynigion a hyrwyddiadau; (b) pryd y gellir cymhwyso cynigion a hyrwyddiadau; a (c) gwybodaeth gyfyngedig ymysg rhai manwerthwyr am y ffyrdd y byddai'r polisi'n cael ei orfodi. Roedd y ddealltwriaeth wael am sut i gyfrifo cynigion a hyrwyddiadau'n adlewyrchu canfyddiadau'r ymchwil llinell sylfaen.
- 3.9 Cafwyd llai o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am yr Isafbris am Alcohol ymysg tri grŵp o fanwerthwyr yn ymwneud â'u cyd-destun, eu math o fusnes a'u rôl:
- **Manwerthwyr oedd ar gau yn ystod y pandemig** – esboniwyd hyn o leiaf yn rhannol gan y ffaith bod llawer ar gau am y rhan fwyaf o'r pandemig ac felly heb gael y cyfle i ymgysylltu ryw lawer â'r polisi, ei nodau a'i reolau. Er enghraifft, nid oedd gwesty mewnfasnach annibynnol na bwyty mewnfasnach

ac allfasnach annibynnol wedi clywed am y polisi cyn y cysylltwyd â nhw am y cyfweliad.

- **Manwerthwyr â phrisiau uwch na'r isafbris fesul uned** – roedd lefelau is o ddealltwriaeth hefyd yn gysylltiedig â manwerthwyr a gredai eu bod nhw eisoes yn codi pris llawer yn uwch na'r isafbris fesul uned, ac a deimlai felly nad oedd angen iddynt ddysgu mwy na'r ffeithiau sylfaenol am y polisi. Roedd y gred hon yn gyffredin ymysg manwerthwyr mewnfasnach megis tafarndai a bwytai a godai bris oedd dipyn yn uwch na'r isafbris fesul uned. Aeth perchennog tafarn mewnfasnach ac allfasnach annibynnol mor bell â dweud nad oedd wedi darllen y llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru am y polisi, er bod ganddo gyfrifoldeb i wybod amdano (gweler paragraff 3.17 am fwy o wybodaeth am y llythyr). Credai na fyddai'r polisi yn effeithio ar ei fusnes gan ei fod yn gwerthu alcohol am bris uwch na'r isafbris:

'Y llythyr... dwi'n amau a wnes i ei ddarllen. Does gen i fawr o ddiddordeb – dyw e ddim yn effeithio ar fy musnes i o gwbl, dwi ddim yn agos i hynny... dwi'n gwerthu alcohol am oddeutu £1.80 i £1.90 yr uned.' (Tafarn, mewnfasnach, annibynnol).

- **Manwerthwyr nad oeddent yn gwneud penderfynu ynghylch prisiau:**

Nododd manwerthwyr mewnfasnach ac allfasnach - oedd yn rhan o gadwyn fwy, yn fasnachfaint neu'n cael eu rhedeg ar ran corff allanol - lefelau is o ddealltwriaeth oherwydd nad nhw yw'r prif benderfynwyr ynghylch prisio.

Rhoddodd y manwerthwyr hyn ddau reswm pam nad oedd ganddynt y wybodaeth lawn am y polisi, sef: (a) anfonwyd llythyr Llywodraeth Cymru at y brif swyddfa ond nid oeddent wedi cael gwybod amdano'n uniongyrchol; a (b) y brif swyddfa oedd yn gosod y prisiau felly ni theimlent fod angen iddynt ddeall y polisi. Er enghraifft, dyma oedd yr achos mewn gwesty cadwyn lle nad oedd rheolwr cynorthwyol y gwesty, oedd wedi gweithio yno am dair blynedd, wedi clywed am y polisi cyn y cyfweliad:

'Nid oes dealltwriaeth o hyn i'w gweld gan ein bod ni'n rhan o gadwyn, felly rydyn ni jyst yn cael gwybod pa brisiau i'w rhoi.' (Gwesty, cadwyn, mewnfasnach).

- 3.10 Roedd y mathau eraill o fanwerthwyr nad oeddent yn gwneud penderfyniadau ynghylch prisiau nac yn wybodus iawn am y polisi'n cynnwys dwy dafarn annibynnol. Roedd prisiau un ohonynt wedi'u gosod gan "y bragdy" ac roedd y llall yn cael ei rhedeg ar ran clwb cymdeithasol, ac nid oedd felly'n gwneud penderfyniadau ynghylch prisiau. Yn yr un modd, dywedodd siop groser allfasnach hefyd nad oedd ganddynt lawer o ddealltwriaeth o'r rheolau ynghylch cynigion a disgowntiau, gan eu bod yn rhan o fasnachfaint ac felly ddim yn pennu'r prisiau eu hunain.
- 3.11 Mewn cyferbyniad, roedd prif swyddfeydd manwerthwyr cadwyn yn anfon llythyr Llywodraeth Cymru i'w canghennau, neu'n dosbarthu gwybodaeth am y polisi, er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn gwybod amdano.

Deall nodau'r polisi

- 3.12 Prif nod y polisi Isafbris am Alcohol yw lleihau'r niwed a achosir gan alcohol trwy dargedu yfed peryglus a niweidiol a gwerthu alcohol rhad, cryfder uchel. Er bod rhai o'r cyfranogwyr mewnfasnach ac allfasnach yn deall hyn, roedd eraill yn sôn am nodau megis: lleihau goryfed mewn pyllau, ei gwneud hi'n anoddach i bobl 'â phroblemau' brynu alcohol rhad a gwella iechyd y cyhoedd yn gyffredinol. Credai un manwerthwr mai'r nod oedd safoni prisiau manwerthu alcohol ledled Cymru.
- 3.13 Cafwyd safbwyntiau sinigaidd hefyd bod y polisi wedi'i gyflwyno er mwyn i'r llywodraeth wneud arian, a chredai rhai manwerthwyr bod arian o'r polisi'n mynd i Lywodraeth Cymru a'r GIG yng Nghymru am ei fod wedi'i gyflwyno am resymau iechyd. Yn hynny o beth, nid oedd y ddealltwriaeth wedi newid ryw lawer ers yr ymchwil llinell sylfaen, pan bennwyd mai'r prif nodau oedd: (a) lleihau'r defnydd niweidiol o alcohol a goryfed, a (b) mynd i'r afael â gwerthu alcohol rhad a gwella iechyd y cyhoedd. Yn ogystal a gan adlewyrchu canfyddiadau'r ymchwil llinell sylfaen, nododd y cyfranogwyr ddau brif grŵp a dargedwyd gan y polisi: pobl ifanc ac yfwyr problemus.

Ffynonellau gwybodaeth

- 3.14 Canfu'r **adroddiad llinell sylfaen** y dylanwadwyd ar lefelau ymwybyddiaeth y manwerthwyr gan eu cyswllt a'u hymgysylltu â'r ffynonellau gwybodaeth a gawsant ac y chwiliasant amdanynt.
- 3.15 Yn ystod y **cam hwn** ni chanfuwyd cysylltiad clir rhwng y ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd a gwybodaeth ac ymwybyddiaeth y cyfranogwyr am y polisi. Mae'n bosibl bod manwerthwyr wedi bod yn fwy gweithgar wrth chwilio am wybodaeth pan gafodd y polisi ei roi ar waith, ond wedi bod yn llai gweithgar yn ystod y cam hwn. Mae'n bosibl hefyd bod hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod anawsterau cymdeithasol pwysicach megis Covid-19 wedi cymryd eu sylw yn y cyfnod ers rhoi'r polisi ar waith, a bod y cynnydd mewn costau byw yn cymryd eu sylw ar hyn o bryd.
- 3.16 Trafododd y manwerthwyr oedd wedi clywed am y polisi y ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd ganddynt. Roedd rhai o'r manwerthwyr yn edrych ar un ffynhonnell yn unig, tra bo eraill yn edrych ar sawl ffynhonnell. Roedd y ffynonellau gwybodaeth a enwyd yn cynnwys y rhyngwrdd a'r cyfryngau, Llywodraeth, ffynonellau masnachol a phobl eraill – yn debyg i ganfyddiadau'r astudiaeth llinell sylfaen.
- 3.17 **Y rhyngwrdd, y cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol:** Defnyddiwyd y cyfryngau fel ffynhonnell gan y rhai oedd wedi mynd ati i chwilio am wybodaeth ynghylch y polisi. Roedd hyn yn cynnwys chwilio ar wefannau newyddion megis BBC News, gwefan Llywodraeth Cymru, edrych ar Google ac ar y cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal ag edrych yn gyffredinol ar y "cyfryngau prif-ffrwd". Hefyd, dywedodd un cyfranogwr ei fod wedi defnyddio [ap MUP Llywodraeth Cymru](#) i wirio ei gydymffurfiaeth â'r polisi ac i sicrhau ei fod yn gwneud y cyfrifiadau prisiau yn gywir.
- 3.18 **Llywodraeth Genedlaethol a Llywodraeth Leol:** Dysgodd y manwerthwyr am y polisi hefyd drwy gael llythyr oddi wrth Llywodraeth Cymru. Digwyddodd hyn gan fwyaf i'r manwerthwyr cadwyn lle roedd y brif swyddfa naill ai wedi trosglwyddo llythyr Llywodraeth Cymru i'r manwerthwr unigol, wedi anfon diweddariad at yr holl siopau yng Nghymru yn rhoi gwybod iddynt am y newidiadau, neu wedi rhoi gwybod i'r manwerthwyr unigol trwy roi briffiau. Dywedodd rhai o'r cyfranogwyr eu bod wedi clywed am y polisi gan eu cynghorau lleol, ac eraill eu bod wedi cael llythyr heb fod

yn sicr o le y daeth: gellid esbonio hyn gan y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi anfon y llythyr dros ddwy flynedd yn ôl.

3.19 **Ffynonellau masnachol:** Dysgodd y manwerthwyr am y polisi mewn ffordd arall hefyd sef chwilio trwy lenyddiaeth y diwydiant am wybodaeth – er enghraifft cylchgrawn tanysgrifiol busnes tafarndai, neu drwy gael gwybodaeth gan y cwmni'n fewnol. Hefyd dysgodd y manwerthwyr am y polisi drwy siarad â masnachwyr a ffrindiau yn y diwydiant.

3.20 **Ar lafar:** Mewn rhai achosion, dysgodd y manwerthwyr am y polisi ar lafar, fel dywedodd un manwerthwr mewnfasnach annibynnol: 'ar lafar, roedd pobl jyst yn siarad amdano, chi'n gwybod'. Dywedodd partner busnes mewn bwyty allfasnach a mewnfasnach annibynnol ei fod yn gwybod am y polisi am fod ganddo deulu yn yr Alban, lle cyflwynwyd y polisi yn gyntaf.

Gwybodaeth bellach

3.21 Fel y soniwyd uchod, ceir tystiolaeth sy'n awgrymu lle roedd manwerthwyr yn gwybod am ap Isafbris Uned Llywodraeth Cymru, ac yn gallu ei ddefnyddio, mynegasant lai o angen am wybodaeth bellach. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn gymwys bob tro ar gyfer cynigion a hyrwyddiadau.

3.22 Er bod rhai yn dweud bod y wybodaeth a gawsant oddi wrth Lywodraeth Cymru yn ddigon, roedd eraill yn gofyn am wybodaeth bellach, cymorth, nodiadau atgoffa a diweddariadau. Lle roeddent eisiau gwybodaeth bellach, roedd yn cynnwys:

- **Gwybodaeth a chymorth pellach ar sut i osod prisiau** – Roedd nifer o fanwerthwyr a gafodd drafferth i osod prisiau'n dweud yr hoffent gael mwy o gymorth ar sut i osod prisiau cynhyrchion alcoholig wrth ddefnyddio'r Isafbris Uned. Awgrymodd manwerthwr allfasnach annibynnol y gallai swyddogion cynghorau lleol wneud mwy i roi cymorth a gwella dealltwriaeth y manwerthwyr, er bod Swyddogion Safonau Masnach Lleol wedi ymweld â manwerthwyr allfasnach i esbonio'r polisi a sut i gydymffurfio ag ef. Gofynnodd manwerthwr arall am wybodaeth ysgrifenedig am yr isafbrisiau oddi wrth gyfanwerthwyr. Dywedodd hefyd y byddai'n helpu busnesau annibynnol i gael nodiadau atgoffa oddi wrth Lywodraeth Cymru ynghylch isafbrisiau poteli 70cl

ac un litr o wirodydd a gwin oherwydd y newidiadau i dollau yng nghyllideb y llywodraeth. Yn ôl eu dadl, efallai mai'r rheswm am hyn oedd nad oedd ganddynt brofiad o chwilio am wybodaeth ar lein, ond y dylai canllawiau a chynghor fod yn fwy hygyrch ar y wefan.

- **Nodiadau atgoffa/diweddariadau polisi** – Credai manwerthwyr bod angen i Lywodraeth Cymru gynnal ymwybyddiaeth barhaus o'r polisi drwy anfon llythyron neu daflenni dilynol at fanwerthwyr:

'Gallen nhw fod wedi hysbysebu'r peth yn fwy a'i hyrwyddo'n fwy, fel bod pobl yn deall beth sy'n digwydd a sut... Dweud bod popeth wedi mynd i fyny 50c, a sut maen nhw wedi cyfrifo fe, sbo' (Tafarn, annibynnol, mewnfasnach)

- 3.23 Dywedodd manwerthwyr y byddai diweddariadau gan Lywodraeth Cymru yn helpu staff newydd a chwsmeriaid i fod yn ymwybodol o'r polisi. Credent hefyd y byddai diweddariadau ar y polisi ac a yw wedi bod yn fuddiol yn ddefnyddiol o ran cynnal cefnogaeth i'r polisi.

4. Safbwyntiau manwerthwyr ar y polisi isafbris am alcohol

- 4.1 Mae'r bennod hon yn trafod safbwyntiau presennol manwerthwyr ar y polisi Isafbris am Alcohol yng Nghymru, dwy flynedd ar ôl ei weithredu. Mae'n archwilio agweddau manwerthwyr at y polisi, gan gynnwys ei effeithiau tebygol ar gystadleuaeth yn y farchnad gwerthiannau alcohol, ac i ba raddau mae manwerthwyr yn credu mai eu rôl nhw yw hyrwyddo yfed yn gyfrifol.

Prif ganfyddiadau

Roedd y safbwyntiau ar yr Isafbris am Alcohol a graddau'r gefnogaeth iddo yn troi o gwmpas tair thema:

- **Effeithiolrwydd** – roedd y manwerthwyr a ystyriai alcoholiaeth neu oryfed mewn pyliau yn fater iechyd ac nid yn ddewis yn gweld y polisi fel ffordd effeithiol o atal salwch a hyrwyddo iechyd y cyhoedd. Cafwyd safbwyntiau negyddol lle ystyriwyd y polisi yn ofer am fod manwerthwyr yn credu y byddai rhai'n goryfed doed a ddelo.
- **Cystadleuaeth yn y farchnad** – cafwyd safbwyntiau cadarnhaol lle nad oedd y polisi wedi effeithio ar bris llawer o'r cynhyrchion a werthwyd gan y manwerthwyr. Roedd manwerthwyr mewnfasnach yn hapus gyda'r polisi am eu bod yn ystyried ei fod yn gostwng gwahaniaethau yn y gystadleuaeth, gan greu 'cae chwarae mwy gwastad' rhyngddynt a'r siopau oedd wedi bod yn gwerthu alcohol am brisiau rhatach. Credai manwerthwyr â barn negyddol am y polisi y dylent fod â'r hawl i werthu alcohol am ba bris bynnag y dewisent.
- **Cyfrifoldeb am yfed alcohol** – daeth cefnogaeth i'r polisi o'r safbwynt bod angen i fanwerthwyr werthu alcohol mewn ffordd gyfrifol. Yn gyntaf, er mwyn sicrhau nad oedd goryfwyr yn rhwystro yfwyr mwy cyfrifol rhag defnyddio manwerthwyr ac yn ail, am fod gan fanwerthwyr rôl i'w chwarae o ran hyrwyddo iechyd y cyhoedd. Y manwerthwyr a ddadleuai dros ddewis y defnyddiwr a chyfrifoldeb yr unigolyn oedd â'r farn fwyaf negyddol am Isafbris Uned.

- Roedd y newidiadau yn y gefnogaeth i'r polisi ers ei weithredu oherwydd nad oedd yr Isafbris am Alcohol wedi effeithio ar gymaint o brisiau ag yr oedd rhai o'r manwerthwyr wedi'i ddisgwyl. Ymysg y manwerthwyr mewnfasnach, daeth mwy o gefnogaeth o'r safbwynt bod y polisi wedi lleihau'r gystadleuaeth ag allfasnachwyr.

4.2 Roedd safbwyntiau'r manwerthwyr ar y polisi Isafbris am Alcohol yn troi o gwmpas tri mater: (a) a oeddent yn meddwl y byddai'r polisi'n **effeithiol**; (b) a oeddent yn credu bod y polisi'n creu **cystadleuaeth** decach neu well yn y farchnad; a (c) i ba raddau y credent fod gan fanwerthwyr gyfrifoldeb am helpu i atal yfed peryglus a niweidiol. Roedd y safbwyntiau hyn, yn eu tro, yn effeithio ar safbwyntiau manwerthwyr am y polisi Isafbris am Alcohol – a oeddent yn gadarnhaol, cymysg neu negyddol, fel y dangosir yn Ffigur 4.1 isod.

Ffigur 4.1: Materion sy'n effeithio ar safbwyntiau manwerthwyr am y polisi Isafbris am Alcohol

	Yn cefnogi'r polisi	Yn cefnogi gyda rhai pryderon	Heb gefnogi'r polisi
Effeithiolrwyd y polisi	Yn annog yfed cyfrifol	Effaith annheg bosibl ar y tlotaf a'r rhai mwyaf agored i niwed	Mae'r polisi yn 'ofer' – bydd rhai yn goryfed doed a ddelo
Cystadleuaeth yn y farchnad	Effeithiwyd ar ychydig o brisiau yn unig, cae chwarae mwy gwastad	Cystadleuaeth ar ben rhataf y farchnad, gwerthiannau trawsffiniol	Yn tansellio dewis defnyddwyr – dylai manwerthwyr godi beth bynnag a ddymunant
Cyfrifoldeb am yfed alcohol	Dylai manwerthwyr ddiogelu iechyd cwsmeriaid ac iechyd y cyhoedd	Y manwerthwr yn gyfrifol ochr yn ochr ag addysg a chymorth alcohol	Ni ddylai'r Llywodraeth 'ddeddfu' ar yr hyn y gall pobl ei yfed

Effeithiolrwydd y polisi Isafbris am Alcohol

- 4.3 Ar y llinell sylfaen, cyn cyflwyno'r polisi Isafbris am Alcohol, ac ar ôl ei weithredu, roedd **safbwynt cadarnhaol neu gefnogol** ar y polisi Isafbris am Alcohol yn gysylltiedig â'r cwestiwn a oedd y manwerthwyr yn credu y byddai'n effeithiol wrth newid ymddygiad cwsmeriaid a gwella iechyd y cyhoedd. Mewn rhai achosion, roedd y safbwyntiau ynghylch hyn yn gysylltiedig ag ymgyrchoedd eraill ym maes iechyd y cyhoedd a ddangosai effeithiau prisiau ar lefelau defnyddio, megis cynyddu pris sigarêts i leihau nifer y bobl sy'n smygu. Roedd safbwyntiau ynghylch a oedd y polisi'n debygol o leihau yfed peryglus a niweidiol yn dal i effeithio ar safbwyntiau'r manwerthwyr yn y cam hwn.
- 4.4 Roedd y gred y byddai'r polisi'n effeithiol hefyd yn gysylltiedig â'r safbwynt bod yfed problemus, ac alcoholiaeth, yn salwch nad oes gan unigolion ond ychydig o reolaeth drosto, os o gwbl. Gallai cynyddu prisiau'r alcohol mwyaf niweidiol felly helpu i droi rhywun oddi wrth ei brynu. Er enghraifft, dadleuodd rheolwr siop alcohol y gallai gwneud alcohol cryfder uchel, niweidiol yn llai hygyrch drwy godi prisiau helpu i atal iechyd gwael:
- ‘Dwi'n ystyried bod alcoholiaeth yn salwch ac nid yn ddewis efallai... felly dwi'n credu ei fod yn beth da i dynnu'r cynhyrchion yna oddi ar y farchnad yng Nghymru yn bendant'. (Siop alcohol, cadwyn, allfasnach)
- 4.5 Roedd y rhai a ystyriai'r polisi fel hyn hefyd yn ei weld yn ffordd bwysig o fynd i'r afael â goryfed mewn pyliau, ac felly lleihau'r baich ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.
- 4.6 Dywedai'r manwerthwyr â **safbwyntiau mwy cymysg neu bryderon am y polisi** nad oedd yr Isafbris Uned wedi'i bennu'n ddigon uchel i fod yn gwbl effeithiol. Hefyd roeddent yn pryderu bod y pwyslais ar bris fel y mecanwaith dros newid yn effeithio ar y bobl dlotaf a'r rhai mwyaf agored i niwed yn bennaf sef y rhai oedd yn debygol o ddioddef mwyaf oherwydd codi prisiau. Er eu bod yn cytuno i raddau helaeth â'r polisi a'i nodau, roedd ganddynt bryderon am ei effeithiau ar bobl ar gyflog isel. Estynnwyd y pryderon hyn i gynnwys y cyhoedd yn gyffredinol yn y cam hwn ar

adeg pan fo costau byw wedi cynyddu'n sylweddol. Roeddent hefyd yn nodi bod pobl ar incymau uwch yn gallu parhau i yfed beth bynnag a ddymument, a'u teimlad oedd fod hynny'n annheg.

- 4.7 Er bod y manwerthwyr hyn yn deall ac yn derbyn y syniad o wneud alcohol cryfach rhatach yn llai hygrych, nid oeddent yn croesawu'r polisi gymaint mewn perthynas â chynhyrchion premiwm cryfach oedd eisoes yn ddud (h.y. gwinoedd a gwirodydd cryfach). Roedd hyn oherwydd yr ystyriwyd bod risgiau iechyd y diodydd hyn yn llai niweidiol yn gymdeithasol nag ychwanegu mwy o gost at gynhyrchion oedd eisoes yn ddud. Fel y dadleuai'r rheolwr bwyty hwn:

'Dwi ddim yn gweld y pwynt o'i wneud ar botel o *Chablis* gwerth £14, ond dwi'n deall ei wneud ar bedwar can o *Special Brew*. Chi'n gweld beth sy gen i? Nodau'r fenter, dwi'n meddwl y dylech chi fod wedi gadael llonydd i'r alcohol premiwm, ond dylech chi ddim fod yn gallu prynu 14 can o *Special Brew* am lai na £10'. (Bwyty, annibynnol, mewnfasnach).

- 4.8 Felly efallai y byddai modd darbwylllo manwerthwyr â safbwyntiau cymysg neu bryderon bod yr Isafbris am Alcohol yn effeithlon os gellir dangos ei fod yn effeithiol wrth leihau yfed niweidiol ac os nad oes effaith anghymesur ar bobl sydd ar gyflogau is.
- 4.9 Y manwerthwyr a anghytunai â'r polisi oedd â'r safbwyntiau mwyaf **negyddol neu anghefnogol** amdano oherwydd nad oeddent, yn syml, yn meddwl y byddai'n effeithiol. Roedd y rhai a goledai'r farn hon yn credu bod y polisi'n 'ofer' am fod rhai pobl yn yfed gormod doed a ddelo, yn mynd yn gaeth i alcohol ac yn troi at gyffuriau. Mae hyn yn awgrymu y byddai angen tystiolaeth gref o effeithiolrwydd y polisi i newid eu meddyliau.

Effeithiau'r polisi ar gystadleuaeth yn y farchnad

- 4.10 Ar y llinell sylfaen, roedd rhai o'r manwerthwyr wedi disgwyl y byddai'r polisi'n creu budd sef gwella cystadleuaeth yn y farchnad. Roeddent yn teimlo bod hyn wedi'i wireddu.
- 4.11 Y manwerthwyr mewnfasnach oedd â'r **safbwyntiau mwy cadarnhaol a chefnogol** ar y polisi yn y cam hwn, oherwydd y credent iddo atal siopau ac

archfarchnadoedd rhag gwerthu alcohol am brisiau isel iawn neu brisiau â disgownt. O ganlyniad, teimlent fod cae chwarae mwy gwastad wedi'i greu gyda siopau'n codi prisiau oedd yn cymharu'n well â'r prisiau a godwyd gan dafarndai, bariau a chlybiau a bwytai.

- 4.12 Hefyd, meddent, os nad oedd cwsmeriaid yn gallu yfed alcohol rhad yn y tŷ, efallai y byddent yn fwy tebygol o fynd allan ac yfed mewn tafarndai, bariau, clybiau a bwytai. Roedd y farn hon yn arbennig o bwysig yn y cyfnod ôl-Covid-19 pan oedd y manwerthwyr a fu ar gau yn ystod y pandemig yn ceisio gwneud i fyny am y busnes a gollwyd ganddynt. Ceir trafodaethau pellach ynghylch y safbwyntiau a phrofiadau o ran y cwestiwn a wnaeth y polisi greu cae chwarae mwy gwastad rhwng y manwerthwyr ym mhenodau 5 a 6.
- 4.13 Cafwyd safbwyntiau cadarnhaol hefyd ymysg manwerthwyr mewnfasnach ac allfasnach a ddywedodd nad oeddent yn meddwl bod y polisi'n mynd i effeithio, nac wedi effeithio, ar eu gwerthiannau. Naill ai nid oeddent yn ystyried y polisi yn fygythiad i'r galw am alcohol, neu dim ond mân effeithiau roedd y polisi wedi'u cael ar eu busnesau hyd hynny. Dywedodd rhai o'r manwerthwyr nad oedd y codiadau prisiau ond wedi effeithio ar nifer fach o'u cynhyrchion, a phrin yr oedd eu cwsmeriaid wedi sylwi ar y newid.
- 4.14 Roedd y **safbwyntiau mwy cymysg** ar y polisi Isafbris am Alcohol yn adlewyrchu'r pryderon ynghylch cystadleurwydd, yn enwedig y dylid rhoi'r polisi Isafbris am Alcohol ar waith ar draws y DU er mwyn atal gwerthiannau trawsffiniol posibl. Roedd manwerthwyr mewnfasnach a manwerthwyr allfasnach yn honni eu bod yn gwybod am dystiolaeth anecdotaidd o bobl yn croesi'r ffin i Loegr er mwyn prynu meintiau digyfyngiad o alcohol rhatach, ond nid oeddent yn credu bod hynny'n digwydd. Ceir trafodaethau pellach ynghylch effeithiau gwerthiannau trawsffiniol ym mhenodau 6 a 7.
- 4.15 Cafwyd y **safbwyntiau mwyaf negyddol ac anghefnogol** ymysg y manwerthwyr a deimlai, yn groes i'r syniad o sefydlu cae chwarae gwastad rhwng manwerthwyr mewnfasnach a manwerthwyr allfasnach, fod y polisi'n tanseilio cystadleuaeth yn y farchnad. Roedd rhai o'r manwerthwyr allfasnach annibynnol yn dadlau y cawsant eu hatal rhag cystadlu â manwerthwyr mewnfasnach ac archfarchnadoedd a siopau

cadwyn mwy o faint. Ystyrient fod y polisi yn eu hatal rhag gwneud lleihad angenrheidiol i'w prisiau ar gyfer cynigion hyrwyddol er mwyn iddynt allu cystadlu.

- 4.16 Roedd rhai o'r manwerthwyr yn y cyfweiliadau dilynol o'r farn y dylai fod ganddynt yr hawl i godi pa bynnag bris a ddymument a gwerthu beth bynnag a ddymument. Fodd bynnag, nid oedd y safbwyntiau hyn wedi newid yn sylweddol ers y llinell sylfaen, neu roeddent yn safbwyntiau cyfranogwyr newydd oedd yn mynegi eu barn am y tro cyntaf.

Cyfrifoldeb am reoli yfed alcohol

- 4.17 Roedd safbwyntiau ar gyfrifoldeb am reoli gwerthiannau ac yfed alcohol hefyd yn effeithio ar y graddau roedd manwerthwyr yn cefnogi'r polisi Isafbris am Alcohol. Fodd bynnag, nid oedd y safbwyntiau hyn yn gysylltiedig â'r math o fanwerthwr oedd dan sylw – mewnfasnach neu allfasnach, cadwyn neu annibynnol.

- 4.18 Credai'r rhai oedd yn **fwyaf cefnogol a chadarnhaol am y polisi** fod gan fanwerthwyr gyfrifoldeb pwysig i reoli a chael rheolaeth dros lefelau yfed alcohol. Dywedodd y cyfranogwyr y cyfwelwyd â nhw ar y llinell sylfaen ac yn y cam hwn bod angen iddynt fod yn 'fanwerthwyr cyfrifol', neu fod ganddynt rôl i'w chwarae ochr yn ochr ag eraill er mwyn hyrwyddo iechyd a llesiant y gymdeithas.

- 4.19 Credai manwerthwyr allfasnach a manwerthwyr mewnfasnach bod eu delwedd ymysg y cyhoedd wedi'i niweidio gan werthiannau alcohol cryf, rhatach, a lefelau gormodol o yfed. Dadleuodd tafarn a bragdy annibynnol ei bod yn iawn i atal gwerthu alcohol cryf, rhad oherwydd ei fod wedi cyfrannu at roi enw gwael i'r diwydiant:

'Mae'n iawn i roi'r gorau i'r hyrwyddiadau prisio er mwyn stopio alcohol rhad. Mae enw gwael gan alcohol, ac mae angen inni ei hyrwyddo mewn ffordd gyfrifol, achos mae'n cael effaith ganlyniadol ar y diwydiant yn y tymor hirach. Bydd pobl yn dechrau symud i ffwrdd o'r diwydiant os na fyddwn ni'n hyrwyddo neu hysbysebu'n gyfrifol. Felly i fi, dwi gant y cant tu ôl iddo'. (Tafarn a bragdy, annibynnol, mewnfasnach ac allfasnach)

- 4.20 Fodd bynnag, ymysg rhai manwerthwyr, aeth yr ymdeimlad hwn o gyfrifoldeb y tu hwnt i gylch gorchwyl y diwydiant alcohol yn unig. Iddyn nhw, roedd yn rhan o

ymdeimlad ehangach o gyfrifoldeb tuag at eu cwsmeriaid fel aelodau o'r gymdeithas. Roedd y safbwynt hwn yn adlewyrchu'r syniad bod angen i'r gymdeithas, manwerthwyr, unigolion a'r llywodraeth gymryd mwy o ofal am iechyd y rhai o'u cwmpas. Fel y dadleuodd un rheolwr siop:

'Dylem dderbyn mwy o gyfrifoldeb am y bobl o'n cwmpas ni hefyd. Po fwyaf o ofal a gymerwn ohonynt, hawsaf yw hi i ofalu ar sail ehangach. Nid fi yw hi mwyach, ond ni' (Siop groser, annibynnol, allfasnach).

4.21 Roedd y manwerthwyr a **gefnogai'r polisi gan fwyaf ond oedd â rhai pryderon** yn tueddu i osod cyfrifoldeb y manwerthwyr am reoli faint o alcohol a yfir fel rhan o ddarlun ehangach. Roeddent yn pwysleisio cyfrifoldeb manwerthwyr wedi'i gyfuno â chyfrifoldebau'r llywodraeth ac unigolion. Awgryment y dylai'r llywodraeth barhau i addysgu pobl ifanc am niwed posibl yfed alcohol, er mwyn iddynt wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch yfed alcohol drwy gydol eu bywydau. Roeddent yn dadlau mai mater iechyd yw alcoholiaeth y mae angen i'r llywodraeth fynd i'r afael ag ef. Yn benodol, dadleuasant nad oedd rheoli prisiau diodydd yn debygol o gael llawer o effaith oni bai fod y llywodraeth yn gwella mynediad i wasanaethau cymorth megis Alcoholics Anonymous (AA), cwnsela, gofal iechyd, a chymorth ariannol.

4.22 Dadleuai'r manwerthwyr â'r **safbwyntiau mwyaf negyddol ac anghefnogol** am y polisi mai'r cwsmeriaid yn unig ddylai ysgwyddo'r cyfrifoldeb am faint o alcohol a yfir ganddynt. Dywedasant na ddylai'r llywodraeth 'ddeddfu' ar fywydau pobl, nac ar faint o alcohol a yfir ganddynt. Roeddent yn credu bod gan bawb derfyn alcohol gwahanol, ac mai'r unigolyn ddylai ysgwyddo'r cyfrifoldeb am faint mae'n ei yfed. Gan gyffelybu'r mater i smygu sigaréts a dewis bwyd, dywedodd un tafarnwr mai mater o ddewis y defnyddiwr ydyw:

'Allwch chi ddim beio'r cwmnïau tybaco os yw rhywun yn smygu 60 y dydd, neu'n byw ar fwyd gwael. Ei ddewis ef yw hi' (Tafarn, annibynnol, mewnfasnach).

4.23 Dengys hyn bwysigrwydd addysgu manwerthwyr am ba bryd y gall yfed alcohol fod yn ddewis neu beidio (yn enwedig pan fydd cwsmeriaid eisoes yn feddw neu'n ymdrin ag alcoholiaeth). Efallai y byddai pwysleisio'r rôl y gall manwerthwyr ei

chwarae ochr yn ochr ag unigolion a'r llywodraeth o ran hyrwyddo yfed yn gyfrifol yn perswadio rhai o'r manwerthwyr i roi mwy o gefnogaeth i'r polisi.

5. Profiadau o roi'r polisi ar waith

- 5.1 Edrychodd yr adroddiad llinell sylfaen ar y graddau roedd manwerthwyr wedi paratoi ar gyfer cyflwyno'r Isafbris am Alcohol yng Nghymru, a'r rhesymau dros wneud a dros beisio â gwneud. Mae'r bennod hon yn archwilio a gafodd paratodau ychwanegol eu gwneud cyn rhoi'r polisi ar waith, a'r addasiadau a wnaed i'w harferion ers hynny. Mae hefyd yn edrych ar y cwestiwn a oedd disgwyliadau manwerthwyr ynghylch faint a pha mor gymhleth fyddai'r newid oedd ei angen wedi'u gwireddu, a lle mae anawsterau gweithredol yn parhau.

Prif ganfyddiadau

- Y manwerthwyr a aseswyd ar y llinell sylfaen fel y rhai oedd mwyaf parod ar gyfer yr Isafbris am Alcohol yng Nghymru oedd wedi paratoi orau i ymdrin â newid prisiau ers rhoi'r polisi ar waith.
- Y rhai oedd lleiaf parod ers rhoi'r polisi ar waith oedd:
 - o Staff yn gweithio i fanwerthwyr lle nad nhw oedd y person â'r prif gyfrifoldeb am wneud penderfyniadau ynghylch prisiau.
 - o Manwerthwyr oedd yn tueddu i werthu alcohol o ansawdd gwell am bris uwch yr ystyrient y byddai eisoes yn fwy na'r Isafbris am Alcohol ac a roddai lai o ymdrech mewn i'r gwaith paratoi o ganlyniad.
 - o Manwerthwyr oedd newydd ailagor ar ôl Covid-19 ac yr oedd gwerthiannau alcohol yn rhan fach o'u busnes.
- Nid Isafbris am Alcohol oedd ar flaenau meddyliau'r manwerthwyr adeg y cyfweiliadau. Cafodd y cynnydd prisiau yn gysylltiedig â'r Isafbris am Alcohol ei fwrw i'r cysgod gan y caeadau oherwydd y pandemig Covid-19; y cynnydd mwy diweddar mewn costau byw; a'r ffaith mai dim ond ychydig o gynhyrchion a welodd gynnydd yn eu prisiau.
- Tueddai'r manwerthwyr oedd yn cael trafferth â'r ffordd roedd yr Isafbris am Alcohol yn effeithio ar brisiau a disgowntiau beidio â gwybod am yr ap Isafbris Uned neu roeddent heb ei ddefnyddio. Lle roedd y manwerthwyr wedi

gwneud, roeddent yn ei weld yn ddefnyddiol wrth ymdrin â phrisiau, yn enwedig mewn perthynas â hyrwyddiadau a disgowntiau. Roedd y rhai a ddefnyddiai'r ap yn dweud hefyd ei fod yn ei wneud yn haws ac yn llai cymhleth iddynt drosglwyddo i'r drefn newydd.

- Nid oedd unrhyw fanwerthwr yn y sampl wedi cael hysbysiad cosb benodedig orfodol, sy'n adlewyrchu'r ffaith nad oedd llawer o hysbysiadau wedi'u cyhoeddi yng Nghymru ar adeg yr adroddiad. Roedd eraill yn hunan-blismona drwy ddefnyddio'r ap Isafbris Uned ac roedd rhai wedi cael ymweliad cydymffurfiaeth gan y cyngor lleol neu eu prif swyddfa.

Paratodau ac addasiadau

- 5.2 Cyn gweithredu'r polisi, roedd y canfyddiadau llinell sylfaen yn awgrymu mai manwerthwyr cadwyn oedd wedi **paratoi fwyaf** ar gyfer rhoi'r polisi ar waith. Roeddent eisoes wedi dechrau: (a) gwirio prisiau eu cynhyrchion yn erbyn yr isafbris uned; (b) addasu stoc i gynnwys yr hyn a ystyrient yn gynhyrchion ansawdd gwell, gwell gwerth am arian; (c) hyfforddi staff; a (d) rhybuddio cwsmeriaid am y newidiadau oedd ar y gweill. Dywedai'r rhai oedd wedi paratoi **lleiaf** ar gyfer y polisi ac nad oeddent yn gwybod amdano eu bod yn tueddu i fod yn anhrefnus hyd y funud olaf neu roeddent yn credu na fyddai'r polisi yn effeithio ar bris yr alcohol a werthent.
- 5.3 **Ar ôl rhoi'r polisi ar waith**, roedd y staff oedd yn gyfrifol am benderfyniadau priso mewn cadwyni o siopau neu westai, neu fel rhan o fragdy, yn gwybod am y polisi, a phawb yn cofio cael llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru ynghylch ei gyflwyno. Trafodir ffynonellau eraill o wybodaeth ac ymwybyddiaeth am y polisi ym mhennod 3. Yr unig eithriad i'r patrwm hwn oedd y manwerthwyr oedd ar gau yn ystod cyfyngiadau symud Covid-19, ac oedd newydd ailagor eu busnesau. Felly nid oedd y wybodaeth a gawsant cyn, neu ar adeg rhoi'r polisi ar waith ym mis Mawrth 2020, ar flaenau eu meddyliau.
- 5.4 **Lle roedd gwaith paratoi wedi'i wneud**, roedd yn cynnwys siopau'n hyfforddi eu staff am y polisi ac yn codi ymwybyddiaeth amdano ymysg eu cwsmeriaid. Roedd staff y siopau'n defnyddio arwyddion a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, prif swyddfeydd neu sefydliadau masnach er mwyn tynnu sylw at y polisi. Roedd un

manwerthwr ar-lein yn defnyddio negeseuon naid cyn i'r polisi gael ei roi ar waith er mwyn tynnu sylw at y ffaith y byddai prisiau cynhyrchion yn codi, a pham.

Dywedodd rhai manwerthwyr annibynnol, llai o faint, eu bod wedi chwilio'n benodol am gyfanwerthwyr y credent eu bod yn gwybod am y polisi ac wedi ei ystyried wrth bennu eu prisiau.

- 5.5 **Lle roedd manwerthwyr wedi paratoi lleiaf am y newidiadau mewn prisiau,** roedd hyn am dri rheswm.
- 5.6 Yn gyntaf, lle roedd manwerthwyr yn rhan o gadwyn o siopau, neu'n dafarndai oedd yn eiddo i fragdy, neu lle roedd penderfyniadau ynghylch prisiau'n cael eu gwneud yn ganolog neu mewn prif swyddfa. Fodd bynnag, roedd rhai o'r staff yn dangos ymwybyddiaeth o'r polisi o hyd, neu yn adnabod ei oblygiadau lle roedd disgowntiau neu gynigion arbennig yn cael eu gwneud.
- 5.7 Yn ail, lle roedd manwerthwyr yn meddwl bod yr holl gynhyrchion a werthent, neu'r rhan fwyaf ohonynt, ar ben drutach y farchnad, ac felly na fyddai'r Isafbris am Alcohol yn effeithio arnynt. Roedd hyn yn ei dro yn eu harwain i baratoi'n llai trylwyr. Dywedodd manwerthwyr 'pen uwch' bod eu disgwyliadau wedi cael eu gwireddu, heblaw am rai cynhyrchion cryfach a werthwyd yn allfasnachol. Felly efallai y byddai o gymorth i gynnwys enghreifftiau o gynhyrchion pris uwch, pen uwch y mae'r Isafbris Uned yn effeithio arnynt mewn unrhyw gyhoeddusrwydd newydd ynghylch goblygiadau'r polisi.
- 5.8 Yn drydydd, newydd ailagor eu busnesau ar ôl Covid-19 oedd rhai manwerthwyr, ac nid oedd y polisi Isafbris am Alcohol ar flaenau eu meddyliau. Yn yr achos hwn, efallai eu bod wedi cael gwybodaeth am y polisi cyn neu ar ddechrau'r cyfyngiadau symud Covid-19 cyntaf, ond nad oedd sylw'r manwerthwyr wedi bod arno yn y cyfamser. Roedd hyn yn arbennig o wir ymysg bwytai a chaffis lle nad oedd gwerthu alcohol ond yn rhan fach o'r busnes. Mae hyn yn awgrymu y bydd angen hyrwyddo'r polisi eto mewn ffordd fwy targededig er mwyn atal y manwerthwyr rhag torri'r gyfraith yn ystod gweddill eleni.

Cyd-destun Covid-19 a chwyddiant uchel

- 5.9 Fel y trafodwyd yn y cyflwyniad i'r adroddiad hwn, mae'n bendant yr effeithiodd dyfodiad Covid-19 a'r cyfyngiadau canlyniadol ar ymgynnull a chymdeithasu, ar y profiad o roi'r polisi ar waith. Effeithiwyd arno hefyd yn fwy diweddar gan yr argyfwng costau byw, cynnydd mewn prisiau tanwydd, a lefelau uwch o chwyddiant.
- 5.10 I fanwerthwyr allfasnach megis siopau, roedd cau tafarndai, bariau a chlybiau, neu gyfyngu ar eu horiau agor yn ystod y pandemig Covid-19, yn golygu bod eu gwerthiannau alcohol yn tueddu i gynyddu. Credai manwerthwyr hefyd bod eu cwsmeriaid yn llai tebygol o sylwi ar godiad yn eu prisiau yn sgil yr Isafbris am Alcohol yn y cyd-destun lle roeddent yn ymdrin â goblygiadau'r cyfarwyddiadau i aros gartref a'r cyfyngiadau symud eraill. Roedd hyn hefyd yn wir am fanwerthwyr mewnfasnach, a ddywedai fod yr ymdeimlad o ryddhad ymysg eu cwsmeriaid o allu mynd allan a chymdeithasu ar ôl Covid-19 yn golygu nad oedd y codiadau prisiau oherwydd yr Isafbris am Alcohol yn denu eu sylw. Ystyriwyd bod y ddwy sefyllfa wedi helpu i reoli ymateb cwsmeriaid i'r polisi trwy ei wneud yn llai amlwg.
- 5.11 Ar yr un pryd, ystyriwyd bod yr ychydig o brisiau a gododd oherwydd y polisi Isafbris am Alcohol yng Nghymru yn ddim byd i'w gymharu â'r codiad ehangach mewn prisiau a chostau oherwydd chwyddiant uwch. Fel y dywedodd perchennog tafarn annibynnol:

"Dwi ddim yn credu bod isafbris am alcohol yn mynd i fod ar ben agendau llawer o bobl ar y foment, chi'n gwybod. Gyda'r cynnydd mewn prisiau ynni a chwyddiant yn mynd yn wallgof, prisiau disel, y rhyfel yn Wcráin...' (Tafarn, annibynnol, mewnfasnach)

Dywedodd manwerthwr arall bod Llywodraeth Cymru'n 'ffodus' nad oedd y cynnydd mewn prisiau oherwydd yr Isafbris am Alcohol mor amlwg ym meddyliau'r defnyddwyr dros y ddwy flynedd ddiwethaf ag y gallasai fod. Fodd bynnag hyn, ynghyd â'r ffaith nad oedd y cynnydd prisiau yn effeithio ar gynifer o gynhyrchion ag yr oedd y manwerthwyr wedi'i ddisgwyl, a gyfrannodd i'r safbwynt cyffredinol nad oedd hi wedi bod yn anodd iawn i reoli'r gwaith o gyflwyno'r polisi.

Profiad o brisio, hyrwyddiadau a chynigion

- 5.12 Cyfrifo'r prisiau ar gyfer hyrwyddiadau, cynigion a disgowntiau oedd y prif anhawster a nodwyd gan fanwerthwyr mewnfasnach ac allfasnach mewn perthynas â chyflwyno'r polisi Isafbris am Alcohol a'i reoli. Roedd hynny er gwaetha'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau manwl ynghylch hyn ar lein ac roedd yn arbennig o wir lle nad oedd y manwerthwyr yn gwybod am ap Isafbris Uned Llywodraeth Cymru.
- 5.13 Roedd prisio mewn perthynas â hyrwyddiadau a chynigion yn arbennig o anodd i amrywiaeth o fanwerthwyr ei ddeall. Er enghraifft, dywedodd un siop gyfleustra bod y rheolau ynghylch hyrwyddiadau'n gymhleth iddynt eu dilyn am y gallent fod yn gymwys yn unrhyw le yn y Deyrnas Unedig. Roedd rhaid i reolwr yng Nghymru ddarllen y print mân ynghylch yr Isafbris am Alcohol i weld sut yr oedd yn effeithio ar ei siop. Roedd gan fanwerthwyr ddehongliadau gwahanol o'r rheolau ynghylch hyrwyddiadau hefyd: tra credai un manwerthwr mewnfasnach ac allfasnach annibynnol nad oedd hawl cynnal unrhyw hyrwyddiad a oedd yn annog gwerthu alcohol, roedd manwerthwr mewnfasnach cadwyn yn credu nad oedd y polisi isafbris am alcohol yn gymwys i gynigion a hyrwyddiadau:
- 'Mae yn union yr un peth â beth maen nhw wedi'i wneud yn Lloegr... os ydych chi'n cymysgu unrhyw chwe photel cewch chi ddisgownt yn gyffredinol; gall hwnnw fod hyd at 20 y cant oddi ar bris un botel benodol... cyn belled â dwi'n gwybod, does dim byd wedi newid o ran hyrwyddo alcohol – ar ein pen ni, beth bynnag.' (Siop alcohol, cadwyn, allfasnach)
- Dengys hyn ei bod yn bosibl i eitemau osgoi'r polisi Isafbris am Alcohol oherwydd bod dryswch ynghylch hyrwyddiadau, cynigion a disgowntiau, a sut y dylid eu prisio.
- 5.14 Fodd bynnag, roedd rhai manwerthwyr yn defnyddio'r ap Isafbris Uned i'w helpu nhw i gyfrifo pris alcohol ac osgoi'r anawsterau hyn. Dywedodd manwerthwyr allfasnach eu bod wedi defnyddio'r ap i wneud yn siŵr bod eu prisiau'n gywir. Yn gyffredinol, roedd y cyfranogwyr yn defnyddio'r ap er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi'r prisiau cywir ar alcohol. Fel y dywedodd un cyfranogwr a weithiai mewn siop gyfleustra gadwyn:

'Dwi'n dibynnu ar yr ap i ddweud wrtha i 'mod i'n gwneud popeth yn iawn, dim gair o gelwydd!' (Siop gyfleustra, cadwyn, allfasnach)

- 5.15 Dywedodd amrywiaeth fawr o fanwerthwyr bod yr ap hefyd yn ddefnyddiol ar gyfer cyfrifo disgowntiau ar eitemau sengl a phecynnau aml-gynnwys, oedd yn gwneud pethau'n symlach. Fel y dywedodd un cyfranogwr a weithiai mewn siop garej:

'Wnes i ddim trafferthu gweithio mas y costau na dim byd. Wnes i jyst defnyddio'r ap am ei bod hi mor hawdd' (Garej, cadwyn, allfasnach)

Roedd hyn hefyd yn ddefnyddiol i gyfrifo'r isafbris y gellid gwerthu alcohol amdano pan oedd y cynhyrchion yn agosáu at eu dyddiad "gwerthu erbyn".

- 5.16 Fel hyn roedd yr ap hefyd yn symleiddio'r broses o hunan-blismona a gwirio prisiau yn erbyn yr Isafbris Uned, a chanfuwyd iddo wneud y broses o drosglwyddo i'r drefn newydd yn haws ac yn llai cymhleth. Fodd bynnag, fel y nodwyd ym mhennod 4, nid oedd yr holl fanwerthwyr yn gwybod am yr ap, na sut i ddod o hyd i'r wybodaeth gywir ar wefan Llywodraeth Cymru. Roedd rhai'n dal i gael trafferth wrth gymhwyso'r ap i'r cynigion a disgowntiau hyrwyddol. O gofio pa mor ddefnyddiol oedd yr ap i rai o'r manwerthwyr, byddai mwy o waith hyrwyddo, ac esboniad o sut i'w ddefnyddio, yn fanteisiol i'r rhai sy'n dal i gael trafferth gyda phrisio.

Cydymffurfiaeth a gorfodi

- 5.17 Nid oedd unrhyw fanwerthwyr yn y sampl cyfweld wedi bod yn destun gweithdrefnau gorfodi neu hysbysiadau cosb penodedig. Yn unol â pholisi cyfredol Llywodraeth Cymru, dywedwyd bod manwerthwyr allfasnach wedi cael ymweliadau a gwiriadau cydymffurfiaeth. Disgrifiasant ymweliadau gan eu cynghorau lleol, neu staff o'r brif swyddfa yn achos tafarndai a redir gan fragdai a siopau oedd yn rhan o gadwyn neu fasnachfaint. Credai rhai o'r manwerthwyr a ailagorodd ar ôl Covid-19 y byddent yn cael budd o ymweliad gan swyddogion lleol i drafod y polisi, disgwyliadau ynghylch cydymffurfiaeth a natur y mesurau gorfodi gyda nhw a'u staff.

6. Canfyddiadau o'r effeithiau

- 6.1 Mae'r bennod hon yn adrodd ar brofiadau ac effeithiau canfyddedig y polisi Isafbris am Alcohol a nodwyd yn y cyfweiliadau â manwerthwyr. Mae'n rhoi asesiad o effaith yr Isafbris am Alcohol yng Nghymru ers ei roi ar waith ym mis Mawrth 2020. Ceir dadansoddiad eilaidd o'r setiau data perthnasol sy'n ymdrin â gwerthiannau alcohol, diodydd alcoholig, a phryniannau alcohol ar hyd y ffin rhwng Cymru a Lloegr ym mhennod 7.

Prif ganfyddiadau

- Cafwyd canfyddiad cadarnhaol ar y cyfan o effeithiau'r Isafbris am Alcohol ar fanwerthwyr a'u cwsmeriaid yn rhannol oherwydd y cysgod a daflwyd dros y cynnydd mewn prisiau gan Covid-19 yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, a chwyddiant uwch nag oedd ar y llinell sylfaen ar adeg y cyfweiliadau dilynol cyntaf hyn.
- Roedd manwerthwyr allfasnach yn tueddu i feddwl bod y polisi'n cael yr effaith ddymunol trwy leihau faint o alcohol rhatach, cryfder uwch oedd yn cael ei werthu a'i yfed. Roedd effeithiau'r polisi ar fanwerthwyr mewnfasnach ar y cam hwn, wrth i fusnesau ailagor ar ôl codi cyfyngiadau Covid-19, yn llai eglur.
- Roedd effeithiau negyddol y polisi ar fanwerthwyr yn cynnwys gwastraff oherwydd nad oedd modd gwerthu cynhyrchion ar ddisgownt wrth iddynt gyrraedd y dyddiad 'ar ei orau cyn'; cynigion a disgowntiau hyrwyddol a roddwyd ar gynhyrchion a ddosbarthwyd ledled y DU yr oedd rhaid i fanwerthwyr yng Nghymru wedyn sylwi arnynt a'u newid; a chostau canfyddedig o ran gwybodaeth ychwanegol a hyfforddiant.
- Dywedodd manwerthwyr mai prin oedd eu cwsmeriaid wedi sylwi ar y codiad prisiau yn sgil y polisi Isafbris am Alcohol yng nghyd-destun diweddar y chwyddiant uwch.
- Awgrymodd rhai manwerthwyr y gallai Llywodraeth Cymru anfon posteri pwynt gwerthu o dro i dro, y gallent eu harddangos er mwyn cynnal dealltwriaeth o'r polisi a'r gefnogaeth iddo. Byddai'n fuddiol cynnwys tystiolaeth bod y polisi'n cael effaith gadarnhaol yn y wybodaeth hon.

Effeithiau'r Isafbris am Alcohol yng nghyd-destun Covid-19 a'r cynnydd mewn costau byw

- 6.2 Rhaid ystyried y graddau mae'r Isafbris am Alcohol wedi effeithio ar fanwerthwyr, a'r graddau y canfuwyd iddo effeithio ar eu cwsmeriaid, ar y cam hwn, yng nghyd-destun ehangach y cyfyngiadau Covid-19 a'r cynnydd diweddar mewn costau byw (fel y trafodwyd uchod). O gofio y cafodd y polisi ei gyflwyno ym mis Mawrth 2020, roedd yn cyd-fynd bron yn union â dyfodiad Covid-19, ac yn cyd-fynd yn union â chyflwyno'r cyfyngiadau symud cyntaf.
- 6.3 Golygai hyn fod llawer o fanwerthwyr, gan fwyaf tafarndai, bariau a chlybiau mewnfasnach, ar gau am y rhan fwyaf o'r cyfnod rhwng y llinell sylfaen a'r cyfweiliadau dilynol cyntaf. Dim ond newydd ailagor yn llawn a dechrau gweithredu eto oedd rhai ohonynt ar adeg y cyfweiliad. O ganlyniad, roedd rhai ohonynt wedi anghofio'r wybodaeth a roddwyd ar adeg cyflwyno'r polisi, a/neu nid oedd ar flaenau eu meddyliau wrth iddynt gael trafferth i ailsefydlu eu busnesau.
- 6.4 Dywedodd manwerthwyr allfasnach a manwerthwyr mewnfasnach bod yr argyfwng costau byw mwy diweddar a chwyddiant uchel wedi effeithio ar y canfyddiad o brisiau'r cynhyrchion a werthwyd ganddynt yn fwy na'r Isafbris am Alcohol. O ganlyniad, taflwyd cysgod dros y newidiadau a ddaeth yn sgil yr Isafbris am Alcohol gan gynydd prisiau cyffredinol a mwy o faint oherwydd y rhyfel yn Wcráin, cost uwch tanwydd a dosbarthu cynhyrchion, a chyfraddau chwyddiant uwch. Credai manwerthwyr bod hyn wedi gwneud y prisiau yn sgil yr Isafbris am Alcohol yn llai amlwg, ac yn haws eu rheoli ymysg eu cwsmeriaid nag y byddent wedi bod fel arall. Felly mae angen ystyried safbwyntiau'r manwerthwyr am y polisi yn y cyd-destun hwn.

Effeithiau ar brisiau alcohol

- 6.5 Fodd bynnag, mae angen ystyried canfyddiadau manwerthwyr am y polisi hefyd yng nghyd-destun y ffaith nad oedd hanner cymaint o gynhyrchion wedi gweld cynnydd yn eu prisiau oherwydd yr Isafbris Uned nag y disgwyliwyd. Dywedodd y manwerthwyr ar y llinell sylfaen a feddyliodd y byddai'r holl brisiau yn codi llawer nad oedd y disgwyliadau hynny wedi'u gwireddu:

‘O’n i’n meddwl, o’r Mawredd! Bydd yr holl brisiau’n mynd trwy’r to, mae’n mynd i ddinistrio ein gwerthiannau, mae gyda ni siopau yn llythrennol pum munud lawr y ffordd, mae’n mynd i fod yn hunllef! Ond nid felly mae hi wedi bod o gwbl’ (Siop gyfleustra, cadwyn, allfasnach).

Yn lle hynny, gwelodd manwerthwyr fod prisiau’n codi ar rai fathau o gynhyrchion yn unig.

6.6 **Lle cododd prisiau oherwydd yr Isafbris am Alcohol**, cafodd ei drafod gan fwyaf mewn perthynas â photeli dau neu dri litr o seidr cryf, rhad, gwinoedd rhatach a rhai gwirodydd a weinir mewn bariau a bwytai (e.e. fodca). Disgrifiwyd y broses o gyflwyno’r polisi felly fel un ‘hawdd’ neu ‘syml’, neu heb fod â llawer o effeithiau ar fusnesau.

6.7 Roedd dau reswm pam **na chododd prisiau oherwydd y polisi**. Yn gyntaf, roedd yr holl gynhyrchion a werthent yn ôl y cyfaint alcohol eisoes yn yr ystod a ganiateir. Mewn rhai achosion, roedd tafarndai’n stocio amrywiaeth gyfyngedig o ddioddydd, nad oedd yr Isafbris am Alcohol yn effeithio arnynt. Mewn achosion eraill, cododd prisiau ychydig or cynhyrchion, ond arhosodd y mwyafrif helaeth yr un peth. Yn ail, roedd y cyd-destun lle gwerthwyd yr alcohol, megis bwyty, gwesty neu dafarndai a werthai fwyd ac a groesawai deuluoedd, yn tueddu i fod ag ychwanegiad uwch i’r pris na manwerthwyr eraill, felly roedd y pris cyfredol yn llyncu’r codiad prisiau. Er enghraifft, dywedodd perchennog bwyty ei fod wedi sylwi ar gynnydd ym mhris diod o fodca, ond roedd yr ychwanegiad mawr oedd ganddynt ar brisiau diodydd yn golygu bod y cynnydd yn cael ei lyncu ym mhrisiau’r manwerthwyr heb unrhyw anhawster.

Effeithiau ar werthiannau alcohol rhatach a chryfach

Awgrymodd y cyfweiliadau – a’r rhai gyda manwerthwyr allfasnach gan fwyaf – fod y polisi Isafbris am Alcohol yn cael yr effaith ddymunol drwy leihau faint o alcohol rhatach a chryfach a werthwyd gan fanwerthwyr ac a brynwyd gan gwsmeriaid. Rhoddwyd llawer o sylw i’r newidiadau i brisiau poteli dau neu dri litr o seidr rhad a chryf yn adroddiadau manwerthwyr allfasnach. Fel y dywedodd rheolwr siop gyfleustra leol:

‘Aeth ychydig o bethau i fyny’n uchel iawn. O’r blaen, roedden ni’n gwerthu potel tri-litr o seidr, ac o’r blaen, byddai lawr i jyst o dan £5, rhywbeth fel ’na, ac aeth i fyny i £12. Felly dwi’n meddwl bod y bobl oedd yn prynu hwnna wedi sylwi ar hynny. Wnaethon nhw jyst prynu rhywbeth arall, rhywbeth oedd yn rhatach’.

(Siop gyfleustra, cadwyn, allfasnach).

Ategwyd y patrwm hwn hefyd gan y dadansoddiad meintiol a drafodir ym mhennod 7.

- 6.8 Mewn rhai achosion, dywedodd manwerthwyr bod y cynhyrchion rhatach a chryfach hyn wedi dechrau **gwerthu llawer yn arafach**. Roedd eraill, mewn cyferbyniad, **wedi rhoi’r gorau i stocio cynhyrchion tebyg yn gyfan gwbl**, gan werthu cynhyrchion alcoholig â chyfaint alcohol is, neu gynhyrchion ansawdd gwell am bris uwch. Ystyriwyd bod yr ail o’r rhain yn cynnig gwell gwerth am arian i’r cwsmer.
- 6.9 Cafwyd llai o dystiolaeth o effaith yr Isafbris am Alcohol ar brisiau i fanwerthwyr mewnfasnach, gan mai dim ond newydd ailagor eu busnesau oedd llawer ohonynt ar adeg y cyfweiliad. Golyga hyn y bydd cynnwys eu safbwyntiau yn bwysicach fyth yng nghanol olaf casglu data’r flwyddyn nesaf.

Creu ‘cae chwarae’ gwastad

- 6.10 Thema amlwg arall a gododd o’r cyfweiliadau oedd bod rhai o’r manwerthwyr mewnfasnach yn dweud bod y polisi Isafbris am Alcohol wedi creu ‘cae chwarae mwy gwastad’ o ran prisiau iddyn nhw, o gymharu â manwerthwyr allfasnach (fel y trafodir ym mhennod 4). Roeddent felly yn croesawu’r hyn a ystyrient yn sefyllfa fwy cyfartal â’r manwerthwyr allfasnach wrth iddynt geisio adennill eu busnes.
- 6.11 Fodd bynnag, cwestiynai rhai o’r manwerthwyr allfasnach a oedd tafarndai, bariau a chlybiau yn elwa o’r polisi oherwydd eu bod yn gallu gwerthu cymaint o alcohol ag y dymument i unigolyn. Teimlai rhai y byddai’r tebygrwydd o dafarn, bar neu glwb yn cael hysbysiad cosb benodedig, neu’n mynd i’r llys am weini diod i rywun meddw iawn, yn is o lawer nag y byddai petai siop yn gwerthu alcohol am lai na’r isafbris uned. Er enghraifft, roedd un rheolwr siop garej yn cwestiynu a ddylid cyfyngu ar nifer y diodydd y gellir eu gweini i berson mewn tafarn mewn diwrnod:

‘Efallai os ewch chi i dafarn a phrynu chwe pheint, chewch chi ddim prynu mwy’ (Garej, cadwyn, allfasnach).

I’r graddau hyn, ystyriwyd bod cae chwarae gwastad yn ymwneud â chyfaint yr alcohol fesul uned, a faint o alcohol mae person yn ei yfed.

Effeithiau negyddol canfyddedig ar fanwerthwyr

- 6.12 Ystyriwyd bod yr Isafbris am Alcohol wedi cael effeithiau negyddol cyfyngedig ar fanwerthwyr. Nododd y manwerthwyr dair effaith negyddol a gafodd yr isafbris uned arnynt.

- 6.13 **Gwastraffu cynnyrch** – gwastraffu cynnyrch oedd yr effaith negyddol fwyaf amlwg o bell ffordd yn adroddiadau’r manwerthwyr. Adlewyrchwyd hyn yn safbwynt rheolwr siop oedd yn rhan o fasnachfaint gadwyn, a ddywedodd:

‘Os oedd rhywbeth ar fin cyrraedd ei ddyddiad ‘ar ei orau cyn’, bydden ni wedi rhoi gostyngiad mawr ar y pris, a dydyn ni ddim yn gallu gwneud hynny nawr felly rydyn ni’n cael mwy o wastraff nag yr oedden ni’n arfer gwneud, dwedwn i’ (Siop gyfleustra mewn pentref, cadwyn, allfasnach).

Fodd bynnag, hyd yn oed ymysg y manwerthwyr a gododd y mater hwn, ni ystyriwyd iddo gael effaith arwyddocaol ar eu helw. Er enghraifft, roedd rheolwr siop arall oedd yn rhan o gadwyn fasnachfaint yn amcangyfrif iddynt golli oddeutu £2,000 y flwyddyn o ganlyniad i wastraff o’r fath. Dim ond rhan o’r swm hwn oedd y gwastraff a briodolwyd i’r isafbris am alcohol.

- 6.14 **Hyrwyddiadau a disgowntiau DU-gyfan** – dywedodd y manwerthwyr bod yr Isafbris am Alcohol yng Nghymru wedi credu anawsterau o ran dosbarthu a gwerthiannau yn y DU-gyfan mewn tair ffordd. Roedd y cyntaf yn y ffordd yr oedd cynhyrchion a ddosbarthwyd i’w gwerthu ledled y DU gan Loegr, neu a gyflenwyd o Loegr, yn golygu bod rhaid nodi, gwirio ac weithiau ail-brisio’r disgowntiau oedd wedi’u hargraffu arnynt. Enghraifft dda o hyn oedd gweithiwr mewn siop oedd yn rhan o gadwyn o siopau, a ddywedodd:

‘Rydyn ni bob amser yn ymwybodol os daw rhywbeth i mewn a rydyn ni’n gweld y pris, ei fod wedi ei ostwng. Dwi yn bendant, ac mae cwpl o fy nghydweithwyr hefyd. Bron â bod, mae’n gorfod cael ei ail-wirio i sicrhau ei fod yn bodloni’r

rheoliadau, achos yn amlwg gallai fod yn un cyffredinol o [enw cadwyn o siopau] ac mae wedi llwyddo i ddod trwy'r system' (Siop garej, cadwyn, allfasnach).

- 6.15 Yr ail ffordd roedd yr Isafbris am Alcohol wedi effeithio ar brosesau dosbarthu DU-gyfan oedd y credai rhai o'r manwerthwyr bod rhaid iddynt **newid eu cyflenwyr o Loegr i Gymru**. Roedd hyn er mwyn dod o hyd yn haws i gynhyrchion a fyddai'n cydymffurfio ag Isafbris am Alcohol Cymru. Er enghraifft, dywedodd un rheolwr siop fod ei siop yn arfer cael cyflenwadau ar gyfer rhai cynhyrchion o Henffordd yn Lloegr, ond ei fod wedi dechrau cael mwy o gyflenwadau o Wrecsam yng Nghymru. Fodd bynnag, nododd ei fod yn dal i gael gwinoedd o Amwythig yn Lloegr, felly nid oedd yn sicr bod y newid hwn yn ganlyniad uniongyrchol i'r Isafbris am Alcohol yng Nghymru. Dywedodd rhai o'r cadwyni manwerthu DU-gyfan y byddent yn croesawu mwy o gysondeb o ran polisi ar isafbris am alcohol ar draws holl wledydd y DU.
- 6.16 Roedd y drydedd ffordd yn ymwneud â gwesty oedd yn rhan o **gadwyn â'i phencadlys yn Lloegr**, lle dywedodd y rheolwr nad oedd wedi cael gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru ynghylch cyflwyno'r polisi Isafbris am Alcohol. Priodolodd y rheolwr hyn i'r ffaith fod pencadlys y gadwyn yn Lloegr, ac felly efallai nad oedd y wybodaeth ynghylch y polisi wedi cael ei hanfon i gyfeiriad y pencadlys. Golygai hyn hefyd efallai nad oedd gwybodaeth wedi cyrraedd y staff cywir oedd yn gyfrifol am osod prisiau ac am hyfforddi staff.

Effeithiau ar werthiannau yn agos i'r ffin â Lloegr

- 6.17 Ni ddywedodd un o'r manwerthwyr y cyfwelwyd â nhw eu bod wedi mynd yn benodol i Loegr er mwyn manteisio ar y prisiau isafbris uned rhatach yno. Roeddent yn amau y byddai rhai o'u cwsmeriaid yn gwneud hynny petaent yn byw yn agos i'r ffin, neu y byddai'r arfer hon yn cynyddu wrth i gyfyngiadau symud Covid-19 lacio ac roedd pobl yn dechrau mynd allan i gymdeithasu a theithio unwaith eto. Er enghraifft, roedd un manwerthwr yn rhagweld y byddai'n arfer tebyg i'r un o deithio i Ffrainc i brynu llawer o gynhyrchion am brisiau is ('booze cruise').
- 6.18 Gallai hyn godi'r broblem o farchnad ddu neu weithgarwch troseddol wrth gyflenwi a gwerthu alcohol yn y dyfodol, yn enwedig gan nad oes rheolaethau tollau o fewn y DU. Hyd yn hyn fodd bynnag, nid oedd manwerthwyr wedi sylwi ar hyn yn digwydd. Mae'n bosibl y bydd unrhyw arbedion a wneir o deithio i Loegr i brynu alcohol

rhatach a chryfach yn cael eu llyncu gan y cynnydd ym mhrisiau tanwydd a chostau teithio oherwydd chwyddiant.

Effeithiau ar gwsmeriaid

- 6.19 Trafododd manwerthwyr hefyd y lefel ganfyddedig o effeithiau a gafodd yr Isafbris am Alcohol ar eu cwsmeriaid. Roedd rhai o'r farn nad oedd y cwsmeriaid yn ymwybodol o'r newidiadau i'r prisiau oherwydd y polisi am eu bod mor gyfyngedig (yn nhermau nifer y cynhyrchion yr effeithiwyd arnynt, a'r codiad pris ei hun ar gyfer y mwyafrif helaeth o'r cynhyrchion). Dywedodd eraill nad oedd yr effeithiau ar eu cwsmeriaid yn fwy na "grwgnach" am godi prisiau, oedd yn digwydd bob amser mewn perthynas â chynnydd mewn prisiau yn gyffredinol.
- 6.20 Lle roedd manwerthwyr yn esbonio bod y cynnydd mewn prisiau wedi'i achosi gan fwyaf oherwydd yr Isafbris am Alcohol yng Nghymru, dywedasant fod y cwsmeriaid fel arfer yn derbyn y polisi pan esboniwyd ei ddiben iddynt. Mewn rhai achosion, roedd manwerthwyr yn tynnu sylw'r cwsmeriaid at y posterï pwynt gwerthu a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru neu sefydliadau masnach, oedd yn esbonio'r polisi. Fodd bynnag, fel sy'n wir gydag effeithiau'r polisi'n fwy cyffredinol, credir i'r cynnydd mewn prisiau oherwydd yr argyfwng costau byw a chwyddiant yn yr economi ehangach daflu cysgod dros y cynnydd a achoswyd gan yr Isafbris am Alcohol. Nid y cynnydd mewn prisiau yn sgil yr Isafbris Uned yng Nghymru oedd ar flaenau meddyliau eu cwsmeriaid felly.
- 6.21 Argymhellodd nifer o fanwerthwyr y dylai Llywodraeth Cymru anfon gwybodaeth a phosterï pwynt gwerthu at fanwerthwyr i ail-ategu'r polisi o dro i dro (e.e. bob dwy neu dair blynedd), ac i helpu i gynnal cefnogaeth y cyhoedd iddo. Credent y byddai unrhyw dystiolaeth a ddangosai fod y polisi'n cael effaith gadarnhaol hefyd yn ddefnyddiol i'r perwyl hwn.

Effeithiau ar yfed problemus

- 6.22 Credai'r manwerthwyr nad oedd yr effeithiau ar yfwyr problemus, o gymharu, yn glir eto. Er bod rhai wedi sylwi bod y rhai a brynai alcohol cryf a rhad yn rheolaidd wedi newid i brynu cynhyrchion eraill o fewn yr ystod prisiau a ganiatawyd gan y polisi, credai eraill fod y cwsmeriaid hyn wedi diflannu. Mynegwyd rhywfaint o bryder y

byddai yfwyr problemus yn defnyddio cyffuriau eraill yn lle alcohol, yn enwedig pethau amgen rhad megis “sbeis”:

‘Yr hyn dwi wedi’i sylweddoli am y rhai sy’n gaeth i alcohol a chyffuriau, dydyn nhw jyst ddim yn trafferthu gydag alcohol dim mwy. Maen nhw jyst yn prynu mwy o gyffuriau am eu bod nhw’n rhatach. Felly ydyn ni’n eu helpu nhw, neu ydyn ni’n eu gwneud nhw’n waeth?’ (Rheolwr archfarchnad, cadwyn, allfasnach).

- 6.23 Fodd bynnag, credai eraill y byddai yfwyr problemus yn blaenoriaethu prynu’r alcohol cryfach dros gostau eraill megis bwyd. Dyma’r safbwynt a brofwyd gan yr ymchwil diweddar ar effaith [isafbris uned alcohol yn yr Alban](#).
- 6.24 Safbwynt arall a fynegwyd gan fanwerthwr allfasnach oedd na fyddai’r polisi’n effeithiol ar gyfer yfwyr problemus oni bai bod ganddynt fynediad gwell i gymorth, a gwasanaeth cyfeirio at wasanaethau caethiwed.


7. Dadansoddiad o ddata gwerthiannau a phryniannau defnyddwyr

Cyflwyniad

- 7.1 Mae'r bennod hon yn rhoi dadansoddiad o ddata gwerthiannau a phryniannau alcohol. Daw'r data o ddwy ffynhonnell: (1) data pwynt gwerthu oddi wrth fanwerthwyr llai o faint ar draws Cymru a Lloegr a (2) panel mawr o siopwyr yn cofnodi eu pryniannau mewn archfarchnadoedd mawr a manwerthwyr llai o faint. Asesodd y dadansoddiadau a oedd cyflwyno Isafbris Uned (MUP), £0.50 fesul uned (8 g) o ethanol, yn gysylltiedig â (i) newid yn y refeniw a thrafodion cysylltiedig ag alcohol ar gyfer manwerthwyr bach neu (ii) newid yn ymddygiad prynu cwsmeriaid (ar gyfer manwerthwyr bach a mawr). Hefyd, cynhaliwyd nifer o ddadansoddiadau is-grŵp er mwyn asesu a oedd (iii) yr Isafbris Uned wedi cael effaith wahanredol ar fanwerthwyr bach a leolwyd yn agos i'r ffin â Lloegr, oherwydd eu hagosrwydd at opsiynau rhatach mewn siopau cyfagos yn Lloegr, a (iv) a oedd yr Isafbris Uned wedi dylanwadu ar ddewis diod alcoholig y cwsmeriaid.
- 7.2 Hyd yn oed ar ôl rhywfaint o ostyngiad a ragamcanwyd mewn pryniannau alcohol, rhagwelwyd y byddai Isafbris am Alcohol yn cynyddu refeniw manwerthwyr oherwydd y prisiau uwch a dalwyd gan gwsmeriaid am yr un diodydd (Angus et al., 2018). Dyma gam cyntaf yr effaith mewn unrhyw ddamcaniaeth o newid yn gysylltiedig ag Isafbris am Alcohol ac mae'n gwestiwn o gydymffurfiaeth manwerthwyr a aseswyd gennym yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, nid oedd dylanwad y codiad prisiau ar bryniannau cwsmeriaid yn sgil gweithredu'r Isafbris am Alcohol mor eglur gan fod cwsmeriaid yn gallu ymateb i godiadau prisiau mewn llawer o ffyrdd, a rhai ohonynt yn fwy ac yn llai cadarnhaol o safbwynt iechyd y cyhoedd. Yn ddelfrydol, mae cwsmeriaid yn ymateb i gynnydd mewn prisiau drwy brynu llai o alcohol, ond mae hefyd yn bosibl y byddai cwsmeriaid yn derbyn y prisiau uwch ac felly'n parhau i brynu ar yr un lefel, gan wneud y polisi'n aneffeithiol. Hefyd, mae'n bosibl y byddai'r Isafbris am Alcohol yn achosi canlyniadau anfwriadol, megis cwsmeriaid yn dechrau prynu diodydd alcoholig sy'n cynnig gwell gwerth am arian iddynt, gan gynnal neu hyd yn oed cynyddu cyfaint yr alcohol a brynant. Mae'n bwysig nodi nad yw'r adroddiad hwn yn cynnwys data am newid

arferion prynu nac am gam olaf y gadwyn achosol. Hynny yw, nid yw'r setiau data sydd ar gael yn mesur faint o alcohol a yfwyd mewn gwirionedd.

Ffigur 7.1. Damcaniaeth newid dangosol ar gyfer yr ymyrraeth Isafbris am Alcohol



7.3 Rhoddwyd y polisi Isafbris am Alcohol ar waith yng Nghymru (1 Mawrth 2020) wrth i gyfradd y derbyniadau i ysbytai y gellid eu priodoli i'r pandemig SARS-CoV-2 godi'n gyflym. Hyd at fis Mawrth 2020, y cyngor i'r boblogaeth gyffredinol oedd i leihau cyswllt cymdeithasol. Cyflwynwyd offerynnau statudol ar 26 Mawrth 2020 a orfododd fanwerthwyr nad ydynt yn hanfodol i gau ac a gyfyngodd ar ryddid symudiadau. Er mwyn dileu amwysedd y cysylltiad rhwng yr Isafbris am Alcohol a gwerthiannau manwerthu alcohol o ddylanwad mesurau lliniaru'r pandemig, cymharwyd gwerthiannau alcohol yng Nghymru â'r gwerthiannau yn Lloegr. Yn 2020, roedd mesurau lliniaru'r pandemig yng Nghymru a Lloegr yn debyg yn fras, ond ni weithredwyd polisïau pris alcohol yn Lloegr ar yr adeg hon.

Cwestiynau Ymchwil

7.4 Llywiwyd y dadansoddiadau gan y ddau gwestiwn trosfwaol a nodwyd yn yr adroddiad llinell sylfaen (Bartasevicius et al., 2020) sef:

- Beth yw effeithiau ac effaith economaidd yr isafbris am alcohol ar fanwerthwyr yng Nghymru?
- Pa rôl y mae gwerthiannau trawsffiniol yn ei chwarae o ran esbonio'r effaith hon? A oes newidiadau yn ymddygiad gwerthiannau trawsffiniol ers i'r isafbris am alcohol gael ei roi ar waith ac, yn benodol, sut mae hyn yn effeithio ar fanwerthwyr yng Nghymru ger y ffin?

Nododd yr adroddiad llinell sylfaen hefyd y byddem yn archwilio a oedd yr effeithiau'n amrywio yn ôl y 'math' o fanwerthwr. Fodd bynnag, nid oedd yn bosibl cynnal y dadansoddiadau hyn gan nad oedd y data oedd ar gael yn rhoi categorïau ystyrlon ar ei gyfer. Gweler Atodiad C am fwy o fanylion.

- 7.5 Defnyddiwyd dadansoddiadau Cyfres Amser Fylchog Reoledig (CITS) i brofi'r cysylltiad rhwng cyflwyno'r Isafbris am Alcohol a gwerthiannau manwerthu alcohol gan ddefnyddio dwy set ddata: Data Marchnad Siopau Cyfleustra'r Bartneriaeth Data Manwerthu (TRDP) a phanel Nwyddau sy'n Gwerthu'n Gyflym (FMCG) Kantar⁴. Defnyddiwyd y cwestiynau ymchwil trosfwaol i ddatblygu pedwar cwestiwn ymchwil penodol sy'n alinio â'r setiau data sydd ar gael a'r newidynnau sydd ynddynt. Y cwestiynau ymchwil oedd:
1. A yw'r Isafbris Uned yn gysylltiedig â newid mewn gwerthiannau manwerthu alcohol yng Nghymru, o gymharu â Lloegr? Yn benodol, a yw trosiant (h.y. refeniw) manwerthwyr bach allfasnach yng Nghymru wedi cynyddu o gymharu â Lloegr?
 2. Pa effaith mae rhoi'r polisi Isafbris am Alcohol ar waith yn ei chael ar werthiannau alcohol mewn siopau llai o faint ar y ffin yng Nghymru? Er enghraifft, a yw refeniw gwerthiannau alcohol o siopau llai o faint ar y ffin yng Nghymru yn gweld llai o gynnydd oherwydd eu hagosrwydd i Loegr, lle mae prisiau'n debygol o fod yn is?
 3. Beth yw effaith yr Isafbris am Alcohol ar bryniannau cwsmeriaid yng Nghymru? Yn benodol, a yw cyfanswm y cyfaint o ddiodydd alcoholig a brynwyd gan aelwydydd yng Nghymru wedi gostwng o gymharu ag aelwydydd yn Lloegr? Mae dadansoddiadau ychwanegol yn asesu a yw gwariant yr aelwydydd ar alcohol wedi cynyddu ac a yw'r pris a delir am ddiodydd alcoholig wedi codi ers cyflwyno'r Isafbris am Alcohol.

⁴ Er mwyn ateb cwestiynau ymchwil 1 a 2, defnyddiasom Ddata Marchnad Cyfleustra data gwerthiannau manwerthwyr y Bartneriaeth Data Manwerthu (TRDP) sy'n cynnwys siopa cyfleustra llai o faint ac yn eithrio archfarchnadoedd. Er mwyn ateb cwestiynau ymchwil 3 a 4, defnyddiasom ddata pryniannau defnyddwyr oddi wrth Ddata Pryniannau Panel Nwyddau sy'n Gwerthu'n Gyflym (FMCG) Kantar, sy'n cynnwys archfarchnadoedd, siopau annibynnol, symbol a bargeinion.

4. A yw effaith yr Isafbris am Alcohol ar brynu yn amrywio yn ôl y math o ddiod yng Nghymru o gymharu â Lloegr?

- 7.6 Os yw'n effeithiol, dylai effaith yr Isafbris am Alcohol yng Nghymru leihau'r defnydd o ddiodydd alcoholig rhad a chryf o gymharu â Lloegr. Felly, ar gyfer cwestiynau ymchwil 1 a 3, y dangosyddion o effeithiolrwydd yr Isafbris am Alcohol fyddai llai o gyfeintiau alcohol yn cael eu gwerthu a llai o ddiodydd alcoholig yn cael eu prynu. Dylech nodi nad yw'r setiau data sydd ar gael yn canfod gwerthiannau a phryniannau diodydd sy'n rhad a chryf, felly dim ond ar lefel gyffredinol iawn y gellir gwneud honiadau. Fel y disgrifiwyd uchod, disgwyliwyd i'r manwerthwyr gael mwy o refeniw gwerthiannau ar ôl rhoi'r polisi Isafbris am Alcohol ar waith, ac efallai nad prynu llai (o ran cyfaint) oedd yr ymateb syml gan unigolion i hyn, ond yn hytrach newid i brynu mathau gwahanol o ddiodydd. Mae'r data sydd ar gael yn ddefnyddiol ar gyfer creu darlun cyffredinol o'r ffordd mae gwerthiannau a phryniannau wedi amrywio dros amser, ond nid ydynt yn ddigonol i'w defnyddio ar gyfer asesu'r ffordd mae'r Isafbris am Alcohol wedi dylanwadu ar ymddygiad ar lefel unigolion, megis newid i fathau newydd o ddiodydd.
- 7.7 Nodwyd pryder – gan gynnwys ymysg rhai o'r manwerthwyr y cyfwelwyd â nhw yn ystod ein gwaith ansoddol – y byddai pobl sy'n byw yn ymyl y ffin â Lloegr yn ei chroesi er mwyn manteisio ar brisiau is am alcohol, yn enwedig pan oedd yn bosibl teithio yn absenoldeb cyfyngiadau symud mewn perthynas â'r pandemig. Ymddangosai hyn yn annhebygol o gofio bod disgwyl i'r Isafbris am Alcohol gynyddu refeniw manwerthwyr. Fodd bynnag, os oedd hyn yn digwydd, byddai disgwyl i'r canfyddiadau ynghylch cwestiwn ymchwil 2 ddangos bod yr Isafbris am Alcohol yn cael effaith fwy andwyol ar werthiannau siopau ar y ffin yng Nghymru megis llai o refeniw gwerthiannau o alcohol. Mae'n bwysig nodi bod y data manwerthwyr a ddefnyddir yma wedi dod gan fanwerthwyr llai yn unig a'u bod yn eithrio archfarchnadoedd. Mae'n bosibl nad oedd unrhyw effeithiau daearyddol gwahaniaethol gan yr Isafbris am Alcohol ar fanwerthwyr llai o faint mor gryf â'r rhai a welwyd mewn archfarchnadoedd lle mae prisiau'n is yn gyffredinol ac mae cynigion arbennig ar aml-brynu yn fwy cyffredin.

- 7.8 Rhagwelwyd y gallai'r Isafbris am Alcohol fod wedi cael mwy o effaith ar ddiodydd alcoholig rhatach a chryfach, megis rhai brandiau o seidr a werthwyd yn arferol am brisiau llawer is na throthwy'r Isafbris Uned. Dangosodd gwerthusiadau o effeithiau'r Isafbris Uned ar werthiannau yn yr Alban wahaniaethau yn ôl y math o ddiod, megis gostyngiadau mawr yng ngwerthiannau seidr, cwyp llai serth yng ngwerthiannau gwirodydd, a dim newid (neu os unrhyw beth, ychydig o gynnydd) yng ngwerthiannau gwinoedd (Robinson et al, 2021). Felly, o ran cwestiwn ymchwil 4, rhagwelwyd y byddai'r effeithiau ar brisio a phrynu yn amrywio yn ôl y mathau o ddiodydd alcoholig yn yr un modd. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw ein data ond yn dadagregu yn ôl y math o ddiod, nid rhwng brandiau rhatach a drutach, felly efallai bod tuedd yn y dadansoddiad hwn os cymerir bod prisiau diodydd rhatach wedi newid mwy.

Dulliau

Dylunio

- 7.9 Dadansoddwyd mesurau canlyniadau ar werthiannau manwerthwyr bach o Ddata Marchnad Cyfleustra'r Bartneriaeth Data Manwerthu (TRDP) a data panel pryniant defnyddwyr panel Nwyddau sy'n Gwerthu'n Gyflym (FMCG) Kantar gan ddefnyddio Cyfres Amser Fylchog Reoledig (CITS).
- 7.10 Dull gwerthuso lled-arbrofol yw dadansoddiad cyfres amser fylchog lle yr arsylwir ar newidyn canlyniad dros nifer o gyfnodau amser â'r un bwlch rhyngddynt bob tro cyn ac ar ôl cyflwyno ymyrraeth (e.e. Isafbris am Alcohol) er mwyn gweld a yw'r patrwm a nodwyd ar ôl yr ymyrraeth yn wahanol i'r un a welwyd cyn yr ymyrraeth (Bernal et al., 2017; Linden, 2015). Defnyddir dyluniadau Cyfres Amser Fylchog fwyfwy er mwyn gwerthuso ymyrraethau iechyd y cyhoedd gan eu bod yn arbennig o addas ar gyfer asesu effaith ymyrraethau a gyflwynwyd ar lefel poblogaeth dros gyfnod o amser a ddiffiniwyd yn glir (Beard et al., 2019; Bernal et al., 2017).
- 7.11 Er mwyn asesu effaith yr Isafbris am Alcohol yng Nghymru, defnyddiwyd modelau CITS gan ddefnyddio Lloegr fel y grŵp rheolydd. Roedd Lloegr yn grŵp rheolydd priodol am fod y tueddiadau gwerthu a phrynu alcohol yn debyg i'r rhai yng

Nghymru yn y cyfnod cyn yr ymyrraeth. Roedd data Kantar⁵ ar gael ar gyfer yr Alban hefyd, ond dangosodd dadansoddiadau yn ein hadroddiad cynharach bod Lloegr yn gymhariaeth well â Chymru na'r Alban (Bartasevicius et al, 2021). Y prif reswm am hyn oedd bod gweithredu deddfwriaeth Isafbris Uned ar 1 Mai 2018 wedi effeithio ar dueddiadau prynu alcohol yn yr Alban.

- 7.12 Ystyriwyd CITS yn ddull priodol o neilltuo effaith newidynnau dryslyd megis mesurau lliniaru Covid-19 a weithredwyd ym mis Mawrth 2020, ar yr un pryd ag y rhoddwyd y polisi Isafbris am Alcohol ar waith yng Nghymru. Er nad yn union yr un peth o ran amseru a chwmpas, roedd gan Loegr fesurau lliniaru Covid-19 tebyg ac ar amser tebyg mewn perthynas â gwerthiannau alcohol, megis: cyfyngiadau symud ym mis Mawrth 2020, ailagor siopau a gwerthwyr alcohol mewnfasnach ym mis Mehefin 2020, gyda chyfyngiadau pellach wedyn yn hydref 2020. Cafodd y mesurau hyn effaith sylweddol ar yfed alcohol, gyda'r llenyddiaeth yn adrodd cysylltiad rhwng y cyfyngiadau symud a chynnydd sylweddol yn nifer yr achosion o yfed risg uchel ar draws grwpiau demograffig-gymdeithasol amrywiol, yn ogystal â chynnydd yn nifer y marwolaethau cysylltiedig ag alcohol rhwng Ebrill a Medi 2020 (Holmes & Angus, 2021; Jackson et al., 2021).

Data a mesurau

- 7.13 Defnyddiodd y dadansoddiad meintiol ddwy set ddata:
- Data gwerthiannau manwerthwyr o Ddata Marchnad Cyfleustra'r Bartneriaeth Data Manwerthu (TRDP);
 - Data pryniannau defnyddwyr o Ddata Pryniannau Panel Nwyddau sy'n Gwerthu'n Gyflym (FMCG) Kantar.
- 7.14 Rhoddodd data'r Bartneriaeth Data Manwerthu ddata gwerthiannau alcohol agregedig ar gyfer siopau mewn pedwar lleoliad gwahanol: siopau ar y ffin yn Lloegr (24-27 o siopau ar gyfer misoedd gwahanol, gan ddibynnu ar argaeledd y data), siopau ar y ffin yng Nghymru (13-14 o siopau), siopau heb fod ar y ffin yn Lloegr (2035-2239 o siopau) a siopau heb fod ar y ffin yng Nghymru (315-344 o siopau). Defnyddiwyd dalgylch o bum milltir ar ddwy ochr y ffin rhwng Cymru a

⁵ Data pryniannau defnyddwyr o Ddata Pryniannau Panel Nwyddau sy'n Gwerthu'n Gyflym Kantar.

Lloegr er mwyn gwahaniaethu rhwng siopau ar y ffin a siopau heb fod ar y ffin. Cesglir data'r Bartneriaeth Data Manwerthu trwy system pwynt gwerthu electronig (EPoS) mewn siopau cyfleustra llai o faint. Nid yw archfarchnadoedd na siopau mwy o faint wedi'u cynnwys.

- 7.15 Daeth y data Kantar oddi wrth banel defnyddwyr ac roedd yn cynnwys ffigurau agregedig am brynu alcohol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Phrydain Fawr. Mae'r sampl yn cynnwys 30,000 o aelwydydd a ddewiswyd i gynrychioli holl aelwydydd Prydain Fawr yn ôl rhanbarth a demograffeg. Ym mis Chwefror 2022, roedd y panel yn cynnwys 1,428 o aelwydydd yng Nghymru a 25,234 o aelwydydd yn Lloegr. Mae'r panel yn un sy'n adrodd yn barhaus, sy'n golygu bod y rhai sy'n ymuno â'r panel yn parhau'n rhan ohono am faint bynnag yr hoffent gymryd rhan ynddo ac ar yr amod eu bod yn bodloni'r gofynion o ran cydymffurfio â bod ar banel Kantar. Nid oes llawer o drosiant ar y panel, gyda mwy na 70% ohono yn cymryd rhan am fwy na thair blynedd.
- 7.16 Mae'r panel yn cofnodi gwybodaeth am bryniannau bwyd a diod allfasnach drwy gasglu data ar nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol gan gynnwys cyfanswm y gwariant ar gategori penodol mewn cyfnod penodol a'r maint cyfartalog (wedi'i fesur yn nhermau gwario a chyfaint) o gategori a brynwyd fesul aelwyd mewn cyfnod penodol. Mae'r panel yn cyflwyno data pryniannau wedi'u hagregu dros nifer o fanwerthwyr allfasnach (Tesco, Asda, Sainsbury's, Morrisons, The Co-operative, Waitrose, Aldi, Lidl, Marks & Spencer ac Eraill sy'n cynnwys siopau annibynnol, symbol a bargeinion) ac ar draws newidynnau demograffig amrywiol (maint yr aelwyd, presenoldeb plant ac oedran y prif siopwr).
- 7.17 Roedd data'r Bartneriaeth Data Manwerthu'n cynrychioli cyfres amser fisol o fis Mawrth 2019 i fis Chwefror 2022, a chafodd y data Kantar eu hagregu'n flociau amser 4-wythnos am y cyfnod rhwng mis Mawrth 2015 a mis Chwefror 2022.
- 7.18 Mae Tabl 7.1 yn dangos y canlyniadau o ddiddordeb a gafodd eu cynnwys yn y data Partneriaeth Data Manwerthu ar gyfer gwerthiannau siopau bach:

Tabl 7.1 Canlyniadau o ddiddordeb o'r data gwerthiannau siopau bach**Data Marchnad Cyfleustra y Bartneriaeth Data Manwerthu**

Cyfnod	Data misol o fis Medi 2019 i fis Chwefror 2022
Dangosydd Canlyniad Cynradd	
Trosiant Alcohol Cyfartalog Siop	Gwerthiannau alcohol cyfartalog (£), yn ôl mis
Dangosyddion Canlyniad Eilaidd	
Alcohol fel % o'r Trosiant	Canran yr holl werthiannau sy'n deillio o alcohol (%), yn ôl mis
Nifer gyfartalog o Brynwyr Alcohol yn y Siop	Nifer gyfartalog o drafodion alcohol, yn ôl mis
Alcohol fel % o'r Prynwyr	Canran yr holl drafodion gwerthiannau sy'n cynnwys rhywfaint o alcohol (%), yn ôl mis

7.19 Mae Tabl 7.2 yn adrodd ar y canlyniadau o ddiddordeb a gafodd eu cynnwys yn y dadansoddiad o'r data pryniannau defnyddwyr (Kantar):

Tabl 7.2 Canlyniadau o ddiddordeb o'r data pryniannau defnyddwyr

Data Pryniannau Panel Nwyddau sy'n Gwerthu'n Gyflym Kantar	
Cyfnod	Data o fis Medi 2019 i fis Chwefror 2022, wedi'u hagregu dros gyfnod o bedair wythnos
Dangosydd Canlyniad Cynradd	
Cyfaint (litrau) Aelwyd ar Gyfartaledd	Cyfaint cyfartalog (litrau) o alcohol a brynwyd fesul aelwyd mewn cyfnod o bedair wythnos
Dangosyddion Canlyniad Eilaidd	
Gwariant (£) cyfartalog aelwydydd	Y swm cyfartalog a wariwyd ar alcohol fesul aelwyd mewn cyfnod o bedair wythnos
Pris cyfartalog fesul litr o ddiod	Y pris cyfartalog a dalwyd am litr o ddiod alcoholig (£) mewn cyfnod o bedair wythnos

Ansawdd a chynnwys y data

- 7.20 Mae dull CITS yn gweithio orau gyda chyfres amser hir a llawer o bwyntiau data. Fel arfer, argymhellir o leiaf 50-100 o bwyntiau data ar gyfer dadansoddiadau CITS (Beard et al., 2019). Mae'r ddwy set ddata sydd ar gael yn cynnwys cyfnod cymharol fyr. Mae'r data Kantar yn cynnwys 91 o bwyntiau data, ond dim ond 31 o bwyntiau data a geir yn data'r bartneriaeth Data Manwerthu.
- 7.21 Mae cwmphas y ddwy set ddata yn gyfyngedig. Dim ond alcohol a brynwyd yn allfasnach ac yr eir ag ef i'r cartref sydd yn y data Kantar, a dim ond manwerthwyr allfasnach llai o faint sydd yn data'r Bartneriaeth Data Manwerthu - nid yw'n cynnwys archfarchnadoedd, sy'n gyfrifol am y mwyafrif o werthiannau alcohol allfasnach yn y DU (Euromonitor, 2022). Hefyd, nid y canlyniad diddordebau sydd ar gael ar gyfer y dadansoddiadau yw'r rhai mwyaf priodol o angenrheidrwydd ar gyfer asesu effaith yr Isafbris am Alcohol. Yn hanfodol, nid yw'r canlyniadau cynradd yn ystyried alcohol yn ôl cynnwys cyfaint. Caiff cyfyngiadau'r data eu

harchwilio'n fwy manwl yn yr adran ar gyfyngiadau yn yr adroddiad hwn (gweler adrannau 7.66 – 7.69).

- 7.22 Yn olaf, mae'r ddwy set ddata'n cyflwyno data wedi'u hagregu yn hytrach na data unigol, sy'n golygu bod pob pwynt amser yn cynrychioli'r cyfartaledd ar draws y sampl o fanwerthwyr neu siopwyr. Byddai data lefel unigolyn yn rhoi mwy o amrywiant a phŵer ystadegol.

Dadansoddiad

- 7.23 Mae Cyfres Amser Fylchog Reoledig (CITS) yn cynnwys grŵp (neu grwpiau) rheolydd er mwyn cryfhau'r amcangyfrifon effaith, gan y defnyddir y gymhariaeth â'r grŵp rheolydd i gyfrif am y newidynnau dryslyd a hepgorwyd. Y rhagdybiaeth allweddol yw bod newidynnau dryslyd a hepgorwyd yn cael effaith debyg ar y grŵp triniaeth a'r grŵp rheolydd fel bod y grŵp rheolydd yn rhoi sefyllfa wrthffeithiol o'r hyn a fyddai wedi digwydd petai'r grŵp triniaeth heb dderbyn yr ymyrraeth (Linden, 2015). Mae'r modelau CITS yn yr adroddiad hwn yn fodelau atchwel sgwariau lleiaf cyffredin (OLS) wedi'u haddasu ar gyfer hunangydberthynas â dadansoddiad aml-grŵp (Linden, 2015).
- 7.24 Mae'r modelau CITS yn edrych ar newidiadau yn lefel (h.y. rhyngdoriad) y canlyniad o ddiddordeb rhwng y grŵp triniaeth a'r grŵp rheolydd a'r newidiadau yng ngoledd y canlyniad rhwng y ddau grŵp. Er mwyn i'r grŵp triniaeth a'r grŵp rheolydd fod yn gytbwys, ni ddylai fod unrhyw wahaniaeth arwyddocaol o safbwynt ystadegol yn lefel a goledd canlyniad y grŵp triniaeth a chanlyniad y grŵp rheolydd cyn yr ymyrraeth. I'r gwrthwyneb, mae newidiadau arwyddocaol yn ystadegol yn lefel y canlyniad o gymharu â'r sefyllfaoedd gwrthffeithiol sy'n digwydd yn syth ar ôl cyflwyno'r ymyrraeth yn dangos effaith unionsyth gan y driniaeth, tra bo gwahaniaethau arwyddocaol yn ystadegol rhwng y grŵp triniaeth a'r grŵp rheolydd o ran goledd y newidyn canlyniad rhwng y cyfnod cyn-ymyrraeth a'r cyfnod ôl-ymyrraeth yn dangos effaith triniaeth dros amser (Linden, 2015).
- 7.25 Cynhaliwyd modelau CITS gan ganiatáu ar gyfer rhyngdoriadau ar wahân, goleddau cyn-ymyrraeth, newidiadau sylweddol ar bwynt yr ymyrraeth ym mis Mawrth 2020, a goleddau ôl-ymyrraeth. Ar gyfer pob canlyniad y, roedd y modelau cymesur ar y ffurf

$$y = \beta_1 + \gamma_1\beta_2 + \beta_3t_0 + \gamma_1\beta_4t_0 + \gamma_2\beta_5 + \gamma_1\gamma_2\beta_6 + \gamma_2\beta_7t_i + \gamma_1\gamma_2\beta_8t_i$$

- 7.26 Lle mae γ_1 yn newidyn ffug sy'n werth 1 ar gyfer Cymru a 0 ar gyfer Lloegr, mae γ_2 yn newidyn ffug sy'n werth 0 ar gyfer pwyntiau amser cyn-ymyrraeth a gwerth 1 ar gyfer pwyntiau ôl-ymyrraeth, mae t_0 yn cynrychioli nifer y pwyntiau amser ers y llinell sylfaen a t_i yw nifer y pwyntiau amser ers yr ymyrraeth. Yn y fformiwleiddiad hwn, mae'r dehongliad o'r cyfernodau beta amrywiol fel a ganlyn:

Tabl 7.3 Tabl cyfernodau ar gyfer y Gyfres Amser Fylchog Reoledig (CITS)

Cyfernod	Dehongliad
β_1	Lefel llinell sylfaen y canlyniad yn Lloegr
β_2	Y gwahaniaeth yn y lefel llinell sylfaen rhwng Cymru a Lloegr
β_3	Y duedd linol cyn-ymyrraeth (h.y. goled) yn Lloegr
β_4	Y gwahaniaeth yn y goledau cyn-ymyrraeth rhwng Cymru a Lloegr
β_5	Y newid sylweddol ar y pwynt ymyrraeth yn Lloegr
β_6	Y gwahaniaeth yn y newidiadau sylweddol ar y pwynt ymyrraeth rhwng Cymru a Lloegr
β_7	Y newid goled rhwng y cyfnodau cyn ac ôl-ymyrraeth yn Lloegr
β_8	Y gwahaniaethau yn y newid goled rhwng y cyfnodau cyn ac ôl-ymyrraeth rhwng Cymru a Lloegr

- 7.27 Felly'r cyfernodau allweddol o bwys yw β_6 , sy'n dweud wrthym ni a oedd gwahaniaeth arwyddocaol mewn unrhyw newid unionsyth i'r canlyniad rhwng Cymru a Lloegr ym mis Mawrth 2020, a β_8 , sy'n dweud wrthym ni a oedd newid arwyddocaol yn y newid goled rhwng Cymru a Lloegr ym mis Mawrth 2020. Mae cyfernodau β_2 a β_4 yn nodi gwahaniaethau o ran y lefel llinell sylfaen a'r goledau cyn-ymyrraeth rhwng Cymru a Lloegr, ac ni ddylent fod yn arwyddocaol yn ystadegol

er mwyn i'r grŵp triniaeth a'r grŵp rheolydd fod yn gytbwys ac, felly, yn gymaradwy (Linden, 2015).

- 7.28 Cynhaliwyd dadansoddiadau gan ddefnyddio meddalwedd STATA fersiwn 17 a'i orchymyn **itsa**, sy'n amcangyfrif effaith ymyrraeth ar newidyn canlyniad o'i gymharu ag un grŵp rheolydd neu nifer o grwpiau. Defnyddiwyd yr amcangyfrif Prais-Winsten er mwyn addasu ar gyfer gwallau cydberthynol cyfresol (Linden, 2015).
- 7.29 Llywiwyd y dadansoddiadau gan y cwestiynau ymchwil a nodwyd uchod. Yn benodol, y dadansoddiadau hyn oedd⁶:
- Ar gyfer cwestiwn ymchwil 1, cynhaliwyd dadansoddiad CITS yn cymharu Cymru a Lloegr ym mis Mawrth 2020 ar gyfer canlyniad cynradd gwerthiannau alcohol cyfartalog, a'r tri chanlyniad eilaidd: canran cyfanswm y gwerthiannau a ddaeth o alcohol; nifer gyfartalog y trafodion alcohol; a chanran yr holl drafodion gwerthiannau oedd yn cynnwys rhywfaint o alcohol. Cynhaliwyd dadansoddiadau sensitifrwydd er mwyn profi cadernid y dadansoddiadau hyn, gan roi ystyriaeth i effaith bosibl camau'r strategaeth liniaru Covid-19 yn 2020.
 - Er mwyn mynd i'r afael â chwestiwn ymchwil 2, cynhaliwyd modelau CITS ar y data gwerthiannau er mwyn cymharu a oedd yr Isafbris Uned wedi cael effaith wahanol ar siopau allfasnach ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr, a siopau heb fod ar y ffin.
 - Ar gyfer cwestiwn ymchwil 3, cynhaliwyd dadansoddiad CITS yn cymharu Cymru a Lloegr ym mis Mawrth 2020 ar gyfer canlyniad cynradd cyfaint (litrau) cyfartalog alcohol, yn ogystal â chanlyniadau eilaidd gwariant (£) cyfartalog ar alcohol a'r pris cyfartalog a dalwyd am litr o ddiod alcoholig (£).
 - Yn olaf, aed i'r afael â chwestiwn ymchwil 4 trwy gynnal dadansoddiad is-grŵp o'r data pryniannau er mwyn asesu a oedd effaith yr Isafbris am Alcohol ar ganlyniadau cynradd ac eilaidd yn amrywio yn ôl y categorïau gwahanol o ddiodydd alcoholig (gwin, gwirodydd, lager, cyrfau a stowt, seidr, gwin pefriog, diodydd alcoholig â chyflas, a gwin cadarn).

⁶ Gweler Atodiad C ar gyfer gwyriadau o'r ddogfen Gwerthuso'r Isafbris am Alcohol yng Nghymru – Ymchwil Llinell Sylfaen gyda Manwerthwyr a Chynllun Dadansoddi Meintiol

Dadansoddiad sensitifrwydd a dadansoddiad is-grŵp

- 7.30 Mae'r holl ddadansoddiadau'n dilyn y model a ddisgrifiwyd uchod, gydag ychydig o amrywiadau ar gyfer y dadansoddiad sensitifrwydd a'r dadansoddiad is-grŵp. Mae dadansoddiadau sensitifrwydd o ddata'r Bartneriaeth Data Manwerthu yn ychwanegu pwyntiau ymyrryd ychwanegol er mwyn cyfrif ar gyfer polisïau lliniaru Covid-19 yn ystod 2020 (a ddisgrifir yn fwy manwl yn adrannau 7.36 – 7.39). Mae'r dadansoddiadau is-grŵp sy'n defnyddio'r data Kantar yn cynnal y model CITS a ddisgrifiwyd uchod ar wahân yn ôl y math o ddiod (a ddisgrifir yn fwy manwl yn adrannau 7.54 – 7.59).

Canfyddiadau

- 7.31 Mae'r adran hon yn adrodd ar y canfyddiadau yn ôl y cwestiwn ymchwil, gyda chrynodeb o'r prif ganfyddiadau i gloi.


Cwestiwn ymchwil 1: A yw'r Isafbris Uned yn gysylltiedig â newid mewn gwerthiannau manwerthu alcohol yng Nghymru, o gymharu â Lloegr? Yn benodol, a yw trosiant (h.y. refeniw) manwerthwyr bach allfasnach yng Nghymru wedi cynyddu o gymharu â Lloegr?

Canlyniad cynradd: gwerthiannau alcohol cyfartalog

- 7.32 Dangosir patrymau gwerthiannau alcohol cyfartalog (trosiant) ar gyfer manwerthwyr bach yn ffigur 7.2. Mae gwerthiannau alcohol yng Nghymru ac yn Lloegr yn cynyddu'n ddramatig o fis Mawrth 2020, sy'n debygol o fod oherwydd mesurau lliniaru Covid-19 megis cau gwerthiannau mewnfasnach. Fodd bynnag, erbyn dechrau 2022, roedd gwerthiannau yn y ddwy wlad wedi disgyn yn raddol i lefelau ychydig bach yn uwch na'r rhai cyn y pandemig. Er gwaethaf y patrymau diddorol hyn o newid yn ystod y pandemig, mae ffigur 7.2 yn dangos nad oedd llawer o wahaniaeth rhwng y ddwy wlad ar ôl rhoi'r polisi Isafbris am Alcohol ar waith, sy'n dangos na chafodd y polisi Isafbris am Alcohol lawer o effaith ar refeniw gwerthiannau manwerthwyr bach.
- 7.33 Yn benodol, ni chafwyd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yn y gwerthiannau alcohol cyfartalog ar y llinell sylfaen rhwng Cymru a Lloegr ($\beta_2 = -763.98$, 95% CI -4659.20 i 3131.22) na'r goledau llinell sylfaen ($\beta_4 = 97.04$, 95% CI -1078.97 i 1273.06). Yn y

model hwn, ni chafwyd unrhyw effaith unionsyth arwyddocaol oherwydd y driniaeth ($\beta_6 = 1319.57$, 95% CI -3518.54 i 6157.69) nac unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yn ystadegol yn y goledau ($\beta_8 = -90.69$, 95% CI -1304.06 i 1122.67) rhwng Cymru a Lloegr ar ôl rhoi'r polisi Isafbris am Alcohol ar waith (Ffigur 7.2).

Ffigur 7.2 CITS ar gyfer gwerthiannau alcohol cyfartalog



Ffigur 7.2 – Dadansoddiad Cyfres Amser Fylchog (ITSA) ar gyfer trosiant alcohol siop cyfartalog gydag ymyriad ym mis Mawrth 2020, ar ôl rhoi'r Isafbris am Alcohol ar waith yng Nghymru, ar gyfer Cymru a Lloegr. Gwerthoedd gwirioneddol = pwyntiau data yr arsylwyd arnynt yn y set ddata. Gwerthoedd a ragwelwyd = gwerthoedd data a ragwelwyd ar sail y model ITSA.


Canlyniadau eilaidd

Canran cyfanswm y gwerthiannau sy'n deillio o alcohol

- 7.34 Ni chafwyd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yng nghanran cyfanswm y gwerthiannau o alcohol ar y llinell sylfaen rhwng Cymru a Lloegr ($\beta_2 = -0.01$, 95% CI

-0.04 i 0.01) nac yn y goledau cyn rhoi'r Isafbris am Alcohol ar waith ($\beta_4 = 0.00$, 95% CI -0.009 i 0.009). Yn y model hwn, ni chafwyd unrhyw effaith unionsyth arwyddocaol oherwydd y driniaeth ($\beta_6 = 0.02$, 95% CI -0.01 i 0.06) nac unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yn ystadegol yn y goledau ($\beta_8 = -0.00$, 95% CI -0.01 i 0.00) rhwng Cymru a Lloegr ar ôl rhoi'r polisi Isafbris am Alcohol ar waith (Ffigur 7.3).

Ffigur 7.3 CITS ar gyfer canran cyfanswm y gwerthiannau sy'n deillio o alcohol




Ffigur 7.3 – Dadansoddiad Cyfres Amser Fylchog (ITSA) ar gyfer % alcohol o'r trosiant gydag ymyriad ym mis Mawrth 2020, ar ôl rhoi'r Isafbris am Alcohol ar waith yng Nghymru, ar gyfer Cymru a Lloegr.

Nifer gyfartalog y trafodion alcohol

Ni chafwyd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yn nifer gyfartalog y trafodion alcohol ar y llinell sylfaen rhwng Cymru a Lloegr ($\beta_2 = -119.07$, 95% CI -510.04 i 271.89) na'r goledau llinell sylfaen ($\beta_4 = 9.03$, 95% CI -97.99 i 116.06). Yn y model hwn, ni chafwyd unrhyw effaith unionsyth arwyddocaol oherwydd y driniaeth ($\beta_6 = 33.46$,

95% CI -374.49 i 441.41) nac unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yn ystadegol yn y goledau ($\beta_8 = -7.36$, 95% CI -120.92 i 106.19) rhwng Cymru a Lloegr ar ôl rhoi'r polisi Isafbris am Alcohol ar waith (Ffigur 7.4).

Ffigur 7.4 CITS ar gyfer nifer gyfartalog y trafodion alcohol




Ffigur 7.4 – Dadansoddiad Cyfres Amser Fylchog (ITSA) ar gyfer nifer gyfartalog y prynwyr alcohol mewn siop gydag ymyriad ym mis Mawrth 2020, ar ôl rhoi'r Isafbris am Alcohol ar waith yng Nghymru, ar gyfer Cymru a Lloegr.

Canran yr holl drafodion gwerthiannau oedd yn cynnwys rhywfaint o alcohol

7.35 Ni chafwyd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yng nghanran yr holl drafodion gwerthiannau oedd yn cynnwys rhywfaint o alcohol ar y llinell sylfaen rhwng Cymru a Lloegr ($\beta_2 = -0.01$, 95% CI -0.04 i 0.01) na'r goledau llinell sylfaen ($\beta_4 = 0.00$, 95% CI -0.01 to 0.01). Yn y model hwn, ni chafwyd unrhyw effaith unionsyth arwyddocaol oherwydd y driniaeth ($\beta_6 = 0.01$, 95% CI -0.03 i 0.05) nac unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yn ystadegol yn y goledau ($\beta_8 = 0.00$, 95% CI -0.01 i

0.01) rhwng Cymru a Lloegr ar ôl rhoi'r polisi Isafbris am Alcohol ar waith (Ffigur 7.5).

Ffigur 7.5 CITS ar gyfer canran yr holl drafodion gwerthiannau oedd yn cynnwys rhywfaint o alcohol



Atchweliad Prais-Winsten & Cochrane-Orcutt – oediad (1)

Ffigur 7.5 – Dadansoddiad Cyfres Amser Fylchog (ITSA) ar gyfer % o brynwyr alcohol gydag ymyriad ym mis Mawrth 2020, ar ôl rhoi'r Isafbris am Alcohol ar waith yng Nghymru, ar gyfer Cymru a Lloegr.

Dadansoddiadau sensitifrwydd: Effeithiau posibl camau strategaeth lliniaru'r pandemig


7.36 Er mwyn archwilio a oedd camau gwahanol yr ymateb i'r pandemig Covid-19 a'r newidiadau cysylltiedig i'r cyfyngiadau wedi cael effaith wahaniaethol ar effeithiau'r Isafbris am Alcohol dros amser, cafodd dyddiadau allweddol canlynol y strategaeth lliniaru Covid-19 yn 2020 eu cynnwys mewn dadansoddiad sensitifrwydd:

- **Mawrth 26:** gorfodi'n gyfreithiol fesurau cyfyngiadau symud yng Nghymru a Lloegr. Caewyd yr holl siopau nad oeddent yn hanfodol, eiddo trwyddedig, bwytai a gweithgareddau hamdden eraill.

- **Mehefin 15 a 22:** ailagorwyd siopau nad oeddent yn hanfodol yn Lloegr a Chymru yn eu tro.
- **Tachwedd 5:** yn cynrychioli gorfodaeth gyfreithiol o gyfyngiadau symud cenedlaethol yn Lloegr. Gosodwyd set debyg o gyfyngiadau yng Nghymru, megis y cyfyngiadau symud am gyfnod atal byr o 23 Hydref i 9 Tachwedd.

- 7.37 Dylid disgwyl i fesurau lliniaru'r pandemig ddylanwadu ar ble a sut yr yfwyd alcohol. Y disgwyliad yw, a phopeth arall yn gyfartal, wrth i siopau manwerthu nad ydynt yn hanfodol ac eiddo trwyddedig eraill gau, bydd gwerthiannau yn y safleoedd sy'n aros ar agor yn cynyddu. Os cymerir nad oedd faint o alcohol a yfwyd wedi newid, byddai cau siopau manwerthu nad ydynt yn hanfodol ac eiddo trwyddedig yn debygol o achosi cynnydd ym maint yr alcohol a brynwyd o'r siopau manwerthu a arhosodd ar agor. Hefyd, gallai'r prynu mewn panig a'r pentyrru nwyddau a achoswyd gan y cyfyngiadau symud cyntaf yn genedlaethol fod yn ffactorau sy'n cyfrannu at esbonio'r cynnydd mewn gwerthiannau alcohol ym mis Mawrth 2020. Oherwydd ei bod yn ofynnol i bobl gyfyngu ar eu cysylltiadau cymdeithasol, efallai bod y rhai oedd yn siopa yn y siopau manwerthu a arhosodd ar agor wedi prynu alcohol i'r bobl oedd yn methu gadael eu tai, ac yn gyffredinol, gostyngodd y nifer o bobl oedd yn mynd i siopa ar ôl y cyfyngiadau symud a'r cyfarwyddiadau i deithio cyn lleied â phosibl. Gallai llai o bobl yn siopa mewn llai o siopau manwerthu esbonio pam nad oes gwahaniaeth arwyddocaol yn y trafodion.
- 7.38 Cyflwynir y dadansoddiad sensitifrwydd ar gyfer y canlyniad gwerthiannau cynradd isod, gyda nifer o bwyntiau ymyrryd wedi'u halinio â'r 3 dyddiad uchod.

Ffigur 7.6 Dadansoddiadau sensitifrwydd ar gyfer gwerthiannau alcohol cyfartalog



Ffigur 7.6 – Dadansoddiad Cyfres Amser Fylchog (ITSA) ar gyfer trosiant alcohol siopau cyfartalog gydag ymyriadau ym mis Mawrth 2020, mis Mehefin 2020 a mis Tachwedd 2020

7.39 Yn weledol, ymddengys i'r model 4-cam hwn gydweddu'n well â'r data, er efallai nad yw hyn yn syndod o gofio'r nifer gyfyngedig o bwyntiau data, ac mae'n bwysig gochel rhag gor-gymhwyso'r model. Er bod nifer o'r newidiadau goled a cham rhwng camau lliniaru'r pandemig yn arwyddocaol yn Lloegr, ni chafwyd unrhyw effeithiau unionsyth arwyddocaol yn ystadegol oherwydd y driniaeth nac effeithiau oherwydd y driniaeth dros amser yng Nghymru o gymharu â Lloegr ym misoedd Mawrth, Mehefin a Tachwedd 2020, ar gyfer gwerthiannau alcohol cyfartalog (dangosir y cyfernodau yn nhabl E.1 yn Atodiad E). Felly, ymddengys i gamau lliniaru'r pandemig gael effeithiau tebyg yn y ddwy wlad.

Cwestiwn ymchwil 2: Pa effaith mae rhoi'r polisi Isafbris am Alcohol ar waith yn ei chael ar werthiannau alcohol mewn siopau ar y ffin yng Nghymru? Er enghraifft, a yw refeniw gwerthiannau alcohol o siopau llai o faint ar y ffin yng Nghymru yn gweld


llai o gynnydd oherwydd eu hagosrwydd i Lloegr, lle mae prisiau'n debygol o fod yn is?

Canlyniad cynradd: gwerthiannau alcohol cyfartalog

Siopau ar y ffin

- 7.40 Nid oedd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yn y gwerthiannau alcohol cyfartalog ar y llinell sylfaen ($\beta_2 = -1129.05$, 95% CI -5097.09 i 2838.9) na'r goledau llinell sylfaen ($\beta_4 = 158.60$, 95% CI -973.55 i 1290.76) rhwng siopau ar y ffin yng Nghymru a Lloegr. Yn y model hwn, ni chafwyd unrhyw effaith unionsyth arwyddocaol oherwydd y driniaeth ($\beta_6 = -1570.68$, 95% CI -6049.60 i 2908.23) nac unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yn ystadegol yn y goledau ($\beta_8 = -103.68$, 95% CI -1290.39 i 1083.02) rhwng siopau ar y ffin yng Cymru a Lloegr ar ôl rhoi'r polisi Isafbris am Alcohol ar waith (Ffigur 7.7).

Ffigur 7.7 CITS ar gyfer gwerthiannau alcohol cyfartalog mewn siopau ar y ffin




Ffigur 7.7 – Dadansoddiad Cyfres Amser Fylchog (ITSA) ar gyfer trosiant alcohol cyfartalog siop gydag ymyriad ym mis Mawrth 2020, ar ôl rhoi'r Isafbris am Alcohol ar waith yng Nghymru, ar gyfer siopau ar y ffin yng Nghymru a Lloegr.

Siopau heb fod ar y ffin

7.41 Nid oedd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yn y gwerthiannau alcohol cyfartalog ar y llinell sylfaen ($\beta_2 = -765.59$, 95% CI -4676.55 i 3145.35) na'r goledau llinell sylfaen ($\beta_4 = 97.73$, 95% CI -1085.68 i 1281.16) rhwng siopau heb fod ar y ffin yng Nghymru a Lloegr. Yn y model hwn, ni chafwyd unrhyw effaith unionsyth arwyddocaol oherwydd y driniaeth ($\beta_6 = 1448.27$, 95% CI -3426.46 i 6323.01) nac unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yn ystadegol yn y goledau ($\beta_8 = -94.47$, 95% CI -1314.75 i 1125.80) rhwng siopau heb fod ar y ffin yng Cymru a Lloegr ar ôl rhoi'r polisi Isafbris am Alcohol ar waith (Ffigur 7.8).

Ffigur 7.8 CITS ar gyfer gwerthiannau alcohol cyfartalog mewn siopau heb fod ar y ffin



Ffigur 7.8 – Dadansoddiad Cyfres Amser Fylchog (ITSA) ar gyfer trosiant alcohol siop cyfartalog gydag ymyriad ym mis Mawrth 2020, ar ôl rhoi'r Isafbris am Alcohol ar waith yng Nghymru, ar gyfer siopau heb fod ar y ffin yng Nghymru a Lloegr.

7.42 Mae canlyniadau'r dadansoddiad cynradd ar gyfer siopau ar y ffin yn unig yn debyg yn fras i'r rhai ar gyfer siopau heb fod ar y ffin. Fodd bynnag, ceir rhai

gwahaniaethau main iawn, yn bennaf y ffaith bod y cyfernod β_6 , sy'n cynrychioli'r gwahaniaeth yn y newid cam ym mis Mawrth 2020, yn negyddol i'r manwerthwyr ar y ffin (-1507.7, 95% CI -6049.6 i 2908.2) ond yn gadarnhaol (ac o faint tebyg) yn y dadansoddiad heb fod ar y ffin. Gallai hyn awgrymu, er bod siopau heb fod ar y ffin yng Nghymru wedi gweld cynnydd mwy o faint yng nghyfanswm y trosiant alcohol na'r siopau heb fod ar y ffin yn Lloegr ar ôl cyflwyno'r polisi Isafbris am Alcohol, gwelodd siopau ger y ffin yng Nghymru gynnydd *llai o faint* na'r rhai dros y ffin yn Lloegr. Byddai hyn yn gyson â'r posibilrwydd bod rhai siopwyr ger y ffin wedi symud eu pryniannau alcohol o siopau yng Nghymru i siopau yn Lloegr, ond mae'r ffaith nad yw'r ddau gyfernod hyn yn arwyddocaol yn ystadegol yn golygu bod posibilrwydd sylweddol bod y canfyddiad hwn wedi digwydd ar hap.


Canlyniadau eilaidd

Canran cyfanswm y gwerthiannau sy'n deillio o alcohol

Siopau ar y ffin

- 7.43 Ni chafwyd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yng nghanran cyfanswm y gwerthiannau sy'n deillio o alcohol ar y llinell sylfaen ($\beta_2 = -0.01$, 95% CI -0.05 i 0.01) na'r goledau llinell sylfaen ($\beta_4 = 0.00$, 95% CI -0.00 i 0.01) rhwng siopau ar y ffin yng Nghymru a Lloegr. Yn y model hwn, ni chafwyd unrhyw effaith unionsyth arwyddocaol oherwydd y driniaeth ($\beta_6 = 0.00$, 95% CI -0.03 i 0.05) nac unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yn ystadegol yn y goledau ($\beta_8 = -0.00$, 95% CI -0.01 i 0.00) rhwng siopau ar y ffin yng Nghymru a Lloegr ar ôl rhoi'r polisi Isafbris am Alcohol ar waith (Ffigur 7.9).

Ffigur 7.9 CITS ar gyfer canran cyfanswm y gwerthiannau sy'n deillio o alcohol mewn siopau ar y ffin




Ffigur 7.9 – Dadansoddiad Cyfres Amser Fylchog (ITSA) ar gyfer % alcohol o'r trosiant gydag ymyriad ym mis Mawrth 2020, ar ôl rhoi'r Isafbris am Alcohol ar waith yng Nghymru, ar gyfer siopau ar y ffin yng Nghymru a Lloegr.

Siopau heb fod ar y ffin

7.44 Ni chafwyd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yng ngwerthiannau alcohol cyfartalog ar y llinell sylfaen ($\beta_2 = -0.01$, 95% CI -0.04 i 0.00) na'r goledau llinell sylfaen ($\beta_4 = 0.00$, 95% CI -0.00 i 0.00) rhwng siopau heb fod ar y ffin yng Nghymru a Lloegr. Yn y model hwn, ni chafwyd unrhyw effaith unionsyth arwyddocaol oherwydd y driniaeth ($\beta_6 = 0.02$, 95% CI -0.01 i 0.06) nac unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yn ystadegol yn y goledau ($\beta_8 = -0.00$, 95% CI -0.00 to 0.00) rhwng siopau heb fod ar y ffin yng Nghymru a Lloegr ar ôl rhoi'r polisi Isafbris am Alcohol ar waith (Ffigur 7.10).

Ffigur 7.10 CITS ar gyfer canran cyfanswm y gwerthiannau sy'n deillio o alcohol mewn siopau heb fod ar y ffin




Ffigur 7.10 – Dadansoddiad Cyfres Amser Fylchog (ITSA) ar gyfer % alcohol o'r trosiant gydag ymyriad ym mis Mawrth 2020, ar ôl rhoi'r Isafbris am Alcohol ar waith yng Nghymru, ar gyfer siopau heb fod ar y ffin yng Nghymru a Lloegr.

Nifer gyfartalog y trafodion alcohol

Siopau ar y ffin

7.45 Ni chafwyd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yn nifer y trafodion alcohol cyfartalog ar y llinell sylfaen ($\beta_2 = -56.80$, 95% CI -434.89 i 321.27) na'r goledau llinell sylfaen ($\beta_4 = 9.08$, 95% CI -94.75 i 112.92) rhwng siopau ar y ffin yng Nghymru a Lloegr. Yn y model hwn, ni chafwyd unrhyw effaith unionsyth arwyddocaol oherwydd y driniaeth ($\beta_6 = -132.47$, 95% CI -529.51 i 264.56) nac unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yn ystadegol yn y goledau ($\beta_8 = -5.59$, 95% CI -115.66 i 104.47) rhwng siopau ar y ffin yng Nghymru a Lloegr ar ôl rhoi'r polisi Isafbris am Alcohol ar waith (Ffigur 7.11).

Ffigur 7.11 CITS ar gyfer nifer gyfartalog y trafodion alcohol mewn siopau ar y ffin




Atchweliad Prais-Winsten & Cochrane-Orcutt – oediad (1)

Ffigur 7.11 – Dadansoddiad Cyfres Amser Fylchog (ITSA) ar gyfer nifer prynwyr alcohol cyfartalog siop gydag ymyriad ym mis Mawrth 2020, ar ôl rhoi'r Isafbris am Alcohol ar waith yng Nghymru, ar gyfer siopau ar y ffin yng Nghymru a Lloegr.

Siopau heb fod ar y ffin

7.46 Ni chafwyd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yn nifer y trafodion alcohol cyfartalog ar y llinell sylfaen ($\beta_2 = -120.15$, 95% CI -513.49 i 273.19) na'r goledau llinell sylfaen ($\beta_4 = 9.49$, 95% CI -98.28 i 117.27) rhwng siopau heb fod ar y ffin yng Nghymru a Lloegr. Yn y model hwn, ni chafwyd unrhyw effaith unionsyth arwyddocaol oherwydd y driniaeth ($\beta_6 = 40.37$, 95% CI -370.81 i 451.55) nac unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yn ystadegol yn y goledau ($\beta_8 = -8.01$, 95% CI -122.33 i 106.31) rhwng siopau heb fod ar y ffin yng Nghymru a Lloegr ar ôl rhoi'r polisi Isafbris am Alcohol ar waith (Ffigur 7.12).

Ffigur 7.12 CITS ar gyfer nifer gyfartalog y trafodion alcohol mewn siopau heb fod ar y ffin



Atchweliad Prais-Winsten & Cochrane-Orcutt – oediad (1)


Ffigur 7.12 – Dadansoddiad Cyfres Amser Fylchog (ITSA) ar gyfer nifer prynwr alcohol cyfartalog siop gydag ymyriad ym mis Mawrth 2020, ar ôl rhoi'r Isafbris am Alcohol ar waith yng Nghymru, ar gyfer siopau heb fod ar y ffin yng Nghymru a Lloegr.

Canran yr holl drafodion gwerthiannau sy'n cynnwys rhywfaint o alcohol

Siopau ar y ffin

- 7.47 Ni chafwyd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yng nghanran yr holl drafodion gwerthiannau oedd yn cynnwys rhywfaint o alcohol ar y llinell sylfaen ($\beta_2 = -0.01$, 95% CI -0.04 i 0.02) na'r goledau llinell sylfaen ($\beta_4 = 0.00$, 95% CI -0.00 i 0.01) rhwng siopau ar y ffin yng Nghymru a Lloegr. Yn y model hwn, ni chafwyd unrhyw effaith unionsyth arwyddocaol oherwydd y driniaeth ($\beta_6 = 0.00$, 95% CI -0.04 i 0.05) nac unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yn ystadegol yn y goledau ($\beta_8 = -0.00$, 95% CI -0.01 i 0.00) rhwng siopau ar y ffin yng Nghymru a Lloegr ar ôl rhoi'r polisi Isafbris am Alcohol ar waith (Ffigur 7.13).

Ffigur 7.13 CITS ar gyfer canran yr holl drafodion gwerthiannau sy'n cynnwys rhywfaint o alcohol mewn siopau ar y ffin




Atchweliad Prais-Winsten & Cochrane-Orcutt – oediad (1)

Ffigur 7.13 – Dadansoddiad Cyfres Amser Fylchog (ITSA) ar gyfer % alcohol y prynwr gydag ymyriad ym mis Mawrth 2020, ar ôl rhoi'r Isafbris am Alcohol ar waith yng Nghymru, ar gyfer siopau ar y ffin yng Nghymru a Lloegr.

Siopau heb fod ar y ffin

7.48 Ni chafwyd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yng nghanran yr holl drafodion gwerthiannau oedd yn cynnwys rhywfaint o alcohol ar y llinell sylfaen ($\beta_2 = -0.01$, 95% CI -0.04 i 0.01) na'r goledau llinell sylfaen ($\beta_4 = 0.00$, 95% CI -0.01 i 0.01) rhwng siopau heb fod ar y ffin yng Nghymru a Lloegr. Yn y model hwn, ni chafwyd unrhyw effaith unionsyth arwyddocaol oherwydd y driniaeth ($\beta_6 = 0.01$, 95% CI -0.03 i 0.05) nac unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yn ystadegol yn y goledau ($\beta_8 = 0.00$, 95% CI -0.01 i 0.01) rhwng siopau heb fod ar y ffin yng Nghymru a Lloegr ar ôl rhoi'r polisi Isafbris am Alcohol ar waith (Ffigur 7.14).

Ffigur 7.14 CITS ar gyfer canran yr holl drafodion gwerthiannau sy'n cynnwys rhywfaint o alcohol mewn siopau heb fod ar y ffin



Ffigur 7.14 – Dadansoddiad Cyfres Amser Fylchog (ITSA) ar gyfer % alcohol y prynwyr gydag ymyriad ym mis Mawrth 2020, ar ôl rhoi'r Isafbris am Alcohol ar waith yng Nghymru, ar gyfer siopau heb fod ar y ffin yng Nghymru a Lloegr


Cwestiwn ymchwil 3: Beth yw effaith yr Isafbris am Alcohol ar bryniannau cwsmeriaid yng Nghymru? Yn benodol, a yw cyfanswm y cyfaint o ddiodydd alcoholig a brynwyd gan aelwydydd yng Nghymru wedi gostwng o gymharu ag aelwydydd yn Lloegr? Mae dadansoddiadau ychwanegol yn asesu a yw gwariant yr aelwydydd ar alcohol wedi cynyddu ac a yw'r pris a delir am ddiodydd alcoholig wedi codi ers cyflwyno'r Isafbris am Alcohol.

Canlyniad cynradd: cyfaint (litrau) cyfartalog aelwydydd

- 7.49 Nid oedd y model yn dangos unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yn y cyfaint (litrau) cyfartalog a brynwyd gan aelwydydd ar y llinell sylfaen rhwng Cymru a Lloegr ($\beta_2 = 0.59$, 95% CI -0.16 i 1.35) na'r goledau llinell sylfaen ($\beta_4 = 0.01$, 95% CI -0.009 i 0.031). Yn y model hwn, ni chafwyd unrhyw effaith unionsyth arwyddocaol oherwydd y driniaeth ($\beta_6 = -0.67$, 95% CI -2.08 i 0.73) nac unrhyw wahaniaeth

arwyddocaol yn y goled ($\beta_8 = -0.05$, 95% CI -0.13 i 0.03) rhwng Cymru a Lloegr ar ôl rhoi'r polisi Isafbris am Alcohol ar waith (Ffigur 7.15).

Ffigur 7.15 CITS ar gyfer cyfaint (litrau) cyfartalog aelwydydd



Atchweliad Prais-Winsten & Cochrane-Orcutt – oediad (1)

Ffigur 7.15 - Dadansoddiad Cyfres Amser Fylchog (ITSA) ar gyfer Cyfaint (litrau) Cyfartalog Aelwydydd yng Nghymru a Lloegr gydag ymyriad ym mis Mawrth 2020


Canlyniadau eilaidd

Pris cyfartalog diod alcoholig fesul litr

- 7.50 Nid oedd y model yn dangos unrhyw wahaniaeth arwyddocaol ym mhris cyfartalog diod alcoholig fesul litr ar y llinell sylfaen rhwng Cymru a Lloegr ($\beta_2 = -0.28$, 95% CI -0.68 i 0.11) na'r goled llinell sylfaen ($\beta_4 = -0.002$, 95% CI -0.012 i 0.007).
- 7.51 Cafwyd gwahaniaeth arwyddocaol yn ystadegol yn y newid i'r pris cyfartalog a dalwyd fesul litr am ddiod alcoholig ($\beta_6 = 0.68$, 95% CI 0.14 i 1.21) yng Nghymru o gymharu â Lloegr yn syth ar ôl rhoi'r polisi Isafbris am Alcohol ar waith ym mis Mawrth 2020. Ni chafwyd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yn y goledau ($\beta_8 = 0.01$, 95% CI -0.02 i 0.05) rhwng Cymru a Lloegr ar ôl rhoi'r polisi Isafbris am Alcohol ar waith (Ffigur 7.16). Felly awgryma'r data bod y prisiau a dalwyd am

alcohol yng Nghymru cyn cyflwyno'r polisi Isafbris am Alcohol yn debygol o fod yn debyg neu ychydig yn is na'r rhai a dalwyd yn Lloegr, er nad oedd y gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol. Pan gyflwynwyd y polisi Isafbris am Alcohol, roedd mwy o gynnydd yn y newid yn y pris cyfartalog fesul litr yng Nghymru nag yn Lloegr, a nodweddiwyd yn bennaf gan gynnydd yng Nghymru. Mae hyn yn dystiolaeth o'r manwerthwyr yn rhoi'r polisi Isafbris am Alcohol ar waith.

Ffigur 7.16 CITS ar gyfer pris cyfartalog fesul litr o ddiod alcoholig




Ffigur 7.16 - Dadansoddiad Cyfres Amser Fylchog (ITSA) ar gyfer pris cyfartalog fesul litr yng Nghymru a Lloegr gydag ymyriad ym mis Mawrth 2020

Gwariant cyfartalog aelwydydd ar alcohol (£)

- 7.52 Nid oedd y model yn dangos unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yng ngwariant cyfartalog aelwydydd ar alcohol (£) ar y llinell sylfaen rhwng Cymru a Lloegr ($\beta_2 = -1.06$, 95% CI -5.95 i 3.82) na'r goledl llinell sylfaen ($\beta_4 = 0.02$, 95% CI -0.11 i 0.15).
- 7.53 Yn y model hwn, ni chafwyd unrhyw effaith unionsyth arwyddocaol oherwydd y driniaeth ($\beta_6 = 6.94$, 95% CI -2.00 i 15.90) sy'n awgrymu na chafodd y polisi Isafbris am Alcohol effaith ar wariant aelwydydd. Ni chafwyd unrhyw wahaniaeth

arwyddocaol yn y goled rhwng Cymru a Lloegr ar ôl rhoi'r polisi Isafbris am Alcohol ar waith ($\beta_8 = -0.08$, 95% CI -0.61 i 0.46) (Ffigur 7.17).

Ffigur 7.17 CITS ar gyfer gwariant cyfartalog aelwydydd ar alcohol (£)



Ffigur 7.17 - Dadansoddiad Cyfres Amser Fylchog (ITSA) ar gyfer gwariant cyfartalog aelwydydd (£) yng Nghymru a Lloegr gydag ymyriad ym mis Mawrth 2020

*Cwestiwn ymchwil 4: A yw effaith yr Isafbris am Alcohol ar brynu yn amrywio yn ôl y math o ddiod yng Nghymru, o gymharu â Lloegr?*⁷

- 7.54 Cynhaliwyd dadansoddiadau er mwyn ymchwilio i sut yr effeithiwyd ar fathau gwahanol o alcohol pan roddwyd y polisi Isafbris am Alcohol ar waith. Roedd data pryniannau defnyddwyr Data Pryniannau Panel Nwyddau sy'n Gwerthu'n Gyflym Kantar yn nodi'r mathau canlynol o alcohol: gwin, gwirodydd, lager, cyrfau a stowt, seidr, gwin pefriog, diodydd alcoholig â chyflas a gwin cadarn. Cynhaliwyd modelau CITS ar gyfer yr holl fathau gwahanol o alcohol ar gyfer pob canlyniad, gan ddefnyddio Lloegr fel grŵp rheolydd.

⁷ Gweler Atodiad C am fanylion y newidiadau a wnaed i'r cwestiynau ymchwil

7.55 Mae Tabl 7.4 yn dangos canlyniadau'r dadansoddiad is-grŵp yn ôl math o alcohol: mae'r celloedd a amlygwyd yn cyd-fynd ag effeithiau unionsyth arwyddocaol yn ystadegol oherwydd y driniaeth. Mae'r celloedd gwyrdd yn nodi cynnydd arwyddocaol yn y canlyniad yng Nghymru o gymharu â Lloegr, ac mae'r celloedd oren yn nodi gostyngiad arwyddocaol.

Tabl 7.4 Dadansoddiad is-grŵp yn ôl math o ddiod alcoholig

Math o alcohol	Pris (£) cyfartalog fesul litr o'r ddiod alcoholig $\beta_6(95\% \text{ CI})$	Gwariant cyfartalog aelwydydd (£) $\beta_6(95\% \text{ CI})$	Cyfaint (litrau) cyfartalog aelwydydd $\beta_6(95\% \text{ CI})$
Gwin	0.33** (0.14, 0.51)	0.48 (-3.26, 4.23)	-0.27 (-0.79, 0.23)
Gwirodydd	2.36** (1.70, 3.03)	3.58 (-0.65, 7.82)	-0.13 (-0.38, 0.11)
Lager	0.36** (0.27, 0.44)	4.3* (0.10, 8.50)	-0.32 (-2.33, 1.68)
Seidr	0.57** (0.42, 0.73)	0.72 (-3.21, 4.65)	-2.6* (-4.75, -0.44)
Gwin pefriog	1.82** (1.10, 2.54)	1.17 (-1.65, 4.00)	-0.43 (-0.90, 0.03)
Gwin Cadarn	0.27 (-0.68, 1.24)	4.19* (1.15, 7.23)	0.42 (-0.09, 0.95)
Cyrfaau a Stowt	0.05 (-0.1, 0.2)	-1.22 (-3.04, 0.59)	-0.59 (-1.33, 0.15)
Diodydd Alcoholig â Chyflas	-0.001 (-0.47, 0.46)	-0.57 (-1.98, 0.83)	-0.08 (-0.37, 0.20)

Tabl 7.4 – dadansoddiad is-grŵp yn ôl math o ddiod: mae'r celloedd wedi'u hamlygu'n cyd-fynd ag effeithiau unionsyth arwyddocaol yn ystadegol oherwydd y driniaeth.

* $p < 0.05$

** $p < 0.002$

7.56 Ar y cyfan, roedd y dadansoddiad is-grŵp yn gyson â'r prif ddadansoddiad, gan fod y pris cyfartalog fesul litr yn arwyddocaol ar draws y rhan fwyaf o'r mathau o ddiodydd alcoholig. Gwelwyd cynnydd cyson hefyd ym mhrisiau gwerthu cyfartalog alcohol mewn astudiaethau o'r Isafbris am Alcohol yn yr Alban, lle gwelwyd pris gwerthu cyfartalog cwrw, gwirodydd ac yn enwedig seidr yn ysgogi'r cynnydd.

Nodwyd hefyd nad oedd astudiaethau'r Alban wedi gweld unrhyw newidiadau cyson ym mhris gwerthu cyfartalog gwin (Giles et al., 2020).


- 7.57 Nodwyd effaith unionsyth arwyddocaol yn ystadegol oherwydd y driniaeth ar bris cyfartalog fesul litr diodydd alcoholig ar brisiau gwin, gwirodydd, lager, seidr a gwin pefriog yng Nghymru (o gymharu â Lloegr) ym mis Mawrth 2020. Mae'r effeithiau hyn yn dangos cynnydd ym mhrisiau cyfartalog y diodydd hyn fesul litr ar draws y mathau o alcohol ar ôl rhoi'r polisi Isafbris am Alcohol ar waith. Ni chafwyd unrhyw gynnydd ym mhrisiau gwin cadarn, cyrfau a stowt na diodydd alcoholig â chyflas ar ôl rhoi'r polisi Isafbris am Alcohol ar waith.
- 7.58 Hefyd cafodd lager a gwin cadarn effaith unionsyth arwyddocaol yn ystadegol oherwydd y driniaeth ar wariant cyfartalog aelwydydd, o £4.30 a £4.19 yn y drefn honno. Gallai hyn ddangos bod yfwyr lager wedi derbyn y cynnydd mewn prisiau, hynny yw, aeth y prisiau i fyny ac felly hefyd y gwariant cyfartalog. Nid yw'n glir pam aeth y gwariant ar win cadarn i fyny heb gynnydd yn y pris cyfartalog na chynnydd yn y cyfaint a brynwyd. Gallai data mwy manwl o ran y mathau o ddiodydd helpu i ddeall hyn.
- 7.59 Cafwyd effaith unionsyth gadarnhaol oherwydd y driniaeth ar bris cyfartalog seidr fesul litr sef 57c, ac effaith gadarnhaol o £1.60 dros amser, sy'n dangos bod y pris wedi codi ar ôl rhoi'r polisi Isafbris am Alcohol ar waith, ac wedi parhau i godi yn y cyfnod wedi hynny. Ymddengys i'r prisiau uwch hyn leihau pryniannau seidr gan fod effaith unionsyth arwyddocaol yn ystadegol oherwydd y driniaeth sef -2.6 litr fesul aelwyd. Fodd bynnag, dylid nodi bod y dadansoddiad is-grŵp a ddangosir yn nhabl 7.4 yn cyflwyno 24 o wahaniaethau amryfal, sy'n cynyddu'r tebygolrwydd bod y cyfernodau arwyddocaol wedi'u creu ar hap. Defnyddiwyd cywiriad Bonferroni i gyfrif am effaith cynnal profion amryfal. Drwy rannu'r gwerth-p (p-value) o 0.05 â 24 o brofion, cafwyd amcangyfrif mwy ceidwadol o arwyddocâd ystadegol (gwerth-p < 0.002). Ar ôl y cywiriad Bonferroni, nid yw'r holl ganfyddiadau diod-benodol mewn perthynas â gwariant a chyfaint yr aelwyd yn arwyddocaol. Felly, dylid dehongli'r canfyddiadau hyn â gofal.
- 7.60 Mae canlyniadau'r dadansoddiad is-grŵp fesul math o alcohol yn alinio â'r dadansoddiad newid a gynhaliwyd gan Kantar (Kantar, 2022). Cynhaliodd Kantar

ddadansoddiad disgrifiadol ar sail y cyfnod 28-wythnos hyd at 1 Rhagfyr 2019 (cyn rhoi'r polisi Isafbris am Alcohol ar waith) a'r cyfnod 28-wythnos hyd at 28 Tachwedd 2021 (ar ôl rhoi'r polisi Isafbris am Alcohol ar waith). Mae'n ymchwilio i weld a wnaeth defnyddwyr newid o un math o alcohol i un arall ac a wnaethant brynu mwy neu lai o gategori alcohol/diod penodol yng Nghymru ac yn Lloegr (ceir disgrifiad byr o ddadansoddiad newid Kantar yn Atodiad I). Yn achos lager, canfu'r dadansoddiad newid bod pobl a brynai lager cyn rhoi'r polisi Isafbris am Alcohol ar waith yn prynu mwy ohono ar ôl rhoi'r polisi ar waith yn y ddwy wlad (Kantar, 2022). Mae hyn yn alinio â'n canfyddiad o gynnydd yng ngwariant cyfartalog aelwydydd (£) ar gyfer lager yng Nghymru o gymharu â Lloegr, ac yn awgrymu bod gwariant defnyddwyr wedi llyncu'r cynnydd ym mhris lager. Mae dadansoddiad newid Kantar hefyd yn adrodd bod defnyddwyr yn prynu llai o seidr yn y ddwy wlad ar ôl rhoi'r polisi Isafbris am Alcohol ar waith, ond bod colled fwy sylweddol yng Nghymru, gyda defnyddwyr yn newid o seidr i sawl math gwahanol o ddiod gan gynnwys lager, gwirodydd a gwin cadarn (Kantar, 2022). Mae'r canfyddiad hwn yn alinio â'n canfyddiadau ni bod nifer y litrau o seidr a brynwyd fesul aelwyd yng Nghymru wedi gostwng o gymharu â Lloegr.

Crynodeb cyffredinol

- 7.61 Yn y samplau sydd ar gael, cafwyd cynnydd yng ngwerthiannau manwerthwyr allfasnach (ymysg manwerthwyr bach) a phryniannau cwsmeriaid (gan fanwerthwyr bach a mawr) o ddiodydd alcoholig yng Nghymru ac yn Lloegr ym mis Mawrth 2020, yn debygol oherwydd mesurau lliniaru Covid-19 megis cau tafarndai, clybiau, bariau a bwytai. Mae effaith hyn yn ymddangos yn llawer mwy sylweddol nag effeithiau'r polisi Isafbris am Alcohol. Nid yw hyn yn annisgwyl o gofio nad oedd disgwyl i'r Isafbris am Alcohol ond achosi lleihad bach yn y defnydd o alcohol (e.e. roedd modelu blaenorol yn awgrymu cwymp o 3.5% yn y defnydd) sy'n ddim byd o gymharu â dadleoli posibl gwerthiannau alcohol mewnfasnach i werthiannau allfasnach oherwydd cyfyngiadau symud Covid-19 (roedd gwerthiannau mewnfasnach yn 29% o gyfanswm y gwerthiannau alcohol yng Nghymru a Lloegr yn 2019) (Angus et al., 2018).

Ffigur 7.1. Ddamcaniaeth newid dangosol ar gyfer yr ymyrraeth Isafbris am Alcohol



7.62 Caiff y canfyddiadau eu hadolygu'n fyr mewn perthynas â'r camau a ddangosir yn y ddamcaniaeth newid ar gyfer Isafbris am Alcohol (ffigur 7.1). Yn gyntaf, ceir tystiolaeth bod y manwerthwyr wedi rhoi'r newid polisi ar waith gan fod cynnydd yn gyffredinol yn y pris cyfartalog a wariwyd ar litr o ddiod alcoholig yng Nghymru (o gymharu â Lloegr) ym mis Mawrth 2020. Mae hyn yn unol ag ymchwil diweddar arall (Anderson et al., 2021). Yn fwy penodol, bu cynnydd i 68c yn y gwahaniaeth rhwng y pris cyfartalog a dalwyd am litr o ddiod alcoholig ar draws y farchnad gyfan yng Nghymru, o gymharu â Lloegr. Gwelwyd cynnydd yn y prisiau fesul litr o ddiod ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o ddiod (ond nid pob un). Nid yw'r data sydd ar gael yn caniatáu gwaith i brofi a welwyd mwy o gynnydd ym mhrisiau'r diodydd rhad a chryf mae'r Isafbris am Alcohol yn eu targedu. I wneud hyn, mae'n debyg y byddai angen data ar lefel brand, neu wedi'u trefnu yn ôl pris a chryfder.

7.63 Mae'r rhan fwyaf o'r prif gwestiynau ymchwil yn y bennod hon yn cyfeirio at gam 2 yn ffigur 7.1. Hynny yw, pa effaith gafodd prisiau uwch ar ymddygiad cwsmeriaid. Yn gyntaf, fel y disgrifiwyd uchod, ni chafwyd unrhyw dystiolaeth bod yr Isafbris am Alcohol wedi dylanwadu ar refeniw gwerthiannau manwerthu a thrafodion cwsmeriaid yn fwy na'r newidiadau a gafwyd o ran manwerthu ac yfed alcohol oherwydd mesurau lliniaru Covid-19. Fodd bynnag, mae'r data pryniannau yn rhoi data mwy defnyddiol ar gyfer asesu'r cam hwn o'r ddamcaniaeth. Yn hynny o beth, ar gyfartaledd, ni chanfuwyd i gwsmeriaid yng Nghymru brynu cyfeintiau llai o diodydd alcoholig na gwario mwy o arian ar diodydd alcoholig ar ôl rhoi'r polisi Isafbris am Alcohol ar waith. Cofnodir cafeat drwy nodi nad yw'r mesurau sydd ar

gael ar gyfer y dadansoddiad hwn yn cyfrif am gynnwys ethanol (alcohol yn ôl cyfaint) ac felly efallai nad ydynt yn cyflwyno'r prawf gorau o'r ddamcaniaeth hon.

- 7.64 Ar gyfer y manwerthwyr llai o faint yn sampl y Bartneriaeth Data Manwerthu, cafwyd cynnydd yn refeniw gwerthiannau cyfartalog ym mis Mawrth 2020. Gwelwyd y patrwm hwn mewn siopau ar y ffin a'r rhai heb fod ar y ffin ac nid oedd unrhyw wahaniaethau cadarn yn ystadegol yn dangos bod yr Isafbris am Alcohol wedi cael effaith andwyol ar werthiannau mewn siopau (bach) ar y ffin yng Nghymru. Gan ddarllen y data'n hael (gan greu'r risg o or-ddehongli'r data gweddol brin) mae'n bosibl bod manwerthwyr ar y ffin yng Nghymru wedi gweld llai o gynnydd yn eu refeniw na'r siopau heb fod ar y ffin yng Nghymru, gan godi'r posibilrwydd bod rhai o'r siopwyr ger y ffin wedi symud eu pryniannau alcohol o siopau yng Nghymru i rai yn Lloegr, ond mae'r ffaith nad oedd y cyfernodau hyn yn arwyddocaol yn ystadegol yn golygu nad yw'n bosibl bod yn sicr nad yw'r canfyddiad hwn ond wedi digwydd ar hap.
- 7.65 Dangosodd dadansoddiadau yn ôl y math o ddiod mai seidr oedd yr unig fath o ddiod a adroddodd ostyngiad yn y cyfaint cyfartalog (litrau) a brynwyd yng Nghymru o gymharu â Lloegr ym mis Mawrth 2020. Er, nodwn nad oedd y canfyddiad hwn yn ddilys ar ôl cynnal profion amryfal. Canfu Anderson et al. (2021) bod rhoi'r polisi Isafbris am Alcohol ar waith yng Nghymru yn gysylltiedig â lleihad ym mhryniannau rhai mathau o alcohol gan gynnwys Seidr. Mae Seidr yn gategori eang iawn ac nid oes modd gwahaniaethu er mwyn canfod a oedd y lleihad mewn pryniannau wedi'i ganolbwyntio ar y brandiau rhad a chryf. Fodd bynnag, mae hyn yn gyson ag effeithiau disgwylledig yr Isafbris am Alcohol, ac mae'n cefnogi cam 2 yn ffigur 7.1 i ryw raddau. Nid yw'r canfyddiadau ar gyfer lager yn cefnogi effeithiolrwydd yr Isafbris am Alcohol i'r un graddau gan fod y pris uwch a'r gwariant uwch yn gyson â'r cwsmeriaid yn llyncu'r cynnydd mewn prisiau a achoswyd gan yr Isafbris am Alcohol. Nid oedd y data cyfredol yn gallu asesu'r ymddygiad newid.
- 7.66 Nodir unwaith eto nad yw'r setiau data a ddadansoddir yma yn cynnwys defnydd felly nid ydynt yn gallu dweud a yw newidiadau i'r gwerthiannau allfasnach wedi arwain at newid defnydd (cam 3 yn ffigur 7.1).

Cyfyngiadau'r data

- 7.67 Mae'r dadansoddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn cynrychioli'r ymdrech mwyaf cynhwysfawr posibl i ganfod effaith cyflwyno Isafbris am Alcohol yng Nghymru ar werthiannau alcohol. Fodd bynnag, ceir cyfyngiadau arwyddocaol ar y graddau y gellir gwneud casgliadau pendant ar sail y dadansoddiadau hyn.
- 7.68 Yr her fwyaf amlwg oedd dyfodiad y pandemig Covid-19 a chyflwyno'r cyfyngiadau symud cysylltiedig a'r mesurau lliniaru eraill ym mis Mawrth 2020. Roedd y mesurau hyn hefyd yn cynnwys cau tafarndai, bariau a bwytai, gan greu newid dramatig i lawer o agweddau ar y ffyrdd roedd pobl yn gallu prynu ac yfed alcohol. Dangosodd astudiaethau blaenorol bod dechrau'r pandemig wedi arwain at gynnydd arwyddocaol yn yr yfed risg uchel a gafwyd yn Lloegr (Jackson et al., 2020) ond nad oedd y cynnydd hwn yn gyfartal ar draws pob grŵp yn y boblogaeth (Jackson et al., 2021), ac efallai y gellir ei briodoli i gynnydd mewn gwariant dewisol wrth i'r angen i deithio i'r gwaith leihau (Moore et al., 2022). Mae gwahanu effeithiau'r Isafbris am Alcohol yng Nghymru, a gyflwynwyd ar bron yr union adeg â dechrau'r mesurau hyn, yn her sylweddol.
- 7.69 Cyfyngiad arall yw natur y data a ddefnyddiwyd. Mae data Kantar ac yn enwedig data'r Bartneriaeth Data Manwerthu yn ymwneud â chyfnod cymharol fyr, gyda 91 a 31 o bwyntiau data yn y drefn honno. Mae'r rhain yn feintiau sampl cymharol fach o gymharu â'r argymhellion ar gyfer 50-100 o bwyntiau data o leiaf ar gyfer dadansoddiadau CITS (Beard et al., 2019). Mae cwrmpas y ddwy set ddata'n gyfyngedig hefyd. Mae'r data Kantar yn cynnwys dim ond yr alcohol a brynwyd yn allfasnach ac sy'n mynd i'r cartref, ac felly nid yw'n cynnwys unrhyw alcohol mewnfasnach, neu alcohol a brynwyd yn allfasnach ac a yfwyd heb fynd yn ôl i'r cartref, er enghraifft potel o win a brynwyd ar y ffordd i gael pryd o fwyd yn nhŷ ffrind. Mae data'r Bartneriaeth Data Manwerthu yn cynnwys dim ond sampl o fanwerthwyr allfasnach llai o faint heb gynnwys archfarchnadoedd mawr, y mae eu gwerthiannau'n cyfrif am oddeutu 70% o'r holl alcohol allfasnach a werthir mewn siopau yn y DU (Euromonitor, 2022). Hefyd, mae Kantar a'r Bartneriaeth Data Manwerthu yn adrodd data wedi'u hagregu heb unrhyw wybodaeth am y dulliau a ddefnyddiwyd i reoli a chyflwyno ystadegau wedi'u hagregu. Yn ogystal, nid y

newidynnau a roddwyd yw'r rhai gorau o reidrwydd ar gyfer mynd i'r afael â'r cwestiynau ymchwil penodol sydd wrth law. Yn benodol, roedd data'r Bartneriaeth Data Manwerthu ar gael ar gyfer gwerth gwerthiannau alcohol yn hytrach na chyfaint yr alcohol a werthwyd (hynny yw, cyfaint yr alcohol/ethanol yn hytrach na chyfaint y diodydd). Mae hyn yn broblem benodol gan fod Isafbris am Alcohol yn cynyddu pris y cynhyrchion alcoholig rhatach, ac o ganlyniad, roedd modelu blaenorol yn awgrymu y byddai gwerth gwerthiannau cyffredinol o alcohol yn cynyddu 1.4% hyd yn oed gan amcangyfrif y byddai cyfanswm cyfaint yr alcohol a werthwyd yn disgyn 3.6% (Angus et al., 2018). Hefyd, nid oedd yn bosibl asesu'r graddau yr oedd defnyddwyr yn newid rhwng archfarchnadoedd mawr a siopau cyfleustra llai o faint. Mae'n bosibl mai dim ond symud y gwariant o un math o fanwerthwr i un arall a ddigwyddodd, yn hytrach na newid faint o alcohol a brynwyd ac a yfwyd. Gallai hyn fod yn gyfyngiad pwysig gan i astudiaeth yn yr Alban ganfod rhywfaint o dystiolaeth bod manwerthwyr llai o faint yn teimlo eu bod wedi cael budd o gyflwyno'r Isafbris am Alcohol oherwydd iddo leihau'r gwahaniaeth mewn pris am alcohol rhyngddyn nhw a'r prif archfarchnadoedd. (Stead et al., 2020).

- 7.70 I grynhoi, er bod y dadansoddiadau a gyflwynir yma'n rhoi rhywfaint o'r darlun cyfan, ni allant roi asesiad cynhwysfawr o effeithiau llawn rhoi'r polisi Isafbris am Alcohol ar waith yng Nghymru. Efallai y gallai ymchwil pellach gan ddefnyddio cyfres ddata amser hirach (cyn ac ar ôl mis Mawrth 2020, yn ddelfrydol), gan gynnwys data am werthiannau alcohol mewnfasnach, gwerthiannau alcohol mewn archfarchnadoedd⁸, a dadansoddi data ar gyfaint yr alcohol a werthwyd, yn hytrach na gwerthoedd gwerthiannau, helpu i wella'r ddealltwriaeth a ddatblygwyd trwy'r dadansoddiad presennol.

Casgliadau

- 7.71 Ni chafwyd llawer o dystiolaeth i gefnogi'r honiad bod yr Isafbris am Alcohol wedi effeithio ar werthiannau manwerthwyr bach. Roedd y rhan fwyaf o'r patrymau newid yn gyson ag effeithiau'r polisiâu cysylltiedig â Covid-19, a gafodd effaith fwy o lawer nag effeithiau'r Isafbris am Alcohol. Nid oedd unrhyw dystiolaeth gryf bod yr Isafbris

⁸ Ystyriwyd data Nielsen ar gyfer hyn, ond nid yw'r set ddata'n addas i'r prosiect hwn gan nad yw perchnogion y data'n caniatáu i ganlyniadau sy'n defnyddio'u data gael eu cyhoeddi.

am Alcohol wedi cael effaith andwyol ar siopau ar hyd y ffin. Bu cynnydd mewn prisiau diodydd ar ôl rhoi'r polisi Isafbris am Alcohol ar waith, sy'n awgrymu bod manwerthwyr wedi glynu ato. Seidr oedd yr unig ddiod a welodd leihad sylweddol yn ei werthiant yng Nghymru (o gymharu â Lloegr), ac ymddengys i'r defnyddwyr lyncu'r cynnydd mewn prisiau Lager.

8. Casgliadau

- 8.1 Mae'r bennod hon yn crynhoi canfyddiadau'r adroddiad interim oddeutu dwy flynedd ar ôl rhoi'r polisi Isafbris am Alcohol ar waith yng Nghymru. Mae'n gwneud hynny mewn dwy ffordd: yn gyntaf, ar sail tystiolaeth y cyfweiliadau ansoddol â manwerthwyr; ac yn ail, gan ddefnyddio dadansoddiad o'r data meintiol.

Cyfweiliadau ansoddol â manwerthwyr

Lefelau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am yr Isafbris am Alcohol, a safbwyntiau arno

- 8.2 Roedd lefelau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y manwerthwyr am y polisi wedi gwella'n gymedrol ers y llinell sylfaen, gyda phawb yn dangos dealltwriaeth sylfaenol. Fel ar y llinell sylfaen, roedd y manwerthwyr â lefelau uwch o ymwybyddiaeth am y polisi yn tueddu i ddisgyn i ddau grŵp: manwerthwyr cadwyn a allai ddibynnu ar eu prif swyddfa am wybodaeth; neu'r rhai oedd â'r amser i chwilio am y wybodaeth. Y bylchau gwybodaeth oedd yn parhau ers y llinell sylfaen oedd sut i gyfrifo prisiau unigol, a sut oedd yr Isafbris Uned yn effeithio ar gynigion hyrwyddol a disgowntiau. Mae'r dystiolaeth yn dal i awgrymu bod angen mwy o wybodaeth, neu ffurfiau newydd o wybodaeth, gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â hyn.
- 8.3 Cododd bylchau newydd yng ngwybodaeth y manwerthwyr ynghylch sut caiff y polisi ei orfodi. Roedd hyn yn amlwg ymysg manwerthwyr mewnfasnach gan fwyaf, gan adlewyrchu efallai'r ffocws hyd yma ar ymweliadau cydymffurfiaeth gan awdurdodau lleol a chymorth i fanwerthwyr allfasnach. Cafwyd lefelau is o ymwybyddiaeth ymysg manwerthwyr oedd ar gau yn ystod y pandemig ac a gredai nad oedd y polisi'n berthnasol i fanwerthwyr a werthai gynhyrchion am bris uwch na'r Isafbris Uned fel arfer. Byddai gweithgareddau parhaus i godi ymwybyddiaeth yn helpu i godi proffil y polisi, yn enwedig ymysg y sefydliadau a ailagorwyd yn ddiweddar a'r rhai sydd efallai'n rhagdybio nad yw'r polisi'n berthnasol iddyn nhw.
- 8.4 Roedd manwerthwyr yn fwy cefnogol o lawer i'r polisi os oeddent: (a) yn credu y byddai'n cyflawni ei nodau; (b) yn meddwl na fyddai'n cael ond yr effaith leiaf ar eu prisiau; (c) yn disgwyl iddo lefelu cystadleuaeth yn y farchnad diodydd alcoholig; a (d) os ystyrient fod gan fanwerthwyr gyfrifoldeb am hyrwyddo yfed yn gyfrifol. Gallai

cyfathrebu tystiolaeth am effeithiau'r polisi, os yw'n gadarnhaol, hefyd sicrhau mwy o gefnogaeth iddo yn y dyfodol.

Paratoi ar gyfer rhoi'r polisi ar waith a phrofiadau ers y llinell sylfaen

- 8.5 Nid oedd unrhyw amheuaeth bod cyfyngiadau Covid-19 wedi tarfu ar gyfnod rhoi'r polisi ar waith, yn enwedig i fanwerthwyr mewnfasnach. Roedd y manwerthwyr cadwyn oedd wedi paratoi fwyaf cyn rhoi'r polisi ar waith yn dal i fod wedi paratoi fwyaf ar ei gyfer ar ôl ei roi ar waith. Y rhesymau am beidio â pharatoi ar gyfer rhoi'r polisi ar waith oedd nad y cyfwelai oedd y prif berson â chyfrifoldeb am bennu prisiau; neu newydd ailagor ar ôl Covid-19 oeddent, ac nid oedd y polisi Isafbris am Alcohol ar flaenau eu meddyliau.
- 8.6 Y prif anhawster a wynebwyd gan fanwerthwyr oedd prasio cynigion hyrwyddol a disgowntiau, yn enwedig ymysg y rhai nad oeddent yn gwybod am ap Isafbris Uned Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn arbennig o wir lle roedd cynhyrchion wedi'u cyflenwi o'r tu allan i Gymru, neu lle roedd y cynigion hyrwyddol a'r disgowntiau'n dod oddi wrth ddosbarthwyr neu gadwyni DU-gyfan. Cafodd y manwerthwyr a ddefnyddiodd yr ap Isafbris Uned i'w helpu i wirio eu cyfrifiadau eu sicrhau eu bod wedi prasio'r cynhyrchion yn gywir. Felly gallai hyrwyddo argaeledd yr ap Isafbris Uned mewn ffordd a dargedwyd helpu i osgoi anghydymffurfiaeth anfwriadol.
- 8.7 Roedd ymweliadau cydymffurfiaeth yn digwydd, gyda manwerthwyr allfasnach yn arbennig yn disgrifio ymweliadau a gwiriadau gan Awdurdodau Lleol neu'r bencadlys. Roedd llai o eglurder ymysg manwerthwyr mewnfasnach ynghylch yr hyn roedd cydymffurfiaeth a gorfodi yn ei olygu, neu ble i geisio cyngor a chymorth. Adlewyrchai hyn y ffocws ar gydymffurfiaeth ymysg manwerthwyr allfasnach hyd hynny, a achoswyd yn rhannol oherwydd cau busnesau mewnfasnach yn ystod y pandemig Covid-19.

Effeithiau canfyddedig, gan gynnwys canlyniadau anfwriadol posibl.

- 8.8 Canfu'r manwerthwyr a ddisgwyliodd ar y cychwyn y byddai'r rhan fwyaf o'r prisiau'n codi'n sylweddol oherwydd y polisi nad oedd hynny'n wir. Yn hytrach, roedd y codiadau mewn prisiau yn tueddu i fod wedi'u cyfyngu i boteli dau neu dri litr o seidr cryf a rhad; gwinoedd rhatach; a rhai gwirodydd a weinwyd mewn bariau a bwytai.

Roedd yr holl gynhyrchion eraill a werthwyd gan fanwerthwyr eisoes o fewn yr ystod a ganiatawyd, yn ôl y sôn, neu roedd ychwanegiad mawr i'r pris, a olygai fod y cynnydd mewn prisiau oherwydd y polisi Isafbris am Alcohol yn cael ei lyncu o fewn y meintiau elw presennol.

- 8.9 Adroddwyd mai effaith gadarnhaol allweddol y polisi oedd bod manwerthwyr bellach yn gwerthu llai o alcohol rhad a chryf. Golygai hyn eu bod yn rhoi'r gorau i stocio'r cynhyrchion hyn yn gyfan gwbl; yn eu disodli gyda chynhyrchion â chyfaint llai o alcohol; neu â chynhyrchion premiwm a gynigai gwell gwerth am arian i'w cwsmeriaid, yn eu tyb nhw.
- 8.10 Roedd yr effeithiau negyddol anfwriadol yn cynnwys gwastraffu cynhyrchion oherwydd nad oedd y manwerthwyr yn gallu gwerthu'r cynhyrchion ar ddisgownt yn agos i'w dyddiadau 'ar eu gorau cyn'; costau ychwanegol canfyddedig yr aed iddynt oherwydd hyfforddiant staff, a'r angen i fanwerthwyr edrych allan am gynhyrchion a brisiwyd ar gyfer eu dosbarthu ar draws y DU nad oeddent o fewn yr ystod a ganiateir yng Nghymru. Er hynny, ni ystyriwyd yr effeithiau hyn yn ormod o faich.
- 8.11 Credai rhai manwerthwyr nad oedd y cwsmeriaid yn gwybod am y newid prisiau, yn enwedig yng nghyd-destun chwyddiant uwch. Clywodd eraill 'rwgnach' am godiadau mewn prisiau yn gyffredinol, ond roedd modd i'r manwerthwyr dawelu'r cwsmeriaid hyn drwy esbonio'r polisi iddynt. Roedd effeithiau'r Isafbris am Alcohol ar yfwyr problemus yn llai amlwg i'r manwerthwyr. Tybient y byddai'r grŵp hwn naill ai'n disodli alcohol rhad gyda chyffuriau neu'n blaenoriaethu eu gwario ar alcohol cryfach dros gostau eraill megis bwyd.

Dadansoddi'r data meintiol

- 8.12 Roedd cyfyngiadau Covid-19 yn gysylltiedig â chynnydd mawr yn y nifer o werthiannau alcohol allfasnach yng Nghymru ac yn Lloegr ym mis Mawrth 2020. Fodd bynnag, yn y sampl o fanwerthwyr llai o faint a ddadansoddwyd yn yr adroddiad hwn, ni chafwyd unrhyw dystiolaeth bod y polisi Isafbris am Alcohol wedi dylanwadu ar refeniw a thrafodion manwerthwyr bach yn fwy na'r newidiadau a achoswyd gan y mesurau lliniaru COVID-19.

- 8.13 Mae'r data sydd ar gael yn awgrymu na chafodd y polisi Isafbris am Alcohol effaith wahaniaethol ar fanwerthwyr bach mewn siopau ar hyd y ffin yng Nghymru yn nhermau refeniw gwerthiannau cyffredinol a thrafodion yn ymwneud ag alcohol.
- 8.14 Defnydd cyfyngedig yn unig sydd i'r data gwerthiannau sydd ar gael gan eu bod yn cyfeirio at lefelau refeniw cyffredinol heb gyfrif am faint o'r gwerthiannau hynny sy'n alcohol.
- 8.15 Mae data'r panel defnyddwyr yn dangos bod y prisiau fesul litr o ddiodydd wedi codi yng Nghymru, sy'n dangos bod y manwerthwyr yn rhoi'r polisi Isafbris am Alcohol ar waith. Fodd bynnag, nid oedd rhoi'r polisi ar waith yn gysylltiedig â newidiadau i'r gwariant (£) aelwyd cyfartalog ar alcohol na'r cyfaint aelwyd cyfartalog (litrau) o ddiod alcoholig a brynwyd.
- 8.16 Roedd y rhan fwyaf (ond nid pob un) o'r categorïau o ddiodydd alcoholig wedi gweld cynnydd yn y pris a dalwyd am litr o alcohol. Seidr oedd yr unig ddiod a welodd ostyngiad yn y cyfaint (litrau) cyfartalog a brynwyd yng Nghymru o gymharu â Lloegr. Mae hyn yn unol â'r canfyddiadau ansoddol sy'n awgrymu bod rhai manwerthwyr wedi rhoi'r gorau i werthu rhai brandiau o seidr rhatach a chryfach. Ymddengys i brisiau uwch am lager gael eu llyncu wrth i'r defnyddwyr wario mwy.
- 8.17 Defnydd cyfyngedig yn unig sydd i'r data pryniannau sydd ar gael gan eu bod yn cyfeirio at y cyfaint o ddiod heb gyfrif am gynnwys alcohol y diodydd hynny.

9. Argymhellion

- 9.1 Nod y gyfres hon oedd cipio profiadau ansoddol y manwerthwyr, ynghyd â dadansoddiad meintiol o werthiannau a phryniannau alcohol gan gymharu Cymru a Lloegr ers rhoi'r polisi Isafbris am Alcohol ar waith yng Nghymru ym mis Mawrth 2020.
- 9.2 Gallai cam nesaf yr ymchwil edrych ar effeithiau unrhyw newidiadau i'r Isafbris Uned, unrhyw ymgyrchoedd pellach i hyrwyddo'r polisi, a'r effeithiau canfyddedig. Mae'r adran hon yn gwneud argymhellion ar gyfer y materion y gallai'r cyfresi cyfweiliadau terfynol edrych arnynt yn ansoddol gyda manwerthwyr, a thrwy dadansoddi'r data ymhellach:

Cyfweiliadau ansoddol

- **Effeithiau unrhyw ymgyrchoedd gwybodaeth a chynghor pellach yn targedu manwerthwyr:** Yn gyntaf, o ran ymwybyddiaeth a dealltwriaeth manwerthwyr am y polisi, yn enwedig agweddau llai hysbys neu agweddau ar y polisi nas deallir, megis sut y dylid pricio cynigion hyrwyddol a disgowntiau. Yn ail, ymysg mathau o fanwerthwyr sy'n dangos llai o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth. Ac yn drydydd, a fydd hyrwyddo'r ap Isafbris Alcohol a sut i'w ddefnyddio yn helpu i leihau profiadau'r manwerthwyr o anawsterau pricio.
- **Cydymffurfiaeth a gorfodi:** adolygiad pellach o brofiadau manwerthwyr o gydymffurfiaeth a gorfodi – y manwerthwyr mewnnfasnach yn arbennig – wrth i'r polisi ymwreiddio. Gallai nifer fach o gyfweiliadau â chynrychiolwyr awdurdodau lleol helpu i adnabod unrhyw anawsterau o ran cydymffurfiaeth sy'n codi, y cymorth sydd ar gael i fanwerthwyr, a'r amgylchiadau lle mae mesurau gorfodi wedi digwydd neu sut y gellid eu hosgoi.
- **Cipio os yw safbwyntiau ar yr Isafbris am Alcohol yn datblygu, ac os ydynt, ym mha ffordd:** yn enwedig os nad yw'r Isafbris Uned yn newid, neu os yw'n codi'n unol â chwyddiant, lle roedd pryderon ynghylch yr effeithiau ar gystadleurwydd, ynghylch manwerthwyr yn gweithredu ar ben rhataf y farchnad neu ar werthiannau trawsffiniol.

- **Gwahanu ffactorau cyd-destunol o effaith y polisi:** ymchwilio ymhellach i ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y manwerthwyr mewnfasnach am y polisi, a'u profiadau ohono, pan fyddant wedi cael mwy o amser i ymadfer ar ôl effeithiau'r cyfyngiadau Covid-19. Bydd yn bwysig i'r cyfweiliadau terfynol geisio gwahanu ymhellach, lle bo'n bosibl, effeithiau'r polisi ac effeithiau chwyddiant uchel.
- **Effeithiau canfyddedig ar gwsmeriaid ac yfwyr problemus:** parhau i archwilio profiadau manwerthwyr o adborth cwsmeriaid, yn enwedig yng nghyd-destun y codiadau ehangach mewn chwyddiant a chynnydd mewn costau byw.

Dadansoddiad meintiol ac argymhellion

9.3 O ran y dadansoddiad meintiol, byddai ehangu'r data sydd ar gael ar gyfer yr ymchwil hwn yn gwella'r asesiad o effaith yr Isafbris am Alcohol, yn benodol:

- Data ar fesurau canlyniadau yn asesu gwerthiannau a phryniannau cyfaint alcohol pur (ethanol), h.y. cyfanswm yr unedau o alcohol a werthwyd ac a brynwyd.
- Data ar werthiannau alcohol gan yr holl fanwerthwyr, h.y., ehangu'r set ddata o fanwerthwyr bach i gynnwys manwerthwyr eraill megis archfarchnadoedd.
- Data cyfres amser dros gyfnodau hirach, yn enwedig ar gyfer set ddata'r Bartneriaeth Data Manwerthu (gwerthiannau manwerthwyr).

Cyfeiriadau

Anderson, P., O'Donnel, A., Kaner, E., Llopis, E., Manthey, J., Rehm, J. (2021). [Impact of minimum unit pricing on alcohol purchases in Scotland and Wales: controlled interrupted time series analyses. The Lancet Public Health](#), 6(8): e557 – 565.

Angus, C., Holmes, J., Brennan, A. & Meier, P. (2018). [Gwerthusiad yn seiliedig ar fodel o effaith gymharol polisïau Isafbris Uned a threthu yng Nghymru: Adroddiad terfynol.](#)

Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif ymchwil gymdeithasol 11/2018.

Bartasevicius, V., Beck, A., David, M., Forsyth, E., Rahim, N. and Steinbach, R. (2021). [Gwerthuso'r Isafbris am Alcohol yng Nghymru – Ymchwil Llinell Sylfaen gyda Manwerthwyr a Chynllun Dadansoddi Meintiol.](#) Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif ymchwil gymdeithasol 79/2021.

Beard, E., Marsden, J., Brown, J., Tombor, I., Stapleton, J., Michie, S., & West, R. (2019). Understanding and using time series analyses in addiction research. *Addiction*, 114(10), 1866-1884.

Bernal JL, Cummins S, Gasparrini A. [Interrupted time series regression for the evaluation of public health interventions: a tutorial. Int J Epidemiol](#). 2017 Chwefror 1;46(1):348-355. [Erratum in: Int J Epidemiol](#). 2020 Awst 1;49(4):1414.

Euromonitor. (2022). Alcoholic Drinks in the United Kingdom. European Passport.

Holloway, Buhociu, Murray, Livingston and Perkins (2022). [Asesu Effaith COVID-19 ac Effaith Gynnar Isafbris Alcohol ar y Boblogaeth Ehangach o Yfwyr.](#) Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif ymchwil gymdeithasol 23/2022.

Holmes J, Angus C. [Alcohol deaths rise sharply in England and Wales BMJ](#) 2021; 372:n607

Jackson, S. E., Garnett, C., Shahab, L., Oldham, M., and Brown, J. (2021) [Association of the COVID-19 lockdown with smoking, drinking and attempts to quit in England: an analysis of 2019–20 data. *Addiction*](#), 116: 1233– 1244.

Jackson, SE, Beard, E, Angus, C, Field, M, Brown, J. [Moderators of changes in smoking, drinking and quitting behaviour associated with the first COVID-19 lockdown in England. *Addiction*](#). 2022; 117: 772– 783.

Kantar. (2022, Mawrth). *MUP Dataset Summary Charts* [Sleidiau PowerPoint]. Heb eu cyhoeddi

Linden, A. (2015). [Conducting Interrupted Time-series Analysis for Single- and Multiple-group Comparisons. *The Stata Journal*](#), 15(2), 480–500.

Moore, S. C., Orpen, B., Smith, J., Sarkar, C., Li, C., Shepherd, J., & Bauermeister, S. (2022). Alcohol affordability: implications for alcohol price policies. A cross-sectional analysis in middle and older adults from UK Biobank. *Journal of Public Health*, 44(2), e192-e202.

[Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2019. Alcohol-specific deaths in the UK: registered in 2018](#) [ar-lein].

Ponce Hardy V, Giles L. (2022) Monitoring and Evaluating Scotland's Alcohol Strategy: Monitoring Report 2022. Edinburgh: Public Health Scotland

Robinson, M., Mackay, D., Giles, L., Lewsey, J., Richardson, E., & Beeston, C. (2021). Evaluating the impact of minimum unit pricing (MUP) on off-trade alcohol sales in Scotland: an interrupted time–series study. *Addiction*, 116(10), 2697-2707.

StataCorp. 2021. Stata Statistical Software: Release 17. College Station, TX: StataCorp LLC.

StatsCymru, 2018. [Arolwg Cenedlaethol Cymru \(2017-18\)](#) [ar-lein].

Stead M, Critchlow N, Eadie D, Fitzgerald N, Angus K, Purves R, McKell J, Marie MacKintosh A, Mitchell H, Sumpter C & Angus C (2020) [Evaluating the impact of alcohol minimum unit pricing in Scotland: Observational study of small retailers. NHS Health Scotland/Public Health Scotland](#). Stirling.

Atodiad A: Proffiliau manwerthwyr

Tabl A.1: Math o fanwerthwr yn ôl rhanbarth

Math o fanwerthwr	Rhanbarth	Cyfrif
Tafarn / bar	Y Canolbarth a'r Gorllewin	1
	Gogledd Cymru	1
	Canol De Cymru	3
	Dwyrain De Cymru	2
	Gorllewin De Cymru	3
Siop gyfleustra	Y Canolbarth a'r Gorllewin	2
	Gogledd Cymru	2
	Canol De Cymru	1
	Dwyrain De Cymru	0
	Gorllewin De Cymru	1
Gwesty	Y Canolbarth a'r Gorllewin	0
	Gogledd Cymru	1
	Canol De Cymru	0
	Dwyrain De Cymru	1
	Gorllewin De Cymru	0
Siop garej	Y Canolbarth a'r Gorllewin	0
	Gogledd Cymru	0
	Canol De Cymru	0
	Dwyrain De Cymru	0
	Gorllewin De Cymru	1

Siop alcohol	Y Canolbarth a'r Gorllewin	0
	Gogledd Cymru	1
	Canol De Cymru	0
	Dwyrain De Cymru	1
	Gorllewin De Cymru	0
Bwyty	Y Canolbarth a'r Gorllewin	0
	Gogledd Cymru	2
	Canol De Cymru	3
	Dwyrain De Cymru	0
	Gorllewin De Cymru	1
Siop goffi	Y Canolbarth a'r Gorllewin	0
	Gogledd Cymru	0
	Canol De Cymru	1
	Dwyrain De Cymru	0
	Gorllewin De Cymru	0
Siop groser	Y Canolbarth a'r Gorllewin	1
	Gogledd Cymru	0
	Canol De Cymru	0
	Dwyrain De Cymru	0
	Gorllewin De Cymru	0

Tabl A.2: Math o fanwerthwr yn ôl cadwyn neu annibynnol

Math o fanwerthwr	Cadwyn / Annibynnol	Cyfrif
Tafarn / bar	Cadwyn	8
	Annibynnol	1
Siop gyfleustra	Cadwyn	5
	Annibynnol	1
Gwesty	Cadwyn	1
	Annibynnol	2
Siop garej	Cadwyn	2
	Annibynnol	0
Siop alcohol	Cadwyn	2
	Annibynnol	0
Bwyty	Cadwyn	0
	Annibynnol	6
Siop goffi	Cadwyn	0
	Annibynnol	1
Siop groser	Cadwyn	0
	Annibynnol	1

Tabl A.3: Math o fanwerthwr yn ôl maint

Math o fanwerthwr	Maint	Cyfrif
Tafarn / bar	0-10 o weithwyr	4
	11-15 o weithwyr	1
	26-50 o weithwyr	2

Siop gyfleustra	51-100 o weithwyr	0
	0-10 o weithwyr	2
	11-15 o weithwyr	4
	26-50 o weithwyr	0
	51-100 o weithwyr	0
Gwesty	0-10 o weithwyr	0
	11-15 o weithwyr	0
	26-50 o weithwyr	0
	51-100 o weithwyr	1
Siop garej	0-10 o weithwyr	2
	11-15 o weithwyr	0
	26-50 o weithwyr	0
	51-100 o weithwyr	0
Siop alcohol	0-10 o weithwyr	1
	11-15 o weithwyr	0
	26-50 o weithwyr	0
	51-100 o weithwyr	0
Bwyty	0-10 o weithwyr	2
	11-15 o weithwyr	1
	26-50 o weithwyr	0
	51-100 o weithwyr	1
Siop goffi	0-10 o weithwyr	1
	11-15 o weithwyr	0
	26-50 o weithwyr	0
	51-100 o weithwyr	0

Siop groser	0-10 o weithwyr	1
	11-15 o weithwyr	0
	26-50 o weithwyr	0
	51-100 o weithwyr	0

Yn ystod y cyfweiliadau, ni wnaeth pob manwerthwr nodi maint y sefydliad, neu nododd faint y lleoliad (yn hytrach na nifer y gweithwyr). Felly nid yw pob manwerthwr wedi'i gynrychioli yn y tabl hwn.

Tabl A.4: Math o fanwerthwr yn ôl cyfran y gwerthiannau sy'n deillio o alcohol

Math o fanwerthwr	% o werthiannau sy'n deillio o alcohol	Cyfrif
Tafarn / bar	4-25%	0
	26-50%	3
	51-75%	2
	76-100%	3
Siop gyfleustra	4-25%	1
	26-50%	3
	51-75%	0
	76-100%	0
Gwesty	4-25%	1
	26-50%	0
	51-75%	1
	76-100%	0
Siop garej	4-25%	2
	26-50%	0
	51-75%	0
	76-100%	0

Siop alcohol	4-25%	0
	26-50%	0
	51-75%	0
	76-100%	2
Bwyty	4-25%	0
	26-50%	3
	51-75%	0
	76-100%	0
Siop goffi	4-25%	1
	26-50%	0
	51-75%	0
	76-100%	0

Yn ystod y cyfweiliadau, ni wnaeth pob manwerthwr drafod cyfran ei werthiannau sy'n deillio o alcohol. Felly nid yw pob manwerthwr wedi'i gynrychioli yn y tabl hwn.

Tabl A.5: Math o fanwerthwr yn ôl y gallu i aros ar agor yn ystod COVID-19

Math o fanwerthwr	Gallu i aros ar agor	Cyfrif
Tafarn / bar	Aros ar agor	0
	Ar agor yn gyfyngedig	2
	Ar gau	9
Siop gyfleustra	Aros ar agor	5
	Ar agor yn gyfyngedig	1
	Ar gau	1
Gwesty	Aros ar agor	0

Siop garej	Ar agor yn gyfyngedig	1
	Ar gau	1
	Aros ar agor	1
Siop alcohol	Ar agor yn gyfyngedig	1
	Ar gau	0
	Aros ar agor	0
Bwyty	Ar agor yn gyfyngedig	1
	Ar gau	1
	Aros ar agor	0
Siop goffi	Ar agor yn gyfyngedig	2
	Ar gau	3
	Aros ar agor	0
Siop groser	Ar agor yn gyfyngedig	1
	Ar gau	0
	Aros ar agor	0
	Ar agor yn gyfyngedig	0
	Ar gau	0
	Aros ar agor	1

Mae 'Ar agor yn gyfyngedig' yn cyfeirio naill ai at oriau agor cyfyngedig, cyfyngu ar y nifer o bobl a ganiateir yn y lleoliad ar y tro, neu agor rhwng cyfnodau'r cyfyngiadau symud.

Atodiad B: Canllaw pynciau'r cyfweiliadau

1 Cefndir y manwerthwr

- Ynghylch y cyfranogwr
- Rôl a chyfrifoldebau
 - Yn y sefydliad
 - Mewn perthynas â phrisio a gwerthiannau alcohol
- Hyd ei amser gyda'r sefydliad
- Unrhyw newidiadau ers y cyfweiliad blaenorol
- Disgrifiad o'r manwerthwr a'r cynhyrchion mae'n eu gwerthu
 - Maint (nifer o gyflogeion, nifer o ganghennau, a yw'n gwmni rhyngwladol)
 - Pryd y'i sefydlwyd
 - Oriau agor
 - Math o drwydded alcohol sydd ganddo
- Gwerthiannau alcohol, trosiant blynyddol
 - Mewnfasnach neu allfasnach
 - Cyfran y gwerthiannau sy'n deillio o alcohol
 - Mathau o alcohol a werthir, holi ynghylch alcohol rhad / cryf
- A effeithiwyd ar y busnes gan y pandemig a'r cyfyngiadau Covid-19
 - Gallu i aros ar agor trwy gydol y pandemig
 - Effeithiau ar werthiannau alcohol
 - Unrhyw effeithiau perthnasol eraill

2 Dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth am y polisi

- Yr hyn mae'n ei wybod am y polisi isafbris yng Nghymru
 - Pam y cafodd ei gyflwyno / nodau'r polisi
 - Pryd y'i rhoddwyd ar waith (DS 2 Mawrth 2020)
 - Newidiadau a achosodd y polisi i brisiau alcohol yn gyffredinol
 - Pa fathau o gynhyrchion a effeithiwyd gan yr isafbris

- Newid i brisiau
- Math o gynnyrch a werthir, neu ei ansawdd
- Beth yw targed y polisi (h.y. yfwyr sy'n prynu cynnyrch am bris isel / cynnwys alcohol uchel)
- Dealltwriaeth am sut caiff yr isafbris ei gyfrifo
 - Lefel isafbris uned (50c)
 - Cyfrifo'r isafbris
 - Y ffordd mae'n rhyngweithio â chostau ychwanegol (e.e. costau anfon wrth werthu ar lein, tollau a TAW)
 - Rheolau mewn perthynas â:
 - Chynigion
 - Cynhyrchion â phris arnynt eisoes / pecynnau 'fflach'
 - Gostyngiadau mewn pris oherwydd difrod
- Ffynonellau gwybodaeth
 - Cyn rhoi'r polisi ar waith
 - Ble clywodd y manwerthwr am y polisi
 - Un ffynhonnell neu fwy
 - A yw wedi chwilio am fwy o wybodaeth, ac ymhle
 - Bylchau yn ei ddealltwriaeth / unrhyw beth nad oedd yn eglur iddo ar y pryd
 - Rhagor o wybodaeth neu ganllawiau yr hoffai eu cael / y byddai wedi hoffi eu cael am y polisi
 - Argaeledd y wybodaeth a chanllawiau yn Gymraeg
- Ymwybyddiaeth am weithgareddau penodol cyn rhoi'r polisi ar waith
 - Llythyr gan Lywodraeth Cymru
 - Poster arddangos wrth y pwynt gwerthu
 - Y cyfryngau neu wasg fasnachol
 - Cyhoeddusrwydd/ ymgyrchoedd eraill (e.e. Alcohol Change UK Cymru)
 - Hysbysebion silff neu droli
 - Safbwyntiau ar / gwelliannau a awgrymwyd

- Yn fwy diweddar
 - Canllawiau ar werthiannau ym mis Ionawr 2020
 - Gorfodi
 - Ar ba ffurf
 - A roddwyd cyngor neu ganllawiau?
 - Effeithiau'r pandemig Covid-19
 - Amlygrwydd / pwysigrwydd yn ei feddwl / fel manwerthwr
 - Pwysigrwydd y polisi yn ystod y pandemig o ran lefelau gwerthiannau
- Safbwyntiau ar y polisi isafbris
 - Y graddau y cytunodd /anghytunodd â nodau'r polisi, a'r graddau y mae'n cytuno / anghytuno â nhw erbyn hyn
 - Pwy sy'n gyfrifol am leihau'r defnydd o alcohol h.y. manwerthwyr, yfwyr, llywodraeth ac ati
 - Unrhyw newid i'w safbwyntiau dros amser
 - Pryderon am y polisi, os o gwbl
 - Newidiadau i'r polisi yn y dyfodol

3 Paratoi ar gyfer rhoi'r polisi ar waith

- Fel manwerthwr, beth a wnaeth, os unrhyw beth, mewn perthynas â'r polisi isafbris
 - Cyn i'r polisi gael effaith
 - Pan gafodd y polisi effaith
- Os na wnaeth y manwerthwr feddwl ryw lawer am y gwaith paratoi
 - Pam oedd hynny (e.e. canfyddiad bod y prisiau eisoes yn fwy na'r isafbris, yn meddwl y gallai lyncu'r newidiadau i'r prisiau)
 - Pwy a ragwelai fyddai'n gyfrifol am brisio a sicrhau cydymffurfiaeth
 - Gan bwy y byddai'n ceisio cyngor/canllawiau (e.e. Llywodraeth Cymru, cyngor cyfreithiol, cyrff masnach)
 - Canlyniadau peidio â gwneud gwaith paratoi

- Gweithgarwch munud olaf
 - Unrhyw fesurau gorfodi neu ddirwyon
 - Canlyniadau eraill
- Os oedd wedi meddwl am/ paratoi ar gyfer y polisi,
 - Ei ymagwedd ato
 - Hyfforddi staff
 - Rhoi gwybod i gwsmeriaid
 - Prynu cynhyrchion â llai o alcohol / ansawdd gwell
 - Pwy oedd yn gyfrifol am brisio a sicrhau cydymffurfiaeth
 - Sut aeth ati i bennu prisiau
 - Cyngor / canllawiau gan gyrrff masnach
 - Cyfrifoldeb (e.e. ei hun, rheolwyr, pencadlys)
 - Costau a fwriadwyd i roi'r polisi ar waith
 - Effeithiau'r pandemig Covid-19 a'r cyfyngiadau cysylltiedig ar y cynlluniau

4 Profiadau o roi'r polisi ar waith a'i effeithiau

- Profiadau cyffredinol o roi'r polisi ar waith
- Sut wnaeth y profiadau gymharu â'r disgwyliadau
 - Prisio (e.e. a oedd y prisiau presennol yn fwy na'r isafbris)
 - Pa mor rheoladwy oedd y newidiadau
 - Cynnydd mewn prisiau
 - Dirywiad rheoladwy mewn gwerthiannau
 - Newid cynhyrchion (e.e. llai o alcohol, gwell ansawdd)
 - Marchnad fwy cystadleuol (e.e. yn cyflenwi diodydd rhatach â llai o alcohol, lefelu'r farchnad rhwng manwerthwyr bach a mawr)
 - Mân-effeithiau / effeithiau dros dro ar werthiant
 - A effeithiwyd ar lefelau defnydd alcohol

- Ymysg cwsmeriaid achlysurol
 - Cwsmeriaid rheolaidd
 - Lefel o ddibyniaeth ar alcohol
- Gwerthiannau trawsffiniol, lle mae'r manwerthwr yn agos i'r ffin â Lloegr
- Effeithiau negyddol
 - Costau'n gysylltiedig â chydymffurfiaeth
 - Effeithiau ar werthiannau
 - Agweddau/adborth negyddol gan gwsmeriaid
 - Effeithiau ar staff
 - Unrhyw beth arall?
 - Dulliau lliniaru
- Effeithiau cadarnhaol
 - Newidiadau i batrymau prynu cwsmeriaid, pa gwsmeriaid
 - Llai o alcohol yn cael ei yfed
 - Gwell ystod/ansawdd cynhyrchion
 - Unrhyw beth arall?
- Effeithiau ehangach / eraill ar y busnes
- Effeithiau Covid-19 a'r cyfyngiadau
 - Ar ei fusnes
 - Ar werthiannau alcohol
 - Lle cafwyd cynnydd
 - Lle cafwyd gostyngiad
 - Y gallu i wahanu effeithiau'r isafbris a chyfyngiadau Covid-19
 - Unrhyw effeithiau eraill oherwydd Covid-19 a'r cyfyngiadau

5 Meddyliau a myfyrdodau i gloi

- Safbwyntiau cyffredinol ar y polisi a'i effaith
- A yw'r safbwynt wedi newid dros amser

- Cyfeiriad cadarnhaol/negyddol
- Y prif ffactorau sy'n dylanwadu ar newid safbwyntiau
- Prif negeseuon i'r llywodraeth
 - Rhoi ar waith yn barhaus
 - Newidiadau posibl i'r polisi
 - Anghenion o ran gwybodaeth/cymorth

Atodiad C: Gwyradau o'r cynllun gwerthuso Isafbris am Alcohol

Awgrymodd yr adroddiad llinell sylfaen (Bartasevicius et al., 2020) y dylid ymchwilio i effaith rhoi'r polisi Isafbris am Alcohol ar waith fesul math o fanwerthwr drwy gynnal dadansoddiad is-grŵp o'r data Kantar. Fodd bynnag, nid oedd modd dosbarthu'r mathau o fanwerthwyr a gynhwyswyd yn y data Kantar⁹ yn gategorïau ystyrlon ar wahân (e.e. roeddem wedi rhagweld 'siopau cadwyn' a 'siopau annibynnol'); yn hytrach, roedd y rhan fwyaf o'r data'n ymwneud â siopau mawr oedd â chyfran sylweddol o'r farchnad. Roedd yn bosibl defnyddio'r data Kantar i wneud mwy o waith dadansoddi ar effaith yr Isafbris am Alcohol ar fanwerthwyr unigol, ond nid oedd dadansoddiad yn ôl 'math' o fanwerthwr (h.y. annibynnol neu gadwyn) yn ymarferol yn ein barn ni.

Hefyd, roedd cynllun llinell sylfaen meintiol 2020 yn awgrymu dadansoddiad sensitifrwydd ar gyfer y data Kantar oedd yn cynnwys cyfres amser ar wahân ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban, ac oediad o 13 i gyfrif am batrymau tymhorol mewn pryniannau alcohol. Fodd bynnag, ni wnaethom gynnwys yr Alban fel gwlad rheolydd am iddi roi ei pholisi Isafbris am Alcohol ei hun ar waith yn 2018. Hefyd, cymerwyd bod y patrymau tymhorol yn gyffredin ledled Cymru a Lloegr ac felly nid oedd yn fater i reoli amdano. Am y rhesymau hyn, nid ydym wedi cynnwys y ddau ddadansoddiad sensitifrwydd hyn ar gyfer y data Kantar.

⁹ Tesco, Asda, Sainsbury's, Morrisons, The Co-operative, Waitrose, Aldi, Lidl, Marks & Spencer ac Eraill sy'n cynnwys siopau annibynnol, symbol a bargeinion.

Atodiad D: Tablau cyfernodau data gwerthiannau

Mae'r tablau canlynol yn adrodd cyfernodau, gwerthoedd-p a chyfyngau hyder 95% CITS ar y mesurau canlyniadau gwerthiant yng Nghymru a Lloegr.

Canlyniad cynradd: gwerthiannau alcohol cyfartalog

Tabl D.1 Canlyniadau model CITS ar gyfer gwerthiannau alcohol cyfartalog

Cyfernod	Ystyr	Gwerth	Gwerth-P	Cyfwng hyder 95%
β_1	Llinell sylfaen (Lloegr)	8165.758	< 0.001	5411.428 i 10920.089
β_2	Gwahaniaeth llinell sylfaen (Cymru vs. Lloegr)	-763.988	0.696	-4659.200 i 3131.224
β_3	Goledd llinell sylfaen	66.487	0.873	-765.084 i 898.057
β_4	Gwahaniaeth goleddd llinell sylfaen (Cymru vs. Lloegr)	97.047	0.869	-1078.971 i 1273.065
β_5	Cam ymyrraeth (Lloegr)	4846.912	0.006	1425.846 i 8267.979
β_6	Gwahaniaeth cam ymyrraeth (Cymru vs. Lloegr)	1319.573	0.587	-3518.545 i 6157.691
β_7	Newid goleddd ymyrraeth (Lloegr)	-220.992	0.607	-1078.977 i 636.993
β_8	Gwahaniaeth newid goleddd ymyrraeth (Cymru vs. Lloegr)	-90.695	0.881	-1304.069 i 1122.678

Tabl D.1: Canlyniadau model Dadansoddiad Cyfres Amser Fylchog (ITSA) ar gyfer gwerthiannau alcohol cyfartalog yng Nghymru a Lloegr gydag ymyriadau ym mis Mawrth 2020. Mae'r cyfernodau a amlygir mewn print trwm yn arwyddocaol ar y lefel $p < 0.05$

Canlyniadau eilaidd

Canran yr holl werthiannau sy'n deillio o alcohol

Tabl D.2 Canlyniadau model CITS ar gyfer canran cyfanswm y gwerthiannau sy'n deillio o alcohol

Cyfernod	Ystyr	Gwerth	Gwerth-P	Cyfwng hyder 95%
β1	Lefel llinell sylfaen (Lloegr)	0.143	< 0.001	0.123 i 0.162
β2	Gwahaniaeth lefel llinell sylfaen (Cymru vs. Lloegr)	-0.018	0.197	-0.046 i 0.010
β3	Goledd llinell sylfaen	0.000	0.938	-0.006 i 0.007
β4	Gwahaniaeth goledd llinell sylfaen (Cymru vs. Lloegr)	0.000	0.934	-0.009 i 0.009
β5	Cam ymyrraeth (Lloegr)	0.037	0.008	0.010 i 0.063
β6	Gwahaniaeth cam ymyrraeth (Cymru vs. Lloegr)	0.025	0.198	-0.013 i 0.063
β7	Newid goledd ymyrraeth (Lloegr)	-0.002	0.586	-0.008 i 0.005
β8	Gwahaniaeth newid goledd ymyrraeth (Cymru vs. Lloegr)	-0.000	0.925	-0.010 i 0.009

Tabl D.2: Canlyniadau model Dadansoddiad Cyfres Amser Fylchog (ITSA) ar gyfer canran cyfanswm y gwerthiannau sy'n deillio o alcohol yng Nghymru a Lloegr gydag ymyriadau ym mis Mawrth 2020. Mae'r cyfernodau a amlygir mewn print trwm yn arwyddocaol ar y lefel $p < 0.05$

Nifer cyfartalog y cyfansymiau o drafodion alcohol

Tabl D.3 Canlyniadau model CITS ar gyfer nifer y trafodion alcohol cyfartalog

Cyfernod	Ystyr	Gwerth	Gwerth-P	Cyfwng hyder 95%
β_1	Lefel llinell sylfaen (Lloegr)	1105.328	< 0.001	828.871 i 1381.786
β_2	Gwahaniaeth lefel llinell sylfaen (Cymru vs. Lloegr)	-119.076	0.544	-510.045 i 271.894
β_3	Goledd llinell sylfaen	-0.129	0.997	-75.812 i 75.553
β_4	Gwahaniaeth goleddd llinell sylfaen (Cymru vs. Lloegr)	9.036	0.866	-97.995 i 116.068
β_5	Cam ymyrraeth (Lloegr)	354.492	0.017	66.024 i 642.961
β_6	Gwahaniaeth cam ymyrraeth (Cymru vs. Lloegr)	33.460	0.870	-374.496 i 441.417
β_7	Newid goleddd ymyrraeth (Lloegr)	-13.442	0.738	-93.741 i 66.856
β_8	Gwahaniaeth newid goleddd ymyrraeth (Cymru vs. Lloegr)	-7.367	0.897	-120.926 i 106.192

Tabl D.3: Canlyniadau model Dadansoddiad Cyfres Amser Fylchog (ITSA) ar gyfer nifer cyfartalog y trafodion alcohol yng Nghymru a Lloegr gydag ymyriadau ym mis Mawrth 2020. Mae'r cyfernodau a amlygir mewn print trwm yn arwyddocaol ar y lefel $p < 0.05$

Canran yr holl drafodion gwerthiannau sy'n cynnwys rhywfaint o alcohol

Tabl D.4 Canlyniadau model CITS ar gyfer canran yr holl drafodion gwerthiannau sy'n cynnwys rhywfaint o alcohol

Cyfernod	Ystyr	Gwerth	Gwerth-P	Cyfwng hyder 95%
β1	Lefel llinell sylfaen (Lloegr)	0.123	< 0.001	0.102 i 0.145
β2	Gwahaniaeth lefel llinell sylfaen (Cymru vs. Lloegr)	-0.018	0.233	-0.049 i 0.012
β3	Goledd llinell sylfaen	0.001	0.742	-0.006 i 0.008
β4	Gwahaniaeth goleddd llinell sylfaen (Cymru vs. Lloegr)	0.000	0.988	-0.010 i 0.010
β5	Cam ymyrraeth (Lloegr)	0.044	0.004	0.015 i 0.074
β6	Gwahaniaeth cam ymyrraeth (Cymru vs. Lloegr)	0.011	0.591	-0.030 i 0.053
β7	Newid goleddd ymyrraeth (Lloegr)	-0.003	0.439	-0.010 i 0.004
β8	Gwahaniaeth newid goleddd ymyrraeth (Cymru vs. Lloegr)	0.000	0.991	-0.010 i 0.010

Tabl D.4: Canlyniadau model Dadansoddiad Cyfres Amser Fylchog (ITSA) ar gyfer canran yr holl drafodion gwerthiannau sy'n cynnwys rhywfaint o alcohol yng Nghymru a Lloegr gydag ymyriadau ym mis Mawrth 2020. Mae'r cyfernodau a amlygir mewn print trwm yn arwyddocaol ar y lefel $p < 0.05$

Atodiad E: Tabl cyfernodau'r dadansoddiadau sensitifrwydd

Mae Tabl E.1 yn adrodd cyfernodau, gwerthoedd-p a chyfyngau hyder 95% y dadansoddiadau sensitifrwydd ar werthiannau alcohol cyfartalog yng Nghymru a Lloegr, gan gyfrif am ddyddiadau allweddol y strategaeth lliniaru'r pandemig (Mawrth, Mehefin a Tachwedd 2020).

Tabl E.1 Canlyniadau model dadansoddiadau sensitifrwydd ar gyfer gwerthiannau alcohol cyfartalog

Cyfernod	Ystyr	Gwerth	Gwerth-P	Cyfwng hyder 95%
β_1	Lefel Llinell sylfaen (Lloegr)	8343.4	0.000	6743.7 i 9943
β_2	Gwahaniaeth lefel llinell sylfaen (Cymru vs. Lloegr)	-116.5	0.000	-5437.2 i -2231.4
β_3	Goledd llinell sylfaen	-694.8	0.445	-6542.1 i 2923
β_4	Gwahaniaeth goledd llinell sylfaen (Cymru vs. Lloegr)	-4.2	0.282	-3491 i 1042.7
β_{5-1}	Cam ymyrraeth (Lloegr)	3725.8	0.099	-396.7 i 4472.5
β_{6-1}	Gwahaniaeth cam ymyrraeth (Cymru vs. Lloegr)	657.0	0.723	-3054.8 i 4368.9
β_{7-1}	Newid goledd ymyrraeth (Lloegr)	3123.3	0.000	1589.8 i 4656.8
β_{8-1}	Gwahaniaeth newid goledd ymyrraeth (Cymru vs. Lloegr)	1164.2	0.285	-1004.5 i 3332.9
β_{5-2}	Cam ymyrraeth (Lloegr)	-6351.0	0.000	-9697.4 i -3004.6
β_{6-2}	Gwahaniaeth cam ymyrraeth (Cymru vs. Lloegr)	-1809.5	0.445	-6542.1 i 2923

β7-2	Newid goledd ymyriad (Lloegr)	-3834.3	0.000	-5437.2 i -2231.4
	Gwahaniaeth newid goledd			
β8-2	ymyrraeth (Cymru vs. Lloegr)	-1224.1	0.282	-3491 i 1042.7
β5-3	Cam ymyrraeth (Lloegr)	2037.9	0.099	-396.7 i 4472.5
	Gwahaniaeth cam			
β6-3	ymyrraeth (Cymru vs. Lloegr)	-43.2	0.980	-3486.2 i 3399.9
β7-3	Newid goledd ymyrraeth (Lloegr)	703.1	0.045	14.9 i 1391.2
	Gwahaniaeth newid goledd			
β8-3	ymyrraeth (Cymru vs. Lloegr)	61.3	0.900	-911.9 i 1034.5

Tabl E.1 Canlyniadau model Dadansoddiad Cyfres Amser Fylchog (ITSA) ar gyfer trosiant alcohol cyfartalog gydag ymyriadau ym mis Mawrth 2020 (1), Mehefin 2020 (2) a Tachwedd 2020 (3). Mae'r cyfernodau a amlygir mewn print trwm yn arwyddocaol ar y lefel $p < 0.05$

Atodiad F: Tablau cyfernodaau'r data gwerthiannau ar gyfer siopau ar hyd y ffin yng Nghymru a Lloegr

Mae'r tablau canlynol yn adrodd cyfernodaau, gwerthoedd-p a chyfyngau hyder 95% CITS ar y mesurau canlyniadau gwerthiant ar gyfer siopau ar y ffin yng Nghymru a Lloegr.

Canlyniad cynradd: gwerthiannau alcohol cyfartalog

Tabl F.1 Canlyniadau model CITS ar gyfer gwerthiannau alcohol cyfartalog mewn siopau ar hyd y ffin

Cyfernod	Ystyr	Gwerth	Gwerth-P	Cyfwng hyder 95%
β_1	Lefel llinell sylfaen (Lloegr)	8707.608	< 0.001	5901.775 i 11513.441
β_2	Gwahaniaeth lefel llinell sylfaen (Cymru vs. Lloegr)	- 1129.051	0.570	-5097.098 i 2838.996
β_3	Goledd llinell sylfaen	-50.805	0.899	-851.360 i 749.750
β_4	Gwahaniaeth goledd llinell sylfaen (Cymru vs. Lloegr)	158.607	0.780	-973.549 i 1290.763
β_5	Cam ymyrraeth (Lloegr)	4796.880	0.004	1629.804 i 7963.957
β_6	Gwahaniaeth cam ymyrraeth (Cymru vs. Lloegr)	- 1570.684	0.485	-6049.606 i 2908.239
β_7	Newid goledd ymyrraeth (Lloegr)	-91.874	0.827	-931.004 i 747.256
β_8	Gwahaniaeth newid goledd ymyrraeth (Cymru vs. Lloegr)	-103.682	0.862	-1290.391 i 1083.027

Tabl F.1 Canlyniadau model Dadansoddiad Cyfres Amser Fylchog (ITSA) ar gyfer gwerthiannau alcohol cyfartalog mewn siopau ar y ffin yng Nghymru a Lloegr gydag ymyriadau ym mis Mawrth 2020. Mae'r cyfernodaau a amlygir mewn print trwm yn arwyddocaol ar y lefel $p < 0.05$

Canlyniadau eilaidd

Canran cyfanswm y gwerthiannau sy'n deillio o alcohol

Tabl F.2 Canlyniadau model CITS ar gyfer canran cyfanswm y gwerthiannau sy'n deillio o alcohol mewn siopau ar y ffin

Cyfernod	Ystyr	Gwerth	Gwerth-P	Cyfwng hyder 95%
β_1	Lefel llinell sylfaen (Lloegr)	0.152	< 0.001	0.128 i 0.176
β_2	Gwahaniaeth lefel llinell sylfaen (Cymru vs. Lloegr)	-0.018	0.282	-0.052 i 0.016
β_3	Goledd llinell sylfaen	-0.000	0.943	-0.008 i 0.007
β_4	Gwahaniaeth goledd llinell sylfaen (Cymru vs. Lloegr)	0.003	0.511	-0.007 i 0.014
β_5	Cam ymyrraeth (Lloegr)	0.035	0.025	0.005 i 0.065
β_6	Gwahaniaeth cam ymyrraeth (Cymru vs. Lloegr)	0.008	0.697	-0.034 i 0.051
β_7	Newid goledd ymyrraeth (Lloegr)	-0.002	0.602	-0.009 i 0.006
β_8	Gwahaniaeth newid goledd ymyrraeth (Cymru vs. Lloegr)	-0.004	0.478	-0.014 i 0.007

Tabl F.2: Canlyniadau model Dadansoddiad Cyfres Amser Fylchog (ITSA) ar gyfer canran cyfanswm y gwerthiannau sy'n deillio o alcohol mewn siopau ar y ffin yng Nghymru a Lloegr gydag ymyriadau ym mis Mawrth 2020. Mae'r cyfernodau a amlygir mewn print trwm yn arwyddocaol ar y lefel $p < 0.05$

Nifer cyfartalog y trafodion alcohol

Tabl F.3 Canlyniadau model CITS ar gyfer nifer cyfartalog y trafodion alcohol mewn siopau ar y ffin

Cyfernod	Ystyr	Gwerth	Gwerth-P	Cyfwng hyder 95%
β1	Lefel llinell sylfaen (Lloegr)	1051.658	< 0.001	784.311 i 1319.005
β2	Gwahaniaeth lefel llinell sylfaen (Cymru vs. Lloegr)	-56.809	0.764	-434.895 i 321.277
β3	Goledd llinell sylfaen	-15.852	0.667	-89.277 i 57.574
β4	Gwahaniaeth goleddd llinell sylfaen (Cymru vs. Lloegr)	9.081	0.861	-94.758 i 112.921
β5	Cam ymyrraeth (Lloegr)	369.664	0.011	88.913 i 650.415
β6	Gwahaniaeth cam ymyrraeth (Cymru vs. Lloegr)	-132.474	0.506	-529.516 i 264.567
β7	Newid goleddd ymyrraeth (Lloegr)	4.168	0.915	-73.661 i 81.997
β8	Gwahaniaeth newid goleddd ymyrraeth (Cymru vs. Lloegr)	-5.594	0.919	-115.661 i 104.473

Tabl F.3: Canlyniadau model Dadansoddiad Cyfres Amser Fylchog (ITSA) ar gyfer nifer cyfartalog y trafodion alcohol mewn siopau ar y ffin yng Nghymru a Lloegr gydag ymyriadau ym mis Mawrth 2020. Mae'r cyfernodau a amlygir mewn print trwm yn arwyddocaol ar y lefel $p < 0.05$

Canran yr holl drafodion gwerthiannau sy'n cynnwys rhywfaint o alcohol

Tabl F.4 Canlyniadau model CITS ar gyfer canran yr holl drafodion gwerthiannau sy'n cynnwys rhywfaint o alcohol mewn siopau ar y ffin

Cyfernod	Ystyr	Gwerth	Gwerth-P	Cyfwng hyder 95%
β1	Lefel llinell sylfaen (Lloegr)	0.115	< 0.001	0.090 i 0.141
β2	Gwahaniaeth lefel llinell sylfaen (Cymru vs. Lloegr)	-0.012	0.508	-0.048 i 0.024
β3	Goledd llinell sylfaen	0.001	0.840	-0.007 i 0.009
β4	Gwahaniaeth goleddd llinell sylfaen (Cymru vs. Lloegr)	0.002	0.740	-0.009 i 0.013
β5	Cam ymyrraeth (Lloegr)	0.039	0.022	0.006 i 0.073
β6	Gwahaniaeth cam ymyrraeth (Cymru vs. Lloegr)	0.004	0.879	-0.044 i 0.051
β7	Newid goleddd ymyrraeth (Lloegr)	-0.003	0.535	-0.011 i 0.006
β8	Gwahaniaeth newid goleddd ymyrraeth (Cymru vs. Lloegr)	-0.002	0.676	-0.014 i 0.009

Tabl F.4: Canlyniadau model Dadansoddiad Cyfres Amser Fylchog (ITSA) ar gyfer canran yr holl drafodion gwerthiannau sy'n cynnwys rhywfaint o alcohol mewn siopau ar y ffin yng Nghymru a Lloegr gydag ymyriadau ym mis Mawrth 2020. Mae'r cyfernodau a amlygir mewn print trwm yn arwyddocaol ar y lefel $p < 0.05$

Atodiad G: Tablau cyfernodau'r data gwerthiannau ar gyfer siopau heb fod ar y ffin yng Nghymru a Lloegr

Mae'r tablau canlynol yn adrodd cyfernodau, gwerthoedd-p a chyfyngau hyder 95% CITS ar y mesurau canlyniadau gwerthiant ar gyfer siopau heb fod ar y ffin yng Nghymru a Lloegr.

Canlyniad cynradd: gwerthiannau alcohol cyfartalog

Tabl G.1 Canlyniadau model CITS ar gyfer gwerthiannau alcohol cyfartalog mewn siopau heb fod ar y ffin

Cyfernod	Ystyr	Gwerth	Gwerth-P	Cyfwng hyder 95%
β1	Lefel llinell sylfaen (Lloegr)	8160.346	< 0.001	5394.884 i 10925.808
β2	Gwahaniaeth lefel llinell sylfaen (Cymru vs. Lloegr)	-765.598	0.696	-4676.551 i 3145.356
β3	Goledd llinell sylfaen	65.623	0.876	-771.184 i 902.429
β4	Gwahaniaeth goleddd llinell sylfaen (Cymru vs. Lloegr)	97.737	0.869	-1085.686 i 1281.160
β5	Cam ymyrraeth (Lloegr)	4864.299	0.007	1417.340 i 8311.258
β6	Gwahaniaeth cam ymyrraeth (Cymru vs. Lloegr)	1448.275	0.554	-3426.462 i 6323.011
β7	Newid goleddd ymyrraeth (Lloegr)	-220.506	0.610	-1083.371 i 642.359
β8	Gwahaniaeth newid goleddd ymyrraeth (Cymru vs. Lloegr)	-94.475	0.877	-1314.750 i 1125.801

Tabl G.1: Canlyniadau model Dadansoddiad Cyfres Amser Fylchog (ITSA) ar gyfer gwerthiannau alcohol cyfartalog mewn siopau heb fod ar y ffin yng Nghymru a Lloegr gydag ymyriadau ym mis Mawrth 2020. Mae'r cyfernodau a amlygir mewn print trwm yn arwyddocaol ar y lefel $p < 0.05$

Canlyniadau eilaidd

Canran cyfanswm y gwerthiannau sy'n deillio o alcohol

Tabl G.2 Canlyniadau model CITS ar gyfer canran cyfanswm y gwerthiannau sy'n deillio o alcohol mewn siopau heb fod ar y ffin

Cyfernod	Ystyr	Gwerth	Gwerth-P	Cyfwng hyder 95%
β1	Lefel llinell sylfaen (Lloegr)	0.142	< 0.001	0.123 i 0.162
β2	Gwahaniaeth lefel llinell sylfaen (Cymru vs. Lloegr)	-0.018	0.189	-0.046 i 0.009
β3	Goledd llinell sylfaen	0.000	0.942	-0.006 i 0.007
β4	Gwahaniaeth goledd llinell sylfaen (Cymru vs. Lloegr)	0.000	0.947	-0.009 i 0.009
β5	Cam ymyrraeth (Lloegr)	0.037	0.008	0.010 i 0.064
β6	Gwahaniaeth cam ymyrraeth (Cymru vs. Lloegr)	0.025	0.189	-0.013 i 0.063
β7	Newid goledd ymyrraeth (Lloegr)	-0.002	0.590	-0.008 i 0.005
β8	Gwahaniaeth newid goledd ymyrraeth (Cymru vs. Lloegr)	-0.000	0.944	-0.009 i 0.009

Tabl G.2: Canlyniadau model Dadansoddiad Cyfres Amser Fylchog (ITSA) ar gyfer cyfanswm y gwerthiannau sy'n deillio o alcohol mewn siopau heb fod ar y ffin yng Nghymru a Lloegr gydag ymyriadau ym mis Mawrth 2020. Mae'r cyfernodau a amlygir mewn print trwm yn arwyddocaol ar y lefel $p < 0.05$

Nifer cyfartalog y trafodion alcohol

Tabl G.3 Canlyniadau model CITS ar gyfer nifer cyfartalog y trafodion alcohol mewn siopau heb fod ar y ffin

Cyfernod	Ystyr	Gwerth	Gwerth-P	Cyfwng hyder 95%
β1	Lefel llinell sylfaen (Lloegr)	1105.800	< 0.001	827.661 i 1383.939
β2	Gwahaniaeth lefel llinell sylfaen (Cymru vs. Lloegr)	-120.150	0.543	-513.498 i 273.197
β3	Goledd llinell sylfaen	0.038	0.999	-76.175 i 76.250
β4	Gwahaniaeth goledd llinell sylfaen (Cymru vs. Lloegr)	9.497	0.860	-98.284 i 117.278

β5	Cam ymyrraeth (Lloegr)	354.847	0.018	64.095 i 645.598
β6	Gwahaniaeth cam ymyrraeth (Cymru vs. Lloegr)	40.374	0.845	-370.811 i 451.559
β7	Newid goleddd ymyrraeth (Lloegr)	-13.638	0.736	-94.477 i 67.201
β8	Gwahaniaeth newid goleddd ymyrraeth (Cymru vs. Lloegr)	-8.011	0.889	-122.335 i 106.312

Tabl G.3: Canlyniadau model Dadansoddiad Cyfres Amser Fylchog (ITSA) ar gyfer nifer cyfartalog y trafodion alcohol mewn siopau heb fod ar y ffin yng Nghymru a Lloegr gydag ymyriadau ym mis Mawrth 2020. Mae'r cyfernodau a amlygir mewn print trwm yn arwyddocaol ar y lefel $p < 0.05$

Canran yr holl drafodion gwerthiannau sy'n cynnwys rhywfaint o alcohol

Tabl G.4 Canlyniadau model CITS ar gyfer canran yr holl drafodion gwerthiannau sy'n cynnwys rhywfaint o alcohol mewn siopau heb fod ar y ffin

Cyfernod	Ystyr	Gwerth	Gwerth-P	Cyfwng hyder 95%
β1	Lefel llinell sylfaen (Lloegr)	0.124	< 0.001	0.102 i 0.145
β2	Gwahaniaeth lefel llinell sylfaen (Cymru vs. Lloegr)	-0.018	0.230	-0.049 i 0.012
β3	Goledd llinell sylfaen	0.001	0.744	-0.006 i 0.008
β4	Gwahaniaeth goleddd llinell sylfaen (Cymru vs. Lloegr)	0.000	0.994	-0.010 i 0.010
β5	Cam ymyrraeth (Lloegr)	0.044	0.004	0.015 i 0.074
β6	Gwahaniaeth cam ymyrraeth (Cymru vs. Lloegr)	0.011	0.581	-0.030 i 0.053
β7	Newid goleddd ymyrraeth (Lloegr)	-0.003	0.440	-0.010 i 0.004
β8	Gwahaniaeth newid goleddd ymyrraeth (Cymru vs. Lloegr)	0.000	0.981	-0.010 i 0.010

Tabl G.4: Canlyniadau model Dadansoddiad Cyfres Amser Fylchog (ITSA) ar gyfer yr holl drafodion gwerthiannau sy'n cynnwys rhywfaint o alcohol mewn siopau heb fod ar y ffin yng Nghymru a Lloegr gydag ymyriadau ym mis Mawrth 2020. Mae'r cyfernodau a amlygir mewn print trwm yn arwyddocaol ar y lefel $p < 0.05$

Atodiad H: Tablau cyfernodau'r data pryniannau defnyddwyr

Mae'r tablau canlynol yn adrodd cyfernodau, gwerthoedd-p a chyfyngau hyder 95% CITS y mesurau canlyniadau pryniannau yng Nghymru a Lloegr.

Canlyniad cynradd: cyfaint cyfartalog aelwydydd (litrau)

Tabl H.1 Canlyniadau model CITS ar gyfer cyfaint cyfartalog aelwydydd (litrau)

Cyfernod	Ystyr	Gwerth	Gwerth-P	Cyfwng hyder 95%
β_1	Lefel llinell sylfaen (Lloegr)	12.156	0.000	11.617 i 12.694
β_2	Gwahaniaeth lefel llinell sylfaen (Cymru vs. Lloegr)	0.001	0.841	-0.013 i 0.015
β_3	Goledd llinell sylfaen	0.596	0.124	-0.164 i 1.358
β_4	Gwahaniaeth goledd llinell sylfaen (Cymru vs. Lloegr)	0.011	0.284	-0.009 i 0.031
β_5	Cam ymyrraeth (Lloegr)	3.037	0.000	2.038 i 4.037
β_6	Gwahaniaeth cam ymyrraeth (Cymru vs. Lloegr)	-0.675	0.347	-2.089 i 0.737
β_7	Newid goledd ymyrraeth (Lloegr)	-0.084	0.006	-0.143 i -0.025
β_8	Gwahaniaeth newid goledd ymyrraeth (Cymru vs. Lloegr)	-0.051	0.224	-0.135 i 0.031

Tabl H.1: Canlyniadau model Dadansoddiad Cyfres Amser Fylchog (ITSA) ar gyfer cyfaint cyfartalog aelwydydd (litrau) yng Nghymru a Lloegr gydag ymyriadau ym mis Mawrth 2020. Mae'r cyfernodau a amlygir mewn print trwm yn arwyddocaol ar y lefel $p < 0.05$

Canlyniadau eilaidd

Pris cyfartalog litr o ddiod alcoholig

Tabl H.2 Canlyniadau model CITS ar gyfer pris cyfartalog litr o ddiod alcoholig

Cyfernod	Ystyr	Gwerth	Gwerth-P	Cyfwng hyder 95%
β_1	Lefel llinell sylfaen (Lloegr)	4.386	0.000	4.103 i 4.669
β_2	Gwahaniaeth lefel llinell sylfaen (Cymru vs. Lloegr)	0.008	0.028	0.000 i 0.015
β_3	Goledd llinell sylfaen	-0.289	0.154	-0.689 i 0.110
β_4	Gwahaniaeth goledl llinell sylfaen (Cymru vs. Lloegr)	-0.002	0.640	-0.0129 i 0.007
β_5	Cam ymyrraeth (Lloegr)	-0.182	0.343	-0.559 i 0.195
β_6	Gwahaniaeth cam ymyrraeth (Cymru vs. Lloegr)	0.681	0.013	0.147 i 1.215
β_7	Newid goledl ymyrraeth (Lloegr)	0.006	0.655	-0.021 i 0.033
β_8	Gwahaniaeth newid goledl ymyrraeth (Cymru vs. Lloegr)	0.016	0.391	-0.021 i 0.055

Tabl H.2: Canlyniadau model Dadansoddiad Cyfres Amser Fylchog (ITSA) ar gyfer pris cyfartalog litr o ddiod alcoholig yng Nghymru a Lloegr gydag ymyriadau ym mis Mawrth 2020. Mae'r cyfernodau a amlygir mewn print trwm yn arwyddocaol ar y lefel $p < 0.05$

Gwariant cyfartalog aelwydydd ar alcohol (£)

Tabl H.3 Canlyniadau model CITS ar gyfer gwariant cyfartalog aelwydydd ar alcohol (£)

Cyfernod	Ystyr	Gwerth	Gwerth-P	Cyfwng hyder 95%
β_1	Lefel llinell sylfaen (Lloegr)	52.950	0.000	49.492 i 56.408
β_2	Gwahaniaeth lefel llinell sylfaen (Cymru vs. Lloegr)	0.120	0.011	0.027 i 0.213
β_3	Goledd llinell sylfaen	-1.065	0.668	-5.955 i 3.825
β_4	Gwahaniaeth goleddd llinell sylfaen (Cymru vs. Lloegr)	0.020	0.763	-0.111 i 0.151
β_5	Cam ymyrraeth (Lloegr)	10.992	0.001	4.659 i 17.325
β_6	Gwahaniaeth cam ymyrraeth (Cymru vs. Lloegr)	6.948	0.127	-2.006 i 15.904
β_7	Newid goleddd ymyrraeth (Lloegr)	-0.281	0.142	-0.658 i 0.094
β_8	Gwahaniaeth newid goleddd ymyrraeth (Cymru vs. Lloegr)	-0.077	0.775	-0.609 i 0.455

Tabl H.3: Canlyniadau model Dadansoddiad Cyfres Amser Fylchog (ITSA) ar gyfer gwariant cyfartalog aelwydydd ar alcohol (£) yng Nghymru a Lloegr gydag ymyriadau ym mis Mawrth 2020. Mae'r cyfernodau a amlygir mewn print trwm yn arwyddocaol ar y lefel $p < 0.05$

Atodiad I: Panel Pryniant Nwyddau sy'n Gwerthu'n Gyflym (FMCG) Kantar a Dadansoddiad Enillion a Cholledion

Panel ymchwil i'r farchnad yw Panel Pryniant Nwyddau sy'n Gwerthu'n Gyflym (FMCG) Kantar sy'n cynnwys 30,000 o aelwydydd a ddewiswyd i adlewyrchu holl aelwydydd Prydain Fawr yn ôl rhanbarth a demograffeg. Sefydlwyd y fethodoleg gyda'r nod o gasglu'r data am yr holl bryniannau bwyd a diod yr aed â nhw yn ôl i'r cartref, ni waeth ble y'u prynwyd (e.e., siop gornel, archfarchnad neu siop adrannol) ac mae'n cynnwys pryniannau a ddanfonwyd gan archfarchnadoedd a phryniannau clicio a chasglu. Nid yw'r cynhyrchion a gaiff eu prynu a'u defnyddio tu allan i'r cartref wedi'u cynnwys.

Defnyddiodd y prosiect a gwblhawyd i Lywodraeth Cymru ddata panel pryniant Nwyddau sy'n Gwerthu'n Gyflym Kantar er mwyn adolygu newidiadau mewn pryniannau alcohol ar draws a) Cymru a b) Lloegr ar wahân. Roedd y cyfnodau a'r samplau cyfatebol fel a ganlyn:

	28w/g 1 Rhagfyr 2019	28 w/g 28 Tachwedd 2021
Cymru	1,165 o aelwydydd	1,066 o aelwydydd
Lloegr	19,153 o aelwydydd	18,264 aelwydydd

Mae'r dadansoddiad Enillion a Cholledion yn esbonio'r newidiadau o ran cyfaint dros y ddau gyfnod.

Cynhaliwyd y dadansoddiad hwn ar 4 lefel wahanol yn y farchnad alcohol yn y cartref:

- Math o alcohol (e.e. Cwrw, Gwirodydd);
- Manwerthwyr (e.e. Tesco, Asda);
- Ystod yr alcohol yn ôl cyfaint (ABV) (e.e. Gwirodydd sy'n cynnwys alcohol yn ôl cyfaint 40+, Gwin sy'n cynnwys alcohol yn ôl cyfaint hyd at 6%);
- Maint y pecyn (e.e. 75cl, 18x440ml).

Mae'r dadansoddiad yn dosbarthu'r newid yn y cyfaint ar gyfer pob llinell (e.e. cwrw) i'r canlynol:

- **Newid net** (newid y cyfaint o un math o alcohol¹⁰ i un arall);

¹⁰ Defnyddiwyd math o alcohol fel enghraifft. Gall symudiadau cyfaint fod yn negyddol hefyd ac felly dylid eu dehongli fel gostyngiadau.

- **Siopwyr a ddelir** (cynnydd yn y cyfaint gan siopwyr a brynodd y math o alcohol* yng nghyfnod 1, gan brynu mwy ohono yng nghyfnod 2 heb effeithio ar eu pryniannau o alcohol o unrhyw fath arall);
- **Siopwyr a enillwyd/collwyd** (cynnydd yn y cyfaint gan y siopwyr alcohol presennol yn ychwanegu'r math o alcohol i'w pryniannau alcohol heb effeithio ar eu pryniannau o unrhyw fath arall o alcohol;
- **Categori Cyraeddiadau /Ymadawiadau** (cynnydd yn y cyfaint gan y siopwyr nad oeddent wedi prynu alcohol yng nghyfnod 1 yn prynu'r math o alcohol yng nghyfnod 2).

Gwnaethpwyd y gwaith gan Roz Wade – Cyfarwyddwr Barn Defnyddwyr yn Kantar. Cysylltwch â Sally.Ball@kantar.com am fwy o fanylion ynghylch Kantar.